# Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG) | | STANDING ADVISORY COUNCIL FOR RELIGIOUS EDUCATION (SACRE) |
| DYDD MAWRTH, 25 CHWEFROR 2020 AM 2.00 O'R GLOCH | | TUESDAY, 25 FEBRUARY 2020 AT 2.00 PM |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1 SWYDDFEYDD Y CYNGOR LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1 COUNCIL OFFICES LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Shirley Cooke 01248 752514 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**

**Cynghorwyr / Councillors:-**

Glyn Haynes, Aled Morris Jones, Gwilym O Jones, Alun Mummery, Dylan Rees, Alun Roberts

**Yr Enwadau Crefyddol/Religious Denominations**

Anest Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Christopher Thomas (Yr Eglwys Babyddol/The Catholic Church), Sedd Wag/Vacant Seat (Yr Eglwys Fethodistaidd/ The Methodist Church), Mrs Catherine Jones (Undeb y Bedyddwyr/The Baptist Union of Wales), Parch/Rev Jim Clarke (Undeb yr Annibynnwyr Cymraeg/Union of Welsh Independents), Sedd Wag/Vacant Seat (Yr Eglwys Bresbyteraidd/Presbyterian Church of Wales), Mr Gerald Hewitson (Crynwyr Môn/Anglesey Quakers)

**Athrawon/Teachers**

Amanda Earnshaw (Ysgol Cybi), Mefys Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones), Manon Morris Williams (Ysgol Santes Dwynwen), Heledd Hearn (Ysgol Uwchradd Bodedern)

**Aelodau Cyfetholedig/Co-Opted Members**

Rheinallt Thomas

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION - 15 HYDREF 2019** (Tudalennau 1 - 6)

• Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod blaenorol o'r CYSAG a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2019.

• I drafod unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion.

3 **ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG YNYS MÔN AR GYFER 2018/19** (Tudalennau 7 - 32)

Ystyried Adroddiad Blynyddol CYSAG Ynys Môn ar gyfer 2018/19 i'w fabwysiadu.

4 **PANEL GWEITHREDOL CYSAG YSGOLION - CYLCH GORCHWYL A CHYNLLUN GWEITHREDU 2020/22** (Tudalennau 33 - 34)

• Cyflwyno Cylch Gorchwyl Panel Gweithredol CYSAG Ysgolion.

• Derbyn diweddariad ar Gynllun Gweithredu CYSAG 2020/22.

5 **SAFONAU ADDYSG GREFYDDOL** (Tudalennau 35 - 58)

Cyflwyno adroddiadau arolwg Estyn a gynhaliwyd yn yr ysgolion canlynol:-

• Ysgol Goronwy Owen, Benllech
• Ysgol Rhyd y Llan, Llanfaethlu

6 **ADRODDIADAU HUNAN ARFARNU YSGOLION** (Tudalennau 59 - 66)

Cyflwyno adroddiadau hunan arfarnu AG gan yr ysgolion canlynol:-

• Ysgol y Fali
• Ysgol Rhoscolyn

7 **Y CWRICWLWM NEWYDD I GYMRU 2022**

Derbyn diweddariad gan yr Ymgynghorydd AG ar y Cwricwlwm Newydd i Gymru 2022 a'r Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau.

8 **CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU (CCYSAGAUC)** (Tudalennau 67 - 94)

• Cyflwyno, er gwybodaeth, gofnodion drafft cyfarfod blaenorol y Gymdeithas a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2019 yn Aberaeron, Ceredigion.

• Ystyried enwebiadau i'r Pwyllgor Gweithredol.

• Cyflwyno ymateb Pwyllgor Gweithredol CCYSAGauC i'r ymgynghoriad ar sicrhau mynediad i'r cwricwlwm llawn.

- Cyflwyno'r ohebiaeth gan Gadeirydd CYSAGauC mewn perthynas ag:-

- AG Cyfnod Allweddol 4;
- Fframwaith AG 2022.

## 9 <u>GOHEBIAETH</u>

Y Cadeirydd i adrodd am unrhyw ohebiaeth a dderbyniwyd.

## 10 <u>CYFARFOD NESAF</u>

Mae cyfarfod nesaf CYSAG wedi'i drefnu ar gyfer 23 Mehefin 2020 am 2.00 o'r gloch y prynhawn.

This page is intentionally left blank

# CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2019

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)<br><br>**Yr Awdurdod Addysg**<br><br>Y Cynghorwyr Gwilym O Jones, Alun W Mummery, Alun Roberts<br><br>**Yr Enwadau Crefyddol**<br><br>Y Parchedig Jim Clarke (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)<br>Mrs Anest Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru)<br>Mr Gerald Hewitson (Y Crynwyr)<br>Mrs Catherine Jones (Undeb Bedyddwyr Cymru)<br>Mr Christopher Thomas (Yr Eglwys Gatholig Rufeinig)<br><br>**Cynrychiolwyr yr Athrawon**<br><br>Mrs Amanda Earnshaw (Ysgol Cybi)<br>Mrs Heledd Hearn (Ysgol Uwchradd Bodedern) |
| **WRTH LAW:** | Mrs Helen Bebb (Ysgol Uwchradd Porthaethwy) (Ymgynghorydd AG)<br>Mrs Gwyneth M Hughes (Uwch Reolwr Llesiant, Addysg) (Clerc i'r CYSAG)<br>Mrs Margaret Peters (Swyddog Prosiect Cefnogi Busnes Ysgolion)<br>Mrs Shirley Cooke (Swyddog Pwyllgor) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Glyn Haynes<br>Mrs Mefys Jones-Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch)<br>Mrs Manon Morris Williams (Ysgol Santes Dwynwen)<br>Mr Rheinallt Thomas (Aelod Cyfetholedig – Cyngor Ysgolion Sul) |

---

Rhoes y Cadeirydd groeso i bawb a oedd yn bresennol ac estynnodd groeso arbennig i'r Parchedig Jim Clarke a Mrs Margaret Peters o'r Adran Addysg i'w cyfarfod cyntaf o'r CYSAG. Mae'r Parchedig Clarke wedi cael ei benodi fel cynrychiolydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ar y CYSAG a bydd Mrs Peters yn cysgodi Clerc y CYSAG.

### 1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

## 2. COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r CYSAG a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2019.

**Materion yn codi o'r cofnodion:-**

- Cadarnhawyd bod aelodau'r CYSAG wedi cytuno i gynnwys aelodau o enwadau crefyddol eraill ar y Pwyllgor.
- Gan gyfeirio at y ddwy sedd wag sydd ar y CYSAG, dywedodd y Cadeirydd y byddai'n mynd ar ôl mater y sedd wag ar gyfer Aelod etholedig o'r Cyngor. Mae'r Parchedig Jim Clarke wedi cynnig codi mater y sedd wag ar gyfer cynrychiolydd o'r Eglwys Bresbyteraidd gyda'r Eglwys.
- Cadarnhawyd bod y Clerc i'r CYSAG wedi targedu un dalgylch o ran gofyn am adroddiadau hunan-arfarnu'r ysgolion.
- Nodwyd bod ymateb y CYSAG i'r holiadur ar y Cwricwlwm Drafft i Gymru 2022 wedi cael ei anfon ymlaen i Lywodraeth Cymru.
- Rhoes y Cadeirydd a'r Clerc i'r CYSAG adborth o'r cyfarfod o Gymdeithas CYSAGau Cymru yr aethant iddo yng Nghonwy ar 28 Mehefin 2019. Nodwyd bod Cymdeithas CYSAGau Cymru wedi bod yn lobïo'r Gweinidog Addysg i fuddsoddi arian i dalu am ymgynghorwyr i ddarparu cyngor ac arweiniad arbenigol i'r CYSAGau ar draws Cymru mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd.
- Cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd yn ymweld ag Ysgol Talwrn yr wythnos nesaf i arsylwi Addoli ar y Cyd yn yr ysgol. Erfyniodd ar aelodau'r CYSAG i drefnu ymweliadau ag ysgolion lleol yn eu hardaloedd; i arsylwi sesiynau Addoli ar y Cyd, i edrych ar lyfrau gwaith y disgyblion, i siarad â'r plant ac yna adrodd yn ôl i'r CYSAG ar eu canfyddiadau.

Trafododd y CYSAG yr opsiwn o fabwysiadu ymagwedd fwy strwythuredig, ffurfiol o gofnodi ymweliadau ag ysgolion a darparu adborth i bwrpas monitro. Awgrymwyd y dylid adolygu a diweddaru'r templed a baratowyd eisoes gan Miss Bethan James i gofnodi Addoli ar y Cyd ac ymweliadau ag ysgolion.

- Rhannodd yr Ymgynghorydd AG gopïau o bapurau arholiad TGAU AG Cymraeg a Saesneg a Lefel A Athroniaeth a Moeseg fel y gall y CYSAG ddod yn gyfarwydd â'r Maes Llafur Cytûn.

Yn y cyfarfod diwethaf o'r CYSAG, roedd cynrychiolwyr yr athrawon AG wedi mynegi pryderon fod cyflawni'r maes llafur AG wedi dod yn fwy heriol oherwydd prinder adnoddau Cymraeg a llwyth gwaith beichus athrawon AG o gymharu â phynciau eraill. Nodwyd bod adroddiad wedi ymddangos yn ddiweddar yn y wasg leol ar brinder adnoddau dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, mater yr oedd CYSAG Gwynedd wedi dwyn sylw ato.

Mynegwyd pryderon ynghylch y ddarpariaeth o adnoddau AG ac effaith tymor hir hyn ar ysgolion, yr anghysondeb rhwng papurau arholiad a'r llwyth gwaith yn y maes llafur AG o gymharu â phynciau eraill megis Hanes a Daearyddiaeth. Roedd y CYSAG yn teimlo'n gryf y dylid codi'r materion uchod gyda CBAC a Chymdeithas CYSAGau Cymru. Cytunodd y CYSAG y byddai'r materion uchod yn cael eu codi gan Mr Rheinallt Thomas yn y cyfarfod nesaf o Gymdeithas CYSAGau Cymru.

Mynegodd y CYSAG bryderon ynghylch prinder yr athrawon sy'n cael eu hyfforddi ar hyn o bryd i ddysgu Dyniaethau fel pwnc, rhywbeth a fydd yn cael effaith negyddol ar AG yn y dyfodol.

Dywedodd y Clerc i'r CYSAG fod Miss Bethan James, ymgynghorydd blaenorol y CYSAG wedi awgrymu y dylid penodi cynrychiolydd athrawon o ysgol gynradd nad ydyw'n ysgol eglwys i wasanaethu ar y CYSAG er mwyn cryfhau'r berthynas rhwng y CYSAG ac ysgolion.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Bod y Cadeirydd yn codi mater y sedd wag ar gyfer Aelod etholedig ar y CYSAG gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.**
- **Bod y Parchedig Jim Clarke yn cysylltu â'r Eglwys Bresbyteraidd i ofyn i'r Eglwys enwebu cynrychiolydd i ymuno â'r CYSAG.**
- **Bod yr aelodau'n parhau i ymweld ag ysgolion lleol i arsylwi Addoli ar y Cyd a defnyddio'r templed a baratowyd eisoes gan Miss Bethan James.**
- **Bod y Clerc, ar ran y CYSAG, yn ysgrifennu at CBAC yn mynegi pryderon ynghylch yr anghysondeb rhwng papurau arholiad a'r baich gwaith sy'n gysylltiedig â'r maes llafur AG o gymharu â phynciau eraill.**
- **Bod mater yr anghysondeb rhwng TGAU a Lefel A AG o gymharu â phynciau eraill yn cael ei godi gan Mr Rheinallt Thomas yng nghyfarfod nesaf Cymdeithas CYSAGau Cymru.**
- **Bod y Clerc a chynrychiolwyr yr athrawon yn trafod cynnwys y llythyr at CBAC ynglŷn â'r maes llafur AG a baich gwaith trwm yr athrawon.**
- **Bod y Clerc yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnwys cynrychiolydd athrawon ysgol gynradd nad yw'n ysgol eglwys ar y CYSAG.**

## 3. CYNRYCHIOLAETH YR ENWADAU CREFYDDOL AR Y CYSAG

Trafododd y CYSAG a chytuno i dderbyn Y Crynwyr fel enwad crefyddol ar y CYSAG.

Cafodd Mr Gerald Hewitson, aelod o Grynwyr Ynys Môn ei enwebu a'i benodi'n aelod o'r CYSAG ac fe'i croesawyd yn ffurfiol gan y Cadeirydd.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.**

## 4. CYNLLUN GWEITHREDU CYSAG YNYS MÔN AM 2019/22

Dywedodd y Cadeirydd fod Cynllun Gweithredu'r CYSAG ar gyfer 2019/22 wedi cael ei fabwysiadu yng nghyfarfod diwethaf y CYSAG ac y caiff ei adolygu'n rheolaidd.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar addasu'r ffordd y mae'r CYSAG yn gweithio a chyflwyno lefel o arbenigedd i'r CYSAG. Dywedodd y Clerc i'r CYSAG y bydd yn cymryd drosodd rôl yr Ymgynghorydd AG gan Mrs Helen Bebb, ac y bydd yn paratoi'r Cynllun Gweithredu yn y dyfodol ac yn cynrychioli'r CYSAG mewn cyfarfodydd.

Gobeithir cynnal cyfarfodydd anffurfiol ychwanegol rhwng y Clerc ac athrawon

o’r sector uwchradd i rannu eu harbenigedd pwnc ac arfer dda mewn AG. Bydd y Clerc wedyn yn rhannu hyn gyda’r CYSAG. Bydd cyfle wedyn i aelodau’r CYSAG rannu arferion da ar draws y sector cynradd yn eu hardaloedd gan sicrhau fod llais y CYSAG yn cyrraedd yr holl ysgolion a fod parhad o ran yr hyn y mae plant yn ei ddysgu.

Cytunodd y CYSAG fod y cynnig uchod yn ffordd ymlaen ardderchog a chyffrous a hynny o safbwynt hyrwyddo proffil y CYSAG a chodi delwedd AG mewn ysgolion. Nodwyd y byddai sianelau cyfathrebu newydd yn agor ac y byddai modd pontio’r bwlch rhwng y sector cynradd ac uwchradd.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Derbyn y wybodaeth a gyflwynwyd yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer 2019/22.**
- **Nodi arfer dda yn y sector uwchradd a hwyluso rhannu arfer dda er lles yr ysgolion a’r athrawon a pharhau i godi proffil y CYSAG.**

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG YNYS MÔN AM 2018/19

Dywedodd y Clerc i’r CYSAG y bydd yn paratoi Adroddiad Blynyddol y CYSAG ar gyfer 2018/19, a fydd yn cynnwys gwybodaeth fanwl ar ganlyniadau arholiadau TGAU a Lefel A. Nodwyd y bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno ar ddiwyg drafft, naill ai’r tymor hwn, neu yng nghyfarfod nesaf y CYSAG.

**PENDERFYNWYD nodi’r wybodaeth a gyflwynwyd.**

## 6. ADRODDIADAU HUNAN-ARFARNU’R YSGOLION

Cyflwynwyd adroddiadau hunan-arfarnu ysgolion gan Ysgol Gynradd Bodedern, Ysgol Gymuned Llannerch-y-medd ac Ysgol Gymraeg Morswyn.

Nodwyd bod adroddiad hunan-arfarnu Bodedern yn dwyn sylw at rai arferion da sef y cyfleoedd a roddir i ddisgyblion siarad, gofyn cwestiynau a mynegi eu barn yn effeithiol yn y Cyfnod Sylfaen. Cyfeiriwyd at y ffaith fod disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 yn defnyddio eu sgiliau llythrennedd yn llwyddiannus i ymchwilio i wybodaeth a chwblhau tasgau ysgrifenedig.

Mae’n amlwg bod yr adroddiad hunan-arfarnu gan Ysgol Gymuned Llannerch-y-Medd yn onest iawn, oherwydd dywed y Pennaeth bod y safonau yn yr ysgol yn foddhaol. Mae gan y disgyblion gefndir AG da; mae’r gwaith yn cael ei gynllunio ymlaen llaw; yn cael ei amserlennu’n gadarn ar sail wythnosol; ac yn cael ei restru fel blaenoriaeth yn y Cynllun Datblygu. Ym marn y CYSAG, roedd yr enghreifftiau o waith y disgyblion yn yr ystafell ddosbarth yn ardderchog.

Dywed adroddiad hunan-arfarnu Ysgol Morswyn fod y corff Llywodraethu wedi monitro AG yn yr ysgol, ac y dylid eu canmol am hynny. Nodwyd bod cynnydd da wedi ei wneud mewn gwahanol feysydd a bod dealltwriaeth y disgyblion o arteffactau crefyddol yn dda. Cyfeiriodd yr adroddiad at ddiogelu disgyblion rhag cael eu radicaleiddio. Ym marn y CYSAG, roedd yr ymagwedd hon yn dda ond

roedd yn pryderu mai dim ond Cristnogaeth sy'n cael ei thrafod yn y gwasanaethau boreol a bod angen o'r herwydd cyflwyno crefyddau eraill.

**PENDERFYNWYD nodi adroddiadau hunan-arfarnu'r ysgolion mewn perthynas ag AG.**

## 7. SAFONAU ADDYSG GREFYDDOL

Cyflwynwyd er ystyriaeth y CYSAG – adroddiadau arolwg Estyn a gynhaliwyd yn Ysgol Gynradd Bodedern, Ysgol Gymuned Llannerch-y-medd ac Ysgol Gymraeg Morswyn.

Nododd y Clerc i'r CYSAG nad oedd Estyn wedi codi unrhyw bryderon mewn perthynas â'r ysgolion uchod.

Nodwyd bod safonau AG yn Ysgol Gynradd Bodedern yn cael eu canmol yn adroddiad Estyn. Dywed yr adroddiad fod ymddygiad y disgyblion yn dda, eu bod yn gwrtais, yn dangos parch, gofal a chonsyrn tuag at eraill ac yn cael profiadau buddiol a datblygiad ysbrydol yn yr ysgol i ddatblygu'n ddinasyddion da.

Dywed adroddiad Estyn ar gyfer Ysgol Gymuned Llannerch-y-medd fod perfformiad yr ysgol yn dda ar hyn o bryd. Nodwyd bod y mwyafrif o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da o ran eu sgiliau ysgrifennu yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r disgyblion hefyd yn dangos parch a gofal tuag at eraill.

Dywed adroddiad Estyn ar gyfer Ysgol Gymraeg Morswyn fod perfformiad yr ysgol yn dda ar hyn o bryd. Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o ran yr hyn y maent yn ei ddysgu ac yn dod yn eu blaenau'n dda yn yr ysgol. Nodwyd bod gan yr ysgol awyrgylch deuluol a chymuned hapus ar gyfer y disgyblion a'r staff.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth o'r adroddiadau Estyn a gyflwynwyd.**

## 8. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU

Cyflwynwyd er gwybodaeth, cofnodion drafft y cyfarfod diwethaf o Gymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2019.

Dywedodd y Cadeirydd fod Cymdeithas CYSAGau Cymru wedi lobïo Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth proffesiynol i'r CYSAGau ar draws Cymru. Cyfeiriwyd hefyd at y Fframwaith Cefnogol ar gyfer AG sydd wrthi'n cael ei gwblhau ar hyn o bryd.

Dygodd y CYSAG sylw at y cyflwyniad a wnaed gan Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru a oedd yn cyfeirio at 'hawliau' plant. Roedd y CYSAG yn teimlo y gallai plant sy'n cael eu haddysgu gartref fod dan anfantais o ran datblygu eu sgiliau cymdeithasol a bod angen i Lywodraeth Cymru wneud newidiadau i roi sylw i hyn, oherwydd mae'r mesurau monitro ac ymyrryd presennol yn annigonol.

Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf Cymdeithas CYSAGau Cymru yn Aberaeron ar

21 Tachwedd 2019.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd yng nghofnodion Cymdeithas CYSAGau Cymru.**

## 9. GOHEBIAETH

Trafododd y CYSAG ddogfen ymgynghori gan Lywodraeth Cymru ar yr hawl i dynnu plant o wersi Addysg Grefyddol ac Addysg Rhyw a Pherthynas, ac i newid enw AG.

Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar a ddylai AG ac Addysg Rhyw a Pherthynas gael eu cyfuno mewn un holiadur a'r modd y dylai'r CYSAG ymateb. Cytunodd y CYSAG i beidio ag ymateb fel CYSAG Ynys Môn, oherwydd fod gwahaniaeth barn ymysg yr aelodau ar Addysg Rhyw a Pherthynas. Fodd bynnag, roedd y CYSAG yn cytuno'n unfrydol y dylai gwersi AG fod yn orfodol.

Dywedodd Mrs Anest Frazer fod yr Eglwys yng Nghymru yn credu po fwyaf y wybodaeth y gallwch ei rhoi i blant ac ymgysylltu â nhw o ran y broses gwneud penderfyniadau, mwyaf y cyfle y bydd gan blant i ymateb eu hunain i benderfyniadau sy'n effeithio arnynt, yn hytrach na chael eu rhieni'n penderfynu drostynt.

Estynnodd Mr Gerald Hewitson wahoddiad i'r CYSAG fynychu Cynhadledd Comisiwn Tegwch ar gyfer Ynys Môn yn Neuadd y Dref yn Llangefni ar 21 Hydref 2019 rhwng 9.30am - 2.30pm.

**PENDERFYNWYD bod cynrychiolwyr yr athrawon yn ymateb ar y cyd i'r holiadur erbyn y dyddiad cau sef 28 Tachwedd 2019 mewn perthynas â'r cylch gorchwyl o ran AG, a bod aelodau'r CYSAG yn ymateb yn unigol os ydynt yn dymuno.**

## 10. CYFARFOD NESAF

Nodwyd bod y cyfarfod nesaf o'r CYSAG wedi'i raglennu ar gyfer dydd Mawrth, 18 Chwefror 2020 am 2.00pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.40pm

**Y CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

# Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# Ynys Môn
# Medi 2018 – Awst 2019

Pennaeth Dysgu
Arwyn Williams    Ebrill 2018/ Awst 2019

## CYNNWYS


**ADRAN 1:  CRYNODEB GWEITHREDOL**

1.1  Rhagair gan Gadeirydd CYSAG:  Y Cynghorydd Dylan Rees

**ADRAN 2:  CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG YNYS MÔN**

2.1  Swyddogaeth CYSAG Mewn Perthynas ag Addysg Grefyddol
2.2  Y Maes Llafur Cytûn
2.3  Pa mor dda yw safonau?
2.4  Ymateb yr Awdurdod Addysg Lleol
2.5  Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru
2.6  Addysg Grefyddol ac ESTYN
2.7  Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

**ADRAN 3:  ATODIADAU**

3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG
3.2 Aelodaeth CYSAG  Môn 2017-18
3.3 Cyfarfodydd CYSAG a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd
3.4 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad
3.5 Templed CYSAG Môn ar gyfer hunan arfarniad ysgolion o safonau addysg grefyddol
3.6 Canllawiau ar gyfer dadansoddi tablau data arholiadau allanol
3.7 Cynllun Gweithredu CYSAG Môn 2017-19

**ADRAN 1:**
**CRYNODEB GWEITHREDOL**

**Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol**

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio'r Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

## 1.1 Rhagarweiniad gan y Cadeirydd

**RHAGARWEINIAD GAN Y CADEIRYDD**

Mae'n fraint unwaith eto fel Cadeirydd CYSAG Ynys Môn i gyflwyno Adroddiad Blynyddol 2018/19. Gyda thristwch, mae'n rhaid i mi ddechrau'r adroddiad eleni drwy alaru colled un o'n haelodau allweddol – Parch. Euros Wyn Jones y bu farw yn sydyn yn ei gartref yn Rhagfyr 2018. Roedd Euros yn aelod brwdfrydig ac effeithiol o GYSAG Ynys Môn am flynyddoedd lawer. Gadawa etifeddiaeth werthfawr ar ei ôl drwy fod wedi cyfrannu'n arwyddocaol o fewn cylchoedd Cristnogol Cymreig ar nifer o wahanol feysydd fel Gweinidog, Pregethwr, Darlithydd ac Awdur. Mae'n golled hynod o drist nid unig yn Ynys Môn ond drwy Gymru a thu hwnt. Rwy'n falch o adrodd bod canlyniadau TGAU addysg grefyddol myfyrwyr Ynys Môn yn gadarnhaol unwaith eto gyda 74% o fyfyrwyr wedi ennill graddau A-C. Roedd llwyddiant y myfyrwyr lefel A yn gyffelyb ond dilynodd lai o fyfyrwyr y cwrs eleni. Cynhwysir manylion llawn am ganlyniadau'r arholiadau yng nghorff yr adroddiad.

Fel sy'n arferol, mae nifer o argymhellion yn yr Adroddiad. Cynhwysir yr holl argymhellion hyn wedyn mewn Cynllun Gweithredu newydd fel y gallwn fonitro ac adolygu cynnydd.

Ar lefel genedlaethol, parha ffocws fawr ar y cwricwlwm newydd a sut y darperir addysg grefyddol fel rhan o'r maes llafur Dyniaethau newydd yn 2022. Mae CYSAG Ynys Môn yn croesawu'r ffaith y bydd addysg grefyddol yn ofyniad statudol i bob dysgwr o 3 i 16 oed a na fydd rhieni'n gallu tynnu eu plant o'r gwersi hynny. Fodd bynnag, mae llawer o waith i'w wneud i baratoi'r maes llafur newydd ac ar adeg ysgrifennu mae ymgynghoriad ar fin cael ei gynnal ar y fframwaith cefnogi. Mae'n hanfodol bwysig bod CYSAG yn derbyn y gefnogaeth a'r arbenigedd sydd ei angen i'w arwain drwy'r newidiadau seismig hyn, ac mae CCYSAGauC wedi lobïo Llywodraeth Cymru i wneud adnoddau o'r fath ar gael. Unwaith eto, hoffwn gynnig fy niolchgarwch diffuant i'm cyd-aelodau Pwyllgor am eu cefnogaeth drwy'r flwyddyn. Yn benodol, hoffwn ddiolch i Mrs Gwyneth Hughes (Clerc CYSAG) a Mrs Helen Bebb (Cydlynydd Addysg Grefyddol) am y cymorth y maent wedi ei ddarparu ynghyd â chefnogaeth hanfodol Mrs Shirley Jones, ein Swyddog Pwyllgor.

I gloi, hoffwn eich gadael â dyfyniad gan Albert Einstein:

"There are only two ways to **live your life.** One is as though nothing is a **miracle**. The other is as though everything is a **miracle.**"

Cynghorydd Dylan Rees
Cadeirydd CYSAG Ynys Môn

Dylan Rees
Cadeirydd, 2017-18

## ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG MÔN

### 2.1 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

### 2.2 Y Maes Llafur Cytûn

Mae CYSAGau Gwynedd a Môn wedi mabwysiadu'r 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed' fel Maes Llafur Cytûn Gwynedd a Môn (2008).

Prif swyddogaeth CYSAG yw, '*cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda*'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a).

### 2.3 Pa mor dda yw safonau?

Mae CYSAG Môn yn monitro safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- dderbyn crynodeb o hunan arfarniadau ysgolion mewn ymateb i gwestiynau allweddol Fframwaith Arolygu ESTYN;
- ddadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- wirio adroddiadau arolygiadau ESTYN i adnabod arferion da a chefnogi ymhellach unrhyw gyfeiriad at 'addysg grefyddol' neu 'addoli ar y cyd' sydd angen i'w gryfhau ;
- wahodd athrawon a phenaethiaid i rannu eu harferion da gyda'r aelodau yn y cyfarfodydd tymhorol;
- ymweld ag ysgolion, trwy wahoddiad ar hyn o bryd, er mwyn mynychu sesiwn addoli ar y cyd;
- annog cydweithio rhwng ysgolion i adnabod a chefnogi arferion da.

Mynychodd 3 aelod o'r pwyllgor CYSAG weithdy ar 18 Medi yn Llandudno er mwyn derbyn diweddariad o Cwricwlwm i Gymru. Cafwyd cydnabyddiaeth bod y misoedd nesaf am fod yn gyfnod heriol i athrawon oherwydd bod peth ansicrwydd yn parhau o beth fydd disgwyliadau a'r gofynion newydd y cwricwlwm.

#### 2.3.1 Adroddiadau hunan arfarnu ysgolion

Yng nghyfarfod **CYSAG Ynys Môn** ar 14 Chwefror 2011 penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau. Mae CYSAG Môn, penaethiaid ysgolion Môn ac aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (PYCAG) wedi cymeradwyo'r templedi a luniwyd mewn ymateb i'r Fframwaith Arolygu ESTYN. Mae clerc CYSAG Môn, sy'n Swyddog Addysg gyda Chyngor Ynys Môn, yn gyfrifol am ddosbarthu a chasglu'r hunan arfarniadau.

Derbyniwyd 8 adroddiad yn ystod 2018-19, sef 17% o ysgolion Môn.

| | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer o adroddiadau** | 6/53 | 8/53 | 12/53 | 11/53 | 2/47 | 8/46 |
| **% o ysgolion Môn** | 11% | 15% | 22% | 22% | 4% | 17% |

Yng nghyfarfod mis Hydref 2018, cyflwynodd y clerc canllawiau Hunan Arfarniad newydd i'r panel fyddai ar gael i bob ysgol gynradd. Mae'r templedi newydd yn cynnig arweiniad defnyddiol i ysgolion ar sut i gyflwyno tystiolaeth amrywiol a dod i farn feintiol drwy ddilyn terminoleg barnau Estyn. Mae'r templed newydd yn cynnwys y 5 cwestiwn allweddol barnau Estyn. Yn ystod y flwyddyn derbyniwyd Hunan Arfarniadau gan ysgolion oedd yn cynnig naratif a barnau safonol , sampl lluniau ac enghreifftiau byrion o waith disgyblion . Mae hyn wedi hyrwyddo gwaith y Pwyllgor i fod yn fwy effeithiol i adnabod ansawdd gwaith disgyblion yn ein hysgolion cynradd o fewn maes Addysg Grefyddol a llunio barn am berfformiad.

**<u>Rhestr Ysgolion Cynradd wnaeth gyflwyno HA dros y flwyddyn</u>**

Roedd Pwyllgor CYSAG Môn yn fodlon iawn gydag ansawdd Hunan Arfarniadau Addysg Grefyddol ysgolion Môn ac yn gwerthfawrogi gonestrwydd barnau . Roedd pob adroddiad yn gynhwysfawr, gyda rhan fwyaf o'r barnau yn dda a lleiafrif yn ddigonol. Nid oedd yr un farn yn anfoddhaol. Mae'n werth nodi bod Hunan Arfarniadau'r ysgolion yn gyd fynd gyda barnau arolygu Estyn.

Ysgol Gymuned Rhosybol
Ysgol Llanfairpwll
Ysgol Parc y Bont
Ysgol y Fali
Ysgol Y Talwrn
Ysgol Gymuned Pentraeth
Ysgol Gymuned Amlwch

**<u>Rhestr Ysgolion Uwchradd wnaeth gyflwyno HA dros y flwyddyn</u>**
Ysgol Uwchradd Syr Thomas Jones Amlwch.

Cyflwynodd Mrs Mefys Jones Edwards adroddiad llafar o arfarniad Y Gyfadran Dyniaethau :-

## Cwestiwn Allweddol 1: Safonau

- Mae canlyniadau CA4 a CA5 yn dda iawn, gyda phob disgybl yn ennill cymhwyster yn y pwnc;
- Mae canlyniadau CA3 yn ddigonol i dda, gan eu bod yn amrywio ymhlith gwahanol grwpiau;
- Mae safonau mewn perthynas â bechgyn angen gwella, gan fod bechgyn ar hyn o bryd yn tanberfformio ar draws yr ynys;
- Mae angen i safonau CA5 wella yn yr Uned Athroniaeth;
- Mae llythrennedd yn dda iawn, oherwydd y gwaith cynllunio sydd wedi digwydd i wella sgiliau llafar ac ysgrifenedig.
- 'Does ond angen datblygu sgiliau rhifedd a TG fel bo raid

## Cwestiwn Allweddol 2: Llesiant ac Agwedd at Ddysgu

- Mae cyfranogiad disgyblion mewn gwersi yn dda iawn; maent yn mwynhau'r pwnc;
- Mae gan athrawon a phlant berthynas dda mewn gwersi AG;
- Mae angen datblygu agwedd y disgyblion at ddysgu'n fwy annibynnol, ac mae'n un o'r 12 maes yn y cwricwlwm newydd.

Addysgu a Phrofiad Dysgu

- Mae'r ddarpariaeth AG o ran gwersi, llyfrau a siarad gyda dysgwyr yn dda;
- Mae'r disgyblion yn elwa o brofiadau trwy ymweliadau;
- Mae sgiliau a gwybodaeth ar ddeall Cristnogaeth a chredoau eraill yn cael eu teilwra'n dda yn y cynlluniau gwaith.

Gofal Chymorth ac Arweiniad

- Mae athrawon yn cwestiynu dysgwyr pan fyddant yn darparu adborth i ddisgyblion, lle mae angen ymatebion craff, ac mae hynny yn ei dro yn gwella safon y gwaith yn yr ystafell ddosbarth;
- Mae'r deialog rhwng athrawon a disgyblion wedi gwella;
- Mae sesiynau addoli ar y cyd yn cael eu cynnal yn ddyddiol yn Ysgol Syr Thomas Jones Amlwch

**Camau gweithredu yn codi o'r adroddiadau.**

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Ynys Môn**

- Uchafu gwaith a phwrpas CYSAG i Bennaeth newydd y Gwasanaeth Dysgu ac ysgolion Môn
- Cryfhau cydweithio rhwng ysgolion dalgylch i rannu arferion da a monitro a safoni ansawdd
- Bod yr aelodau CYSAG yn ymweld sesiynau Addoli ar y Cyd mewn ysgolion.

## 2.3.2 Asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol yn y sector uwchradd

Yn ystod y flwyddyn nodwyd pryder gan athrawon Uwchradd bod Maes Llafur newydd Addysg Grefyddol ar gyfer TGAU a Lefel A yn heriol iawn a bod diffyg adnoddau sef gwerslyfrau Cymraeg yn creu heriau ychwanegol.

Fodd bynnag, trafodwyd yn gryno canlyniadau CA4 a CA5 mewn cyfarfod diweddar. Rhoddir crynodeb o'r data isod.

**CA4 [TGAU]**

| Ysgol | Nifer o ddisgyblion | A*-A [%] | A-C [%] |
|---|---|---|---|
| YSTJA | 25 [31] | 12% A yn unig [32] | 64 [84] |
| YUC | 0 [11] | [9] | [64] |
| YGLl | 14 [36] | 21.4 [31] | 92.9 [86] |
| YDH | 33 [52] | 33.4 [35] | 72.7 [83] |
| YUB | 22 [21] | 28.6 [5] | 76.2 [66] |

- 94 wedi cofrestru o 5 ysgol Môn yn 2018-19, 57 yn llai na'r flwyddyn flaenorol (y llynedd roedd 151 wedi cofrestru, a oedd yn gynnydd o 23 disgybl ers 2016-17).
  - Mae canlyniadau yn dda. Llwyddodd 74.2 o ddisgyblion A-C ar gyfartaledd.
  - Llwyddodd bron i 25% o ddisgybl gradd A*-A ar gyfartaledd

**CA5 Lefel A**

| School | Nifer o ddisgyblion | A*-A% | A-C % | A-E% |
|---|---|---|---|---|
| YSTJA | 13 [14] | 15.4 | 69.2 | 100 |
| YUC | 1 [0] | 0 | 100 | 100 |
| YGLl | 6 [10] | 0 | 83.3 | 100 |
| YDH | 8 [13] | 25 | 87.5 | 100 |
| YUB | 2 [5] | 0 | 50 | 100 |

- Yn 2018-19 mae 30 o ddisgyblion wedi astudio'r pwnc hyd at lefel A, gostyngiad o 12 disgybl ers y llynedd.
- Llwyddodd 2 ddisgybl i gyrraedd A* Mae hyn un yn fwy na'r llynedd
- Mae canlyniadau yn dda. Llwyddodd 63% o ddisgyblion A*-C,
- Llwyddodd pob disgybl ennill gradd.

Mae argymhellion 2016-17 yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau rheolaethol cydlynwyr ac arweinyddion pwnc fel eu bod yn gallu arwain gwelliannau yn eu hysgolion o fewn;
- Sicrhau bod ysgolion yn cael mynediad at ganllawiau ac arferion da a fyddai'n gwella deilliannau addysg grefyddol eu disgyblion ac ansawdd yr addysg grefyddol ac yn adlewyrchu egwyddorion ac argymhellion 'Dyfodol Llwyddiannus'.

## 2.3.3 Adroddiadau arolygu ESTYN

Cadarnhaodd y Swyddog Addysg nad oedd unrhyw faterion yn codi o'r arolygiadau a gynhaliwyd yn ysgolion Môn yn ystod y flwyddyn.

Cyflwynwyd gwybodaeth am arolygiadau 9 ysgol gynradd yn ystod y flwyddyn. Arolygwyd yr ysgolion o dan Fframwaith Arolygu newydd ESTYN.

| Ysgol | Dyddiad | **Gofal cymorth ac arweiniad (2.3)**<br>*A oes cyfeiriad at: datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol?* | **Profiadau dysgu (2.1)**<br>*A oes cyfeiriad at: Addysg Grefyddol?* | **Gweithio mewn partneriaeth (3.3)**<br>*A oes cyfeiriad at gymunedau crefyddol lleol?* |
|---|---|---|---|---|
| Bryngwran | Ebrill 2018 | ✓ | × | x |
| Llanfair PG | Mehefin 2018 | ✓ | × | × |
| Talwrn | Hydref 2018 | ✓ | × | × |
| Ysgol STJ Amlwch | Hydref 2018 | ✓ | | |
| Ysgol Gynradd Amlwch | Rhagfyr 2018 | ✓ | ✓ | × |
| Ysgol Y Graig | Ionawr | ✓ | × | × |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2019 | | | |
| Pentraeth | Mawrth 2018 | ✓ | ✓ | ✓ |
| Tywyn | Mehefin 2019 | ✓ | ✓ | ✓ |
| Rhyd y Llan | Mehefin 2019 | ✓ | × | × |

Yn ystod y flwyddyn cafwyd cyfle i fwrw golwg dros gyfeiriadau addysg grefyddol yn adroddiadau ESTYN eleni, ond mae'r adroddiadau yn nodi bod:

- Bod yr holl ysgolion cynradd sydd wedi cael arolwg yn ystod Ebrill 2018 i Awst 2019 yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion yn dda neu'n rhagorol.
- Bod yr ysgol Uwchradd yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion yn briodol
- Bod ysgolion yn gwneud gwaith da iawn i ddatblygu dinasyddion gofalgar sy'n ystyried gwarchod yr amgylchedd a chodi arian at elusennau
- Cyfeiriwyd yn yr adroddiad at ddwy ysgol, Ysgol Tywyn a Pentraeth oedd wedi sefydlu partneriaethau priodol gyda chymunedau crefyddol lleol.

Nodwyd pryder gan GYSAG Môn :

- Bod cyfeiriadau at Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd yn gynnil iawn mewn adroddiadau Estyn ac felly yn di brisio'r maes mewn ysgolion.

## 2.4 Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae Mrs Helen Bebb Cydlynydd Addysg Grefyddol Ysgol Uwchradd David Hughes ar y cyd gyda Mrs. Gwyneth Môn Hughes, Uwch Swyddog Safonau a Chynhwysiad Gwasanaeth Dysgu Cyngor Ynys Môn yn sicrhau bod arweiniad ac argymhellion CYSAG Môn yn cael eu trosglwyddo i benaethiaid yr ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae hwn yn benodiad dros dro tra bod yr adran yn mynd trwy gyfnod o ailstrwythuro. Lluniwyd cynllun gweithredu am y flwyddyn.

Rhannwyd arferion da yn ystod y flwyddyn drwy estyn gwahoddiad i gynrychiolwyr ysgol i amlinellu'r profiadau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd a ddarperir i'w disgyblion:

- Gwenan Roberts (pennaeth Rhosybol): Cyflwyniad ar waith yr ysgol mewn perthynas â'r ddarpariaeth Addysg Grefyddol . Paratowyd trosolwg o sut mae'r ysgol yn cynllunio i symud ymlaen gyda'r Cwricwlwm newydd gan ymgorffori'r pedwar diben o fewn Addysg Grefyddol. Roedd llais y disgyblion yn amlwg yn y cynllunio ac roedd safon cyflawniad y disgyblion yn dda iawn.
- Ategwyd gan Mrs Mefys Edwards Cydlynydd Addysg Grefyddol Ysgol Syr Thomas Jones bod disgyblion Ysgol Rhosybol yn cyrraedd Bl 7 gyda lefel uchel o ddealltwriaeth yn y maes.
- Roedd balchder ymysg y CYSAG bod niferoedd uwch o ddisgyblion wedi bod yn astudio Addysg Grefyddol i safon TGAU a Lefel A eleni. Fodd bynnag, gyda newidiadau heriol i'r maes llafur i'r dyfodol codwyd pryder bod tebygolrwydd mawr bydd y niferoedd yn gostwng.
- Cafwyd cadarnhad bod y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams wedi ymateb i bryderon a godwyd gan y CYSAG bod y cwricwlwm TGAU ar gyfer AG yn rhy feichus a bod prinder adnoddau Cymraeg.
- Adroddodd y Cadeirydd hefyd yn ystod tymor yr haf bod CYSAGau Cymru wedi derbyn ymateb gan Kirsty Williams y Gweinidog Addysg i bryderon a godwyd ynglŷn â'r diffyg cefnogaeth broffesiynol i GYSAGau ar draws Cymru. Nodwyd yn ei hymateb bod Libby Jones a Paula Webber wedi dwyn i'w sylw bod angen buddsoddi mewn adnoddau ac yn cynnig dylid buddsoddi arian mewn sefydlu ymgynghorwyr rhanbarthol i ddarparu cefnogaeth angenrheidiol. Siomedig oedd CYSAG Môn gyda'r ymateb hwn gan eu bod yn teimlo nad oedd digon o ystyried yn cael ei roi ar yr ofyn statudol oedd gan CYSAGau i sicrhau ansawdd o fewn y maes.

- Rhoddodd Y CYSAG ystyriaeth i gais gan Mr Richard Speight, Cadeirydd Grŵp Dyneiddwyr, Bangor i ganiatáu i aelod o'r Grŵp Dyneiddiwr lleol ymuno a CYSAG Môn . Ar ôl ystyried cyngor y Swyddog Monitro penderfynodd y CYSAG i beidio â chefnogi 'r penodiad .

- Hysbyswyd y Grŵp Dyneiddwyr o benderfyniad CYSAG drwy e byst gan y Cadeirydd.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Sicrhau bod CYSAG Môn yn derbyn y gefnogaeth ac arweiniad priodol er mwyn iddo gyflawni ei ddyletswyddau fel corff statudol.
- Cryfhau y bartneriaeth rhwng Pennaethiaid a CYSAG fel bod adroddadau Hunan Arfarnu yn cael eu hanfon at y panel yn amserol a bod aelodau CYSAG yn derbyn gwahoddiad i'r ysgolion i arsylwi ar sesiynau Addoli ar y Cyd a thrafod gyda disgyblion am eu gwaith o fewn y maes.
- Llunio rhaglen dalgylch fydd yn hysbys i bob ysgol er mwyn sicrhau bod y CYSAG yn derbyn adroddiad HA yn amserol

## 2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi a dosbarthu canllawiau i gefnogi athrawon addysg grefyddol:

- http://cymru.gov.uk > chwiliwch am Addysg Grefyddol
- Y Maes Llafur Cytûn (neu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)
- Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed (2009)
- Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013)
- Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr 2012 (http://cbac.co.uk )

**Cwricwlwm i Gymru**

Yn ystod 2014-15, comisiynwyd yr Athro Graham Donaldson i gynnal adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru. Mae CYSAG Môn wedi cyfrannu at y broses ymgynghorol, y 'Sgwrs Fawr' ac wedi trafod argymhellion y ddogfen 'Dyfodol Llwyddiannus' a gyhoeddwyd yn Chwefror 2015.

Mae Cymdeithas CYSAGau Cymru yn cael ei chynrychioli ar Grŵp Rhan ddeiliaid Strategol Llywodraeth Cymru ac mae Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG) wedi mynychu cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn gyda chynrychiolwyr o Adran Cwricwlwm Llywodraeth Cymru wrth iddynt gefnogi'r ysgolion arloesol a datblygu Cwricwlwm i Gymru.

- Cyfeirir at y Fframwaith Cefnogi AG a fydd yn cael ei gyhoeddi Ionawr 2020 a chytunwyd i gynnwys y Fframwaith yn y Cynllun Gweithredu at ddibenion monitro
- Rhannwyd canllaw at y Cwricwlwm Drafft i Gymru 2022 ac ymatebodd CYSAG i'r ymgynghoriad
- Mynychodd y Cadeirydd a'r Clerc CYSAGau Gogledd Cymru yng Nghonwy , Gorffennaf 2019 er mwyn canfod barn rhan ddeiliaid eraill ar draws y rhanbarth.

- Cafwyd cydnabyddiaeth gan CYSAG bod i'r ysgolion Uwchradd yn benodol, bydd cyfnod heriol o'u blaenau wrth i athrawon weithredu dau Gwricwlwm yn y cyfnod trosiannol
- Fodd bynnag cafwyd canmoliaeth i'r cwricwlwm newydd am ei fod yn gyfoes ac yn bositif o ran ei ddull thematig

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Sicrhau bod athrawon yn ymwybodol o'r 'hyn sy'n bwysig' ym Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau
- Annog athrawon addysg grefyddol Ynys Môn ac aelodau CYSAG Môn i gyfrannu'n llawn at unrhyw adolygiad o'r cwricwlwm a threfniadau asesu;

## 2.6 Addysg Grefyddol ac ESTYN

Mae CYSAG Môn yn argymell yr adnoddau canlynol i athrawon addysg grefyddol a phenaethiaid ysgolion yr ardal:

- www.estyn.org.uk
- Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd (ESTYN, Mehefin 2013)
- Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (ESTYN, Hydref 2017)
- Addysg Grefyddol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 (ESTYN, Mehefin 2018)*

## 2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

Nodir yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig y dylai'r Awdurdod Addysg weithio gyda'i CYSAG i gadw llygad ar ddarparu addoli ar y cyd dyddiol ac ystyried gydag ef unrhyw gamau y gellid eu cymryd i wella darpariaeth o'r fath.

Rhaid i'r addoliad fod "yn gyffredinol Gristnogol ei gymeriad". Mae'r weithdrefn "penderfynu" yn caniatáu atal y gofynion hyn mewn perthynas â rhai neu'r cyfan o'r disgyblion mewn ysgol lle nad ydynt yn briodol.

- Mae aelodau CYSAG ac ysgolion Môn wedi derbyn canllawiau addoli ar y cyd:
  - Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2013)
  - Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Hydref 2017)
  - Diweddariad ar gyfer Arolygwyr (ESTYN, Ebrill 2018)'. Tynnwyd sylw at y dyfyniad a ganlyn o'r canllawiau:-

    *'Efallai nad effeithir ar y farn ar gyfer MA4 os na fodlonir y ddyletswydd statudol. Mae hyn yn rhywbeth i'r tîm ei ystyried. Bydd angen i'r tîm bwyso a mesur nifer o ffactorau ym mhob achos penodol, er enghraifft nifer y disgyblion y mae'n effeithio arnynt, a bydd rhaid i'r tîm benderfynu p'un a yw hyn yn arwyddocaol ai peidio, a ph'un a ddylai effeithio ar y farn gyffredinol ar gyfer MA4. Ni waeth p'un a fydd arolygwyr yn penderfynu adrodd ar addoli ar y cyd ai peidio, rhaid iddynt bob amser adrodd ar ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion.'*

- Mae CYSAG Môn yn monitro safonau addoli ar y cyd trwy dderbyn a thrafod hunan arfarniad ysgolion yn ystod y cyfarfodydd.

- Mewn ymateb i argymhellion CYSAG Môn, mae’r Awdurdod Addysg wedi llythyru’r ysgolion yn rheolaidd yn gofyn iddynt estyn gwahoddiad i aelodau CYSAG i fynychu sesiwn addoli ar y cyd. Cytunwyd (6.10.15). Mae pro-fforma ar gael i’r aelodau i gofnodi eu harsylwadau yn ystod eu hymweliadau. Fodd bynnag ni lwyddodd yr un aelod eleni fynychu'r un sesiwn Addoli ar Y cyd mewn ysgol.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Annog ysgolion i wahodd aelodau o CYSAG Môn i fynychu sesiynau addoli ar y cyd yn ysgolion y sir.
- Sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio â’r gofynion statudol mewn perthynas ag addoli ar y cyd a daparu sesiynau addoli ar y cyd o ansawdd;

## ADRAN 3: ATODIADAU

### 3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG

**Sefydlwyd CYSAG gan Bwyllgor Addysg Môn yn 1996 i gynnwys:**

**Cristnogion a Chrefyddau Eraill, sef**
- Yr Eglwys Fethodistaidd
- Undeb Bedyddwyr Cymru
- Eglwys Bresbyteraidd Cymru
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Undeb yr Annibynwyr
- Yr Eglwys Gatholig

**Athrawon**, sef,
- Cymdeithas y Prifathrawon (SHA)
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- Cymdeithas yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawon (NASUWT)
- Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)
- Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL)
- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)

**Aelodau etholedig**

### 3.2 Aelodaeth CYSAG Ynys Môn 2017-8

**Cynrychiolwyr yr Enwadau Crefyddol**

| | |
|---|---|
| Yr Eglwys Fethodistaidd | Parch. Kate McClelland (Haf 2016) |
| Undeb Bedyddwyr Cymru | Mrs Catherine Jones |
| Eglwys Bresbyteraidd Cymru | Mrs Einir Morris |
| Yr Eglwys yng Nghymru | Mrs Anest Frazer |
| Undeb yr Annibynwyr | Yr Athro Euros Wyn Jones |
| Yr Eglwys Babyddol | Mr Christopher Thomas |
| Crynwyr | Mr Gerald Hewitson |

**Cynrychiolwyr Athrawon (cyfetholwyd)**

| | |
|---|---|
| Ysgol Gynradd Llangaffo | Manon Morris Williams |
| Ysgol Cybi | Amanda Earnshaw |
| Ysgol Uwchradd Bodedern | Heledd Haearn |
| Ysgol Syr Thomas Jones | Mefys Jones Edwards |

**Cynghorwyr**

Cynghorydd Glyn Haynes
Cynghorydd Gwilym O Jones
Cynghorydd Alun Mummery
Cynghorydd Bryan Owen
Cynghorydd Dylan Rees **(Cadeirydd**)
Cynghorydd Alun Roberts

**Aelodau Cyfetholedig (heb bleidlais)**

| | |
|---|---|
| Rheinallt Thomas | Cyngor yr Ysgolion Sul |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Arwyn Williams Ebrill 2018 – Awst 2019 | Pennaeth Dysgu Gydol Oes |
| Gwyneth Môn Hughes | Uwch Reolwr Safonau a Chynhwysiad a chlerc [DROS DRO] CYSAG Môn |
| Helen Bebb (Medi 2018) | Ymgynghorydd CYSAG |
| Shirley Cooke | Swyddog Pwyllgor |

## 3.3 Cyfarfodydd CYSAG 2017-18

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd ar gael ymlaen llaw trwy gysylltu â Chlerc CYSAG. Yn ystod 2018 – 2019, cyfarfu CYSAG Ynys Môn ar dri achlysur:

9 Hydref 2018
19 Chwefror 2019
9 Gorffennaf 2019

Trafodwyd y materion canlynol ac ymhelaethir ar rai ohonynt yng nghorff yr adroddiad hwn:

**a) Cyfarfod 9 Hydref 2018**

- Materion yn codi: Penderfynwyd bod y Cadeirydd, ar ran y CYSAG, yn gofyn am i 'Addoli ar y Cyd mewn Ysgolion' gael ei gynnwys ar y rhaglen ar gyfer ei drafod yng nghyfarfod nesaf Cymdeithas CYSAGau Cymru.
- Y Cadeirydd i ysgrifennu at Mr Arwyn Thomas, yn mynegi siom y CYSAG nad yw wedi ymateb i'r pryderon a godwyd gan y Cadeirydd. A bod y CYSAG yn gwahodd Mr Thomas i fynychu'r cyfarfod nesaf ym mis Chwefror 2019.
- Penderfynwyd bod y CYSAG yn monitro'r sefyllfa gyfredol a'r pryderon a godwyd mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd a'i fod yn gweithredu ar adborth gan athrawon AG yn y man.

- Clerc y CYSAG i ysgrifennu at Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn gofyn i'r Eglwys enwebu aelod i'w chynrychioli ar y CYSAG. Hefyd i ofyn am enwebiadau o blith athrawon am rôl cynrychiolydd athrawon ar y CYSAG.
- Adroddiad blynyddol CYSAG Ynys Môn 2016-17 - y Clerc, ar ran y CYSAG i ofyn am gyllid gan y Pennaeth Dysgu gyda golwg ar sicrhau arbenigedd allanol i ymgymryd â'r dasg o baratoi'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2017/18. A bod Mrs Helen Bebb, gyda chymorth Mrs Heledd Haearn, yn paratoi Cynllun Gweithredu'r CYSAG ar gyfer 2018/19. Er mwyn i'r trefniant hwn weithio, bydd angen cytuno i Mrs Bebb gael oriau ychwanegol.
- Adroddiad Arolwg Estyn (Mehefin 2018) - cafwyd crynodeb gan y Clerc o'r wybodaeth ar Adroddiad Arolwg Estyn ar AG yng Nghyfnod Allweddol 2 a 3. Derbyniwyd yr argymhellion yn yr adroddiad, a bod yr Ymgynghorydd Her yn cynnwys yr argymhelliad ym mhwynt bwled 7 yng Nghynllun Gweithredu'r CYSAG ar gyfer 2017/18. Y Clerc CYSAG i ddiweddaru'r Cadeirydd ar y trefniadau ar gyfer cyfarfod Penaethiaid Ynys Môn ag estyn gwahoddiad i Mrs Heledd Haearn a Mrs Helen Bebb fynychu'r cyfarfod yma..
- Arolygiadau ESTYN - Gwanwyn 2018: Ysgol Rhosybol, Ysgol Bryngwran ac Ysgol Gynradd Llanfairpwll. Cadeirydd yn dweud bod y tair ysgol wedi cael canlyniadau ardderchog gan Estyn ac y dylid eu llongyfarch ar eu gwaith. Pennaeth Ysgol Rhosybol yn cael ei gwahodd i'r cyfarfod CYSAG nesaf i drafod llwyddiannau ac arferion da yn yr ysgol.
- Nodwyd a derbyniwyd y wybodaeth a gyflwynwyd ar Ganllawiau i Ysgolion ar gyfer hunan arfarnu.
- Fe wnaeth y Cadeirydd gynnig adborth o'r Gweithdy CYSAG mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd. Dygwyd at sylw'r CYSAG y ffaith y daethpwyd o hyd i anghysondebau mewn papur arholiad AG gan CBAC, rhwng y fersiynau Cymraeg a Saesneg. Penderfynwyd bod Mrs Heledd Haearn yn cadarnhau ar bapur i'r Cadeirydd, amgylchiadau'r anghysondebau hyn. Y Cadeirydd ar ran CYSAG yn drafftio llythyr swyddogol i'r CBAC yn gofyn am eglurhad ynghylch y camgymeriadau yn y papur arholiadau ac yn gofyn iddynt nodi pryderon CYSAG ynghylch yr anghysondebau.
- Cymdeithas CYSAGau Cymru, penderfynwyd nodi adborth y Cadeirydd a'r pwyntiau a godwyd yn y cyfarfod.
- Gohebiaeth - darllenodd y Cadeirydd lythyr oedd wedi'i dderbyn ym mis Mehefin 2018 oddi wrth Mr Richard Speight, Cadeirydd Grŵp Dyneiddwyr Bangor yn gofyn i'r CYSAG dderbyn cynrychiolwyr o grwpiau nad ydynt yn grefyddol ar y CYSAG. Cadeirydd yn disgwyl am wybodaeth gan Mr Speight am y nifer o Ddyneiddwyr ar Ynys Môn, felly disgwyl i gael y wybodaeth yma cyn gwneud penderfyniad.

**b) Cyfarfod 19 Chwefror 2019**

- Materion yn codi: Angen gwahodd y Cadeirydd i fynychu'r Fforwm Ysgolion Cynradd er mwyn profi arfer dda yn ysgolion Ynys Môn, yn ogystal â chodi proffil y CYSAG yn y sector.
- Cyflwyniad gan Bennaeth Ysgol Rhosybol ar waith yr ysgol mewn perthynas â'r ddarpariaeth Addysg Grefyddol. Penderfynwyd nodi'r cyflwyniad a'r gwaith ardderchog y mae Ysgol Rhosybol yn ei wneud.
- Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol drafft 2017/18 y CYSAG i'r Pwyllgor ei ystyried. Penderfynwyd nodi cynnwys yr Adroddiad a bod y Clerc i godi pryderon CYSAG ynghylch y tabl yn Adran 2.3.3 yr adroddiad gyda'r swyddog sy'n paratoi'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2017/18. Fersiwn Diwygiedig o Gyfansoddiad CYSAG yn cael eu hanfon at y swyddog perthnasol cyn diwedd mis Chwefror, er mwyn i'r adroddiad drafft terfynol gael ei baratoi a'i gylchredeg i aelodau'r CYSAG.

- Cyflwynwyd adroddiad gan y Clerc i'r CYSAG, yn ymgorffori gwybodaeth o adroddiadau Arolygiadau Estyn a gynhaliwyd yn Ysgol Talwrn ac Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch i'r CYSAG eu hystyried. Nodwyd fod Estyn wedi adrodd fod safonau'r ddarpariaeth AG ac Addoli ar y Cyd yn dda yn y ddwy ysgol. Penderfynwyd nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiadau hunan arfarnu.
- Cyflwynwyd adroddiadau hunan arfarnu Ysgol Gymuned Rhosybol, Ysgol Llanfairpwll, Ysgol Parc y Bont, Llanddaniel ac Ysgol y Fali i'r CYSAG eu hystyried. Awgrymodd y Cadeirydd, a chytunwyd i flaenoriaethu ysgolion sydd heb gyflwyno adroddiadau hunan arfarnu yn y gorffennol. Nodwyd mai dim ond cyflwyno copi i'r CYSAG sydd angen i ysgolion ei wneud gan ei bod yn ofynnol i ysgolion baratoi'r adroddiadau. Penderfynwyd nodi cynnwys adroddiadau hunan arfarnu ysgolion. Y Cadeirydd i ofyn am gefnogaeth y Pennaeth Dysgu i symud ymlaen efo'r cynnig yma a bod y Clerc a Mrs Anest Frazer yn trafod yr opsiynau gorau ar gyfer symud ymlaen mewn perthynas ag adroddiadau hunan arfarnu ysgolion.
- Cyfansoddiad y Pwyllgor, penderfynwyd diweddaru cyfansoddiad y CYSAG a bod y Clerc yn ysgrifennu at Ysgrifennydd Undeb Annibynwyr Cymru yn gofyn iddynt enwebu cynrychiolydd o'r Eglwys i fod yn aelod o CYSAG Ynys Môn. Y Clerc i gysylltu ag Ysgrifennydd yr Eglwys Fethodistaidd i holi a yw'r wybodaeth sydd gan y CYSAG ynghylch ei gynrychiolydd yn gywir. Y Clerc i wahodd Mrs Amanda Earnshaw i gynrychioli'r sector cynradd ar y CYSAG.
- Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod blaenorol Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd, 2018 i'r Pwyllgor eu hystyried. Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn anfon e-bost at Arweinydd y Cyngor er mwyn cyfleu pryderon y CYSAG i Mr Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru, am ddiffyg adnoddau Cymraeg mewn ysgolion.
- Rhoddodd y CYSAG ystyriaeth i gais i ganiatáu i aelod o'r Grŵp Dyneiddwyr lleol ymuno â CYSAG Ynys Môn. Nodwyd fod gan y Dyneiddwyr 9 aelod lleol, 3 ohonynt yn byw ar Ynys Môn, ar ôl ystyried cyngor y Swyddog Monitro, penderfynodd y CYSAG fel a ganlyn: Er yn cydnabod cymhwyster posib, nid yw'r ymgeisydd wedi darparu unrhyw wybodaeth i awgrymu fod angen iddynt fod yn aelod er mwyn CYSAG adlewyrchu'n briodol brif draddodiadau crefyddol Ynys Môn wrth ymgymryd â'i swyddogaethau. Mae'r casgliad hwn yn seiliedig ar y ffaith, yn unol â'r wybodaeth a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd, mai dim ond 3 dilynwr sydd yn byw ar Ynys Môn. Y Cadeirydd i anfon e-bost at Mr Richard Speight o Grŵp Dyneiddwyr Bangor er mwyn ei hysbysu am benderfyniad y CYSAG.

c) **Cyfarfod 9 Gorffennaf 2019**

- Materion yn codi: Mewn perthynas ag adroddiadau hunan arfarnu ysgolion, awgrymwyd a mabwysiadwyd fod ysgolion yn y 5 dalgylch yn cael eu targedu ar eu tro, sy'n golygu gofyn am 8 o adroddiadau bob tymor. Byddai unrhyw ysgolion sydd heb ddarparu adroddiad yn cael eu hamlygu ar y 6ed tymor dilynol. Penderfynwyd bod y Clerc i'r CYSAG yn adolygu'r opsiynau sydd ar gael, gan gynnwys aelodaeth o enwadau crefyddol eraill ar y CYSAG. Hefyd bod y Clerc yn gweithredu'r cynnig mewn perthynas ag adroddiadau hunan arfarnu.
- Penderfynwyd mabwysiadu Adroddiad Blynyddol y CYSAG am 2017/18.
- Cynllun Gweithredu CYSAG am 2019/22 a'r Fframwaith Cefnogi AG – penderfynwyd cynnwys y Fframwaith Drafft ar gyfer AG fel pwynt gweithredu yn y Cynllun Gweithredu 2019/22 a bod y CYSAG yn mabwysiadu'r Cynllun Gweithredu.
- Y Cwricwlwm newydd a sut fydd hyn yn effeithio ar Addysg Grefyddol? - Penderfynwyd nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd mewn perthynas â'r Cwricwlwm Newydd i Gymru 2022 a bod y Cadeirydd a'r Cydlynydd AG yn darparu adborth i'r CYSAG ar ôl mynychu cyfarfod CYSAGau Gogledd Cymru.

- Arolygon Ysgolion Estyn - Gaeaf 2018 a Gwanwyn 2019: Cafodd arholiadau arolwg Estyn a wnaed yn Ysgol Gynradd Amlwch, Ysgol y Graig, Llangefni ac Ysgol Gymunedol Pentraeth eu cyflwyno i'r CYSAG i'w hystyried. Nid oedd unrhyw fater yn codi o'r arolygon Estyn a bod pob un o'r ysgolion yn cwrdd â'r gofynion, nodwyd bod yr ethos, y ddarpariaeth AG ac Addoli ar y Cyd yn dda ym mhob un o'r ysgolion. Penderfynwyd nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd yn adroddiadau arolwg Estyn.
- Adroddiadau hunan arfarniadau ysgolion wedi eu derbyn gan Ysgol y Talwrn, Ysgol Gymunedol Pentraeth ac Ysgol Gynradd Amlwch. Nodwyd fod safon y dysgu a gyrhaeddwyd mewn AG yn yr ysgolion hyn naill ai'n ddigonol neu'n dda. Penderfynwyd nodi'r adroddiadau hunan-arfarnu AG fel y cawsant eu cyflwyno a bod y Cadeirydd yn cysylltu â Phennaeth Ysgol y Talwrn i drefnu ymweliad i'r ysgol i arsylwi sesiwn Addoli ar y Cyd a'r gwaith sy'n cael ei wneud gan ddysgwyr yn yr ysgol.
- Cyflwynwyd cofnodion drafft y cyfarfod blaenorol y Gymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ar 26 Mawrth, 2019 er gwybodaeth. Penderfynwyd nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd yn y cofnodion a bod athrawon AG yn dod â samplau o gwestiynau arholi TGAU a Lefel A i gyfarfod nesaf CYSAG.
- Gohebiaeth: Adroddodd y Cadeirydd fod Dr Peter Hemming o Brifysgol Caerdydd wedi anfon nodyn atgoffa ato ynglŷn ag e-bost blaenorol yr oedd Dr Hemming wedi ei rannu gyda'r CYSAG, ynglŷn ag arolwg gwerthuso mae'n ei gynnal ar Ganllawiau a Phecyn Adnoddau ar Amrywiaeth Crefydd a Chred. Penderfynwyd fod y Clerc i'r CYSAG yn ail-anfon e-bost Dr Peter Hemming at aelodau CYSAG Ynys Môn.

**3.3.1** Mae CYSAG Ynys Môn wedi ymaelodi â Chymdeithas CYSAGau Cymru ac mae ei haelodau yn mynychu cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn rheolaidd.

Mynychwyd cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn ystod y flwyddyn gan y cynrychiolwyr canlynol:
Rheinallt Thomas

**3.3.2** Darperir cynhaliaeth broffesiynol i GYSAG fel a ganlyn:

Arwyn Williams Pennaeth Dysgu Gydol Oes
Gwyneth Hughes , Uwch Reolwr Safonau a Chynhwysiad sy'n gweithredu fel Clerc CYSAG
Helen Bebb, Cydlynydd Addysg Grefyddol Ysgol David Hughes , Ymgynghorydd Cefnogi
Shirley Cooke, Swyddog Pwyllgor sy'n cofnodi ac yn gweinyddu CYSAG ar ran Cygnor Ynys Môn

Dylid cyfeirio ymholiadau at Glerc CYSAG, Adran Dysgu Prif Swyddfa'r Cyngor Llangefni. LL77 7EY
[ Margaret Peters ers Medi 2019]

**3.3.3 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad CYSAG**

Dosberthir copi electronig o'r adroddiad blynyddol i'r canlynol:

- Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru
- Gwefan Addysg Mon, Ysgolion Ynys Môn
- Cymdeithas CYSAGau Cymru

**Darperir copi hefyd i:**
- Aelodau CYSAG Môn

## 3.4 Templed CYSAG Ynys Môn ar gyfer hunan arfarniad ysgolion o safonau addysg grefyddol

## Sut gall CYSAG fonitro safonau?

**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)**

Prif swyddogaeth CYSAG yw monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd a chynghori'r awdurdod lleol ar faterion sy'n ymwneud ag addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae Cymdeithas CYSAGau Cymru yn credu y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol. Mae llawer o CYSAGau yn monitro safonau trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd ag aelodau CYSAG.

**Gwybodaeth bellach:**

- Cymdeithas CYSAGau Cymru: www.wasacre.org.uk
- Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd: Cylchlythyr 10/94 (Swyddfa Gymreig)
- Felly rydych yn ymuno â'ch CYSAG lleol: llawlyfr ar gyfer aelodau CYSAGau yng Nghymru (Cym. CYSAGau C)
- Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, 2012);
- Adolygiad o Adroddiadau CYSAG (Llywodraeth Cymru, 2011 and 2013)

**Adran Addysg a Sgiliau Cymru (AdAS)**

Mae'r rhan fwyaf o CYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu'r 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3-19 oed yng Nghymru' neu'i addasu fel eu maes llafur cytûn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi addysg grefyddol yng Nghymru trwy ddarparu canllawiau i gefnogi athrawon, penaethiaid ac aelodau CYSAG. Maent yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol am ddulliau addysgu, adnoddau ac asesu. Roedd proses gymedroli allanol genedlaethol 2010 -12 yn gyfle i adrannau AG mewn ysgolion uwchradd ddangos eu dealltwriaeth o lefelau cyrhaeddiad Addysg Grefyddol.

**Gwybodaeth bellach**

- http://cymru.gov.uk > chwiliwch am Addysg Grefyddol
- Y Maes Llafur Cytûn (neu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)
- Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed (2009)
- Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013)
- Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr 2012 (http://cbac.co.uk)

**ESTYN**

Mae arolygiadau ESTYN yn seiliedig ar bum maes arolygu:





1. Safonau
2. Lles ac agweddau at ddysgu
3. Addysgu a phrofiadau dysgu
4. Gofal, cymorth ac arweiniad
5. Arweinyddiaeth a rheolaeth

Prin yw'r adroddiadau arolygiadau ysgol sy'n cynnwys sylwadau ar safonau Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Cyhoeddwyd adolygiad thematig o Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd ym mis Mehefin 2013 ac mae'n cynnig argymhellion i awdurdodau lleol, ysgolion a CYSAGau.

**Gwybodaeth bellach:**

- www.estyn.org.uk
- Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd (ESTYN, Mehefin 2013)
- Addysg grefyddol a moesol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 (ESTYN, Haf 2018)
- Arweiniad atodol : addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (Hydref 2017)

**Pa dystiolaeth a ddefnyddir gan ysgolion wrth ddod i farn?**

| | |
|---|---|
| **Craffu ar lyfrau**<br> | Mae athrawon yn casglu sampl o waith disgyblion, (*e.e. amrediad o allu, oed, bechgyn a merched*) er mwyn helpu'r cydlynydd i ateb cwestiynau megis:<br>• Pa gynnydd a wneir gan ddisgyblion yn eu sgiliau AG? A oes grwpiau o ddisgyblion yn tangyflawni?<br>• I ba raddau y mae'r gwaith yn adlewyrchu gofynion y Maes Llafur Cytûn?<br>• I ba raddau y mae gwaith y dysgwyr yn datblygu'r medrau a nodir yn y Fframweithiau Llythrennedd, Rhifedd, a Chymhwysedd Digidol Cenedlaethol?<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu addysg grefyddol? |
| **Arsylwadau gwersi**<br> | Mae athrawon ac arweinwyr ysgol yn arsylwi gwersi er mwyn helpu'r cydlynydd i ateb cwestiynau megis:<br>• Pa gynnydd a wneir gan ddisgyblion yn eu sgiliau AG?  A oes grwpiau o ddisgyblion yn tangyflawni?<br>• A yw'r dysgwyr yn dangos cymhelliant uchel?  A ydynt yn cyfrannu i'w dysgu?<br>• I ba raddau y mae gwaith y dysgwyr yn adlewyrchu gofynion y Maes Llafur Cytûn?<br>• I ba raddau y mae gwaith y dysgwyr yn datblygu'r medrau a nodir yn y Fframweithiau Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd digidol Cenedlaethol?<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu addysg grefyddol? |
| **Holiaduron a chyfweliadau**<br> | Gall ysgolion ddadansoddi canlyniadau holiaduron a ddefnyddiwyd i ganfod barn disgyblion, athrawon a rhieni i gwestiynau megis:<br>• Beth yw eu barn am 'gynnwys' y gwersi AG? A oes grwpiau arwyddocaol o ddisgyblion/rhieni sy'n cynnig barnau gwahanol?<br>• Pa gynnydd a wneir ganddynt yn eu sgiliau Addysg Grefyddol?<br>• Beth yw eu rhagdybiaethau/barnau/agweddau tuag at Addysg Grefyddol?<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu addysg grefyddol? |
| **Data**<br> | Gall ysgolion ddefnyddio data asesiadau athro neu ganlyniadau arholiadau allanol (uwchradd yn unig) er mwyn adnabod tueddiadau neu batrymau?<br>• Pa mor dda y mae bechgyn/merched/grwpiau o ddisgyblion yn perfformio dros gyfnod?  (*pob ysgol*)<br>• Pa mor dda mae disgyblion ein hysgol/adran ni yn perfformio mewn cymhariaeth ag ysgolion/adrannau eraill?   (*ysgolion uwchradd yn unig*)<br>• A oes grwpiau o ddisgyblion sy'n tangyflawni?  (*pob ysgol*)<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu mewn addysg grefyddol? |
| **Eraill**<br><br>Newyddion **Addysg Grefyddol**<br>**Religious Education** News | Gall barn ysgolion hefyd fod yn seiliedig ar dystiolaeth arall megis:<br>• Llwyddiant mewn cystadlaethau AG lleol neu genedlaethol;<br>• Cyfrannu tuag at ddigwyddiadau/cynadleddau/prosiectau/cyhoeddiadau lleol neu  genedlaethol;<br>• Adroddiadau monitro gan aelodau eraill o'r staff *e.e. cydlynwyr llythrennedd rhifedd neu TGCh;*<br>• Cofnodion cyfarfodydd gyda staff, llywodraethwyr neu ymwelwyr CYSAG;<br>• Ymchwil gweithredu gan aelod o Gymuned Ddysgu Broffesiynol;<br>• Achrediad allanol, *e.e. Marc Ansawdd Addysg Grefyddol http://www.reqm.org/wales* |

## Canllawiau CYSAG (tudalennau 3, 4, 5 a 6)

**I ba raddau y mae darpariaeth yr ysgol yn hyrwyddo datblygiad personol y disgyblion? (Maes arolygu 4.2)**
Bydd arfarnu safonau a'r ddarpariaeth ar gyfer addysg grefyddol yn gymorth i'r ysgol arfarnu maes arolygu 4.2 sef 'Datblygiad personol (gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol).

Mae arweiniad arolygu ESTYN (Medi 2017) ar gyfer datblygiad ysbrydol a moesol yn nodi:

> *"Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn hyrwyddo egwyddorion sy'n helpu disgyblion i wahaniaethu rhwng da a drwg. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn datblygu gallu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain. Dylent ystyried i ba raddau y mae'r ysgol yn meithrin gwerthoedd sy'n cael eu rhannu, fel gonestrwydd, tegwch, cyfiawnder a chynaliadwyedd, ac yn helpu disgyblion i ddeall anghenion a hawliau pobl eraill yn lleol, ac fel aelodau o fyd eang ac amrywiol."*

O fewn amserlen cylch hunan arfarnu'r ysgol bydd angen ystyried pa dystiolaeth fydd yn helpu'r ysgol i ddod i farn ar faes arolygu 4.2. Mae gan addysg grefyddol ac addoli ar y cyd gyfraniad pwysig i'r maes hwn.

Mae'r cwestiynau enghreifftiol canlynol yn seiliedig ar Fframwaith Arolygu Cyffredinol ESTYN (Medi 2017) a'r cwestiynau a defnyddiwyd gan ESTYN yn ystod arolygiad thematig ar addysg grefyddol yn ystod tymor yr Hydref 2017. Nid oes disgwyl i ysgol ateb pob cwestiwn, ond o drafod y rhain gyda staff, llywodraethwyr, disgyblion ac ymgynghorydd cefnogi gwelliant bydd ysgol yn gallu adnabod cryfderau a meysydd gwella fydd yn eu galluogi i gynllunio gwelliannau.

### Maes Arolygu 1: Safonau

Cofiwch gynnwys geirfa feintiol ac arfarnol ac enghreifftiau o waith 'go iawn'!

- Beth yw eich barn am safonau addysg grefyddol yn eich ysgol? *(Disgyblion CS, CA2, CA3, CA4, CA5)*
- Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol?
- I ba raddau mae grwpiau o ddisgyblion yn gwneud cynnydd mewn addysg grefyddol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd?
- I ba raddau mae disgyblion yn defnyddio'u medrau siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu, rhifedd a TGCh yn briodol mewn addysg grefyddol?
- Rhowch enghraifft o sut mae'r disgyblion wedi datblygu eu medrau meddwl, eu creadigrwydd a'u medrau corfforol mewn gweithgareddau addysg grefyddol yn yr ystafell ddosbarth a thu allan?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

### Maes Arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu

Cofiwch gynnwys geirfa feintiol ac arfarnol ac enghreifftiau o waith 'go iawn'!

- A yw'r disgyblion yn dangos diddordeb mewn addysg grefyddol?
- Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

### Maes Arolygu 3: Addysgu a phrofiadau dysgu

Cofiwch gynnwys geirfa feintiol ac arfarnol ac enghreifftiau 'go iawn' o'r ddarpariaeth. Amser a ddyrannir i'r pwnc? % sy'n dewis Astudiaethau Crefyddol fel opsiwn? % sy'n ennill achrediad am eu haddysg grefyddol statudol?

- Sut ydych yn gwybod bod eich ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addysg grefyddol?
- Sut mae addysg grefyddol yn cael ei haddysgu yn eich ysgol?
- A yw'r addysg grefyddol yn llwyddo i ennyn diddordeb y disgyblion? A ydynt yn cael eu hysgogi a'u herio mewn gwersi addysg grefyddol?
- Pa mor dda y mae'r gwersi/gweithgareddau yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol yn ogystal â'u medrau pwnc a'u medrau trawsgwricwlaidd?
- Beth yw ansawdd y cynllunio ar gyfer addysg grefyddol? (Adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau blaenorol? Amcanion clir? Dulliau addysgu? Adnoddau?)
- Pa mor dda y mae'r adborth mewn addysg grefyddol yn helpu disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn ei wneud a beth mae angen iddynt ei wneud i wella?

- Ym mha ffyrdd ydych chi'n asesu ac yn olrhain cynnydd disgyblion mewn addysg grefyddol?
- Sut mae'r cynllunio ar gyfer addysg grefyddol yn helpu'r disgyblion i fod yn unigolion uchelgeisiol, hyderus, dyheadol a gwybodus? Sut ydym yn ymateb i argymhellion 'Dyfodol Llwyddiannus'?
- I ba raddau y mae'r ysgol yn rhoi ystod eang a phriodol o brofiadau, tu fewn a thu allan i'r dosbarth, er mwyn datblygu diddordeb a medrau'r disgyblion mewn addysg grefyddol?
- A yw'r ysgol yn trefnu unrhyw deithiau neu ymweliadau sy'n gysylltiedig ag addysg grefyddol? Pa grwpiau blwyddyn, pa mor aml, a sut mae'r teithiau hyn yn cyfoethogi'r cwricwlwm?
- A yw'r addysg grefyddol yn adlewyrchu natur cyd-destun yr ysgol? A yw'n adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol, ieithyddol ac ethnig Cymru ac ardal leol yr ysgol?
- I ba raddau mae'r gweithgareddau addysg grefyddol yn rhoi cyfleoedd cynyddol bwrpasol i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh i'r safon briodol?'
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

**Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad**

Cofiwch gynnwys geirfa feintiol ac arfarnol ac enghreifftiau o waith 'go iawn'!

- I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol?
- Sut mae'r disgyblion yn dylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu mewn addysg grefyddol?
- A yw'r ysgol yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau cymunedol neu a oes ganddi gysylltiadau ag unrhyw arweinwyr neu sefydliadau ffydd?
- Beth yw cyfraniad addysg grefyddol i ddealltwriaeth disgyblion o'u diwylliant, y gymuned leol a'r byd ehangach?
- Rhowch enghreifftiau o sut mae addysg grefyddol wedi helpu disgyblion i ddeall materion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, ystrydebau neu eithafiaeth grefyddol, hawliau dynol?
- I ba raddau mae'r ysgol yn helpu disgyblion i ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?
- Pa mor dda mae'r ysgol yn datblygu gallu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain?
- A yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol parthed addoli ar y cyd?
- Beth yw ansawdd yr addoli ar y cyd? Pa mor dda y mae'r ysgol yn ei gynllunio dros gyfnod?
- Sut mae'r ysgol yn cadw disgyblion yn ddiogel rhag peryglon radicaleiddio, *e.e. deunydd eithafol naill ai drwy siaradwyr gwadd neu siaradwyr ar ymweliadau a safleoedd*?
- Sut ydych chi'n sicrhau y caiff pryderon ynghylch sylwadau a wneir gan ddisgyblion yn ystod gwersi addysg grefyddol eu hystyried yn briodol?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

**Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth**

- A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol?
- A yw'r staff yn gallu manteisio ar ddatblygiad proffesiynol mewn addysg grefyddol?
- Sut ydych yn dyrannu adnoddau i gynorthwyo i addysgu addysg grefyddol?
- Sut caiff rhieni eu hysbysu am eu hawl i dynnu disgyblion o wersi addysg grefyddol? Sawl disgybl sy'n cael eu tynno o wersi addysg grefyddol gan eu rhieni ac a oes gan yr ysgol drefniadau da i ddarparu ar eu cyfer yn ystod gwersi addysg grefyddol? A yw'r nifer hon wedi cynnydd/gostwng/aros yr un fath dros y 5 mlynedd diwethaf? O ba grwpiau y daw'r disgyblion hyn? A ydych yn cael sgwrs a rhieni ynghylch eu penderfyniad?
- Ym mha ffyrdd y mae darpariaeth eich ysgol ar gyfer addysg grefyddol yn helpu i hyrwyddo cydlyniad cymunedol gwell?
- Pa mor aml ydych chi'n monitro addysg grefyddol? Sut caiff y wybodaeth hon ei rhannu a staff perthnasol eraill?
- A ydych yn ystyried safbwyntiau disgyblion yn yr adroddiad hunan-arfarnu a'r cynlluniau gweithredu?
- A ydych yn cydweithio gydag athrawon sy'n addysgu addysg grefyddol mewn ysgolion eraill? Beth yw effaith hyn?
- Beth yw'r 'enghraifft gorau o addysg grefyddol' y gallwch ei rannu gyda'ch CYSAG lleol neu gydag athrawon eraill?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

## Sut y gall CYSAGau fonitro safonau?

**Cywain gwybodaeth** ➡ **Dadansoddi** ⬇ **Crynhoi Dod i farn** ⬅ **Cynllunio gweithred** ⬆

## Sut y gall CYSAG gywain gwybodaeth?

- Trwy ofyn i ysgolion gyflwyno gwybodaeth a hunan arfarniad;
- Trwy gomisiynu 'arbenigwr' i ymweld â sampl o ysgolion a darparu adroddiad tymhorol;
- Trwy drefnu bod yr aelodau yn ymweld ag ysgolion;
- Trwy ofyn i ddisgyblion, staff a llywodraethwyr mewn sampl o ysgolion gwblhau holiadur ar-lein;
- Trwy edrych ar ganlyniadau arholiadau allanol ac asesiadau athro CA3 (ysgolion uwchradd yn unig)

## Pa ffynonellau sydd ar gael yn eich hardal chi?

- Dadansoddiad o adroddiadau hunan arfarnu ysgolion;
- Dadansoddiad o bolisïau, cynlluniau gwaith, cynlluniau datblygu ysgolion;
- Data perfformiad ysgolion: asesiadau athrawon CA3, canlyniadau TGAU, Safon UG/A;
- Adroddiadau ymweliadau ysgol gan aelodau CYSAG;
- Dadansoddiad o holiaduron ysgol, arolygon ar-lein (disgyblion, staff, llywodraethwyr) wedi'u cyflwyno gan benaethiaid, cydlynwyr neu CYSAG/Cymdeithas CYSAGau Cymru;
- Cyflwyniadau gan gydlynwyr, athrawon, penaethiaid, disgyblion;
- Llwyddiant mewn cystadlaethau, achrediadau allanol.

**Niferoedd - meintiau a chyfrannau**

| | | |
|---|---|---|
| bron bob un | = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf | = | 90% neu fwy |
| llawer | = | 70% neu fwy |
| mwyafrif | = | dros 60% |
| tua hanner | = | agos at 50% |
| lleiafrif | = | o dan 40% |
| ychydig | = | o dan 20% |
| ychydig iawn | = | llai na 10% |

**Pwy sy'n cyfrannu tuag at y monitro?**

- Athrawon ac aelodau o UDRh ysgolion
- Aelodau CYSAG
- Swyddogion Awdurdod Lleol/GwE
- Athrawon a nodwyd fel athrawon neilltuol
- Disgyblion
- Llywodraethwyr
- Rhieni

| | |
|---|---|
| **Rhagorol**<br>**Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig**<br>arbennig, da iawn, cryf iawn, eithriadol, yn rhagori ar, arbennig, ardderchog, gwych, safon uchel iawn, ansawdd uchel iawn, ymestynnol, creadigol iawn, ymhell uwchlaw'r disgwyliadau, effeithiol iawn, hyfedr, meistrolgar | **Da**<br>**Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau**<br>llwyddiannus, cryf, cadarn, medrus, buddiol, gwerthfawr, cadarnhaol, trwyadl, defnyddiol, nerthol, grymus, cynhwysfawr, defnydd da, cyson dda, effeithiol, pwrpasol |
| **Digonol ac angen gwelliant**<br>**Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella**<br>boddhaol, priodol, addas, effeithlon, cymwys, perthnasol, digonol, digon, dilys, cadarn, diogel, canolig, cyson, cymedrol, anghyson, cyfyngedig | **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys**<br>**Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau**<br>annigonol, aneffeithlon, dim, amhriodol, aneffeithiol, anaddas, methu, gwan, gwael, cyfyngedig. |

**Geiriau/ymadroddion defnyddiol**

Mae xxx wedi arwain at....
O ganlyniad i xxx mae safonau xxx wedi codi xx% er xx
Yn dilyn cyflwyno xxx mae xxx wedi gwella, fel y dangosir gan ...
Dengys xxx fod safonau xxx wedi...
Gwelir effaith xxx yn xxx sy'n dangos bod....
Gellir gweld gwelliant mewn xxx yn ....
Gellir gweld dylanwad xxx yn y gwelliant/cynnydd...
Dengys XXXXX bod x% o'r disgyblion yn gallu/bod gan x% o'r disgylion ...
Dengys xxx bod x% o'r rhieni/staff/llywodraethwyr yn....

**Beth ddylid ei gynnwys?**

- **Effaith ymyrraeth** ar (safonau, lles, addysgu, agweddau, gwerthoedd)
- **Tueddiadau** dros gyfnod
- **Cymhariaeth** ag ysgolion eraill (?)
- **Barn** - defnyddio termau arfarnol
- **Meintioli** pa bryd bynnag y bo'n bosibl

**Enw'r Ysgol:**

| **Addysg Grefyddol** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Maes arolygu 1: Safonau Addysg Grefyddol**<br>***Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd dros amser?*** | | | | |
| • Defnyddiwch: gwaith y disgyblion, asesiadau athrawon, teithiau dysgu, arsylwadau gwersi i lunio barn.<br>• I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, adroddiadau arholwyr CBAC. | | | | |
| Nodiadau: | | | | |
| **Mae safonau addysg grefyddol ein disgyblion yn: BARN** | | | | |

| | |
|---|---|
| **Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu am Addysg Grefyddol**<br>***Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?*** | |
| • Defnyddiwch: gwaith disgyblion, dadansoddiad o holiadur addysg grefyddol, cofnodion grŵp ffocws/Cyngor Ysgol<br>• I'ch helpu mae: Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017), | |
| Nodiadau: | |
| **Mae agweddau disgyblion tuag at addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: BARN** | |

| | |
|---|---|
| **Maes arolygu 3: Addysgu a phrofiadau dysgu mewn Addysg Grefyddol**<br>***Pa mor dda yw'r cynllunio a'r addysgu mewn addysg grefyddol? Rhowch enghreifftiau o brofiadau addysg grefyddol cyfoethog.*** | |
| • Defnyddiwch: teithiau dysgu, arsylwadau gwersi, gwaith disgyblion, holi disgyblion<br>• I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, Addysg grefyddol mewn ysgolion uwchradd (ESTYN, Haf 2013), Addysg grefyddol a moesol yng NghA2 a ChA3 (ESTYN, Haf 2018) | |
| Nodiadau: | |
| **Maes safonau addysgu addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: BARN** | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad mewn Addysg Grefyddol**<br>***I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain? Sut mae addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol? I ba raddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?*** | | | | |
| • Defnyddiwch: teithiau dysgu, cyfweliadau gyda disgyblion, rhaglen addoli ar y cyd yr ysgol, cylchlythyr ysgol, cofnodion yr ysgol o unrhyw droseddau casineb/bwlio.<br>• I'ch helpu mae: Canllawiau CYSAG, Canllawiau ynglŷn ag addoli ar y cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru), Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (ESTYN, Hydref 2017), Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017) | | | | |
| Nodiadau: | | | | |
| **Ydy'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd?** | **Ydy** | | **Nac ydy** | |
| **Mae cyfraniad addysg grefyddol i ddatblygiad personol disgyblion a chydlyniad cymunedol yn: BARN** | | | | |

| |
|---|
| **Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth mewn Addysg Grefyddol?**<br>***A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol? Sut ydych yn gwybod?*** |
| • Defnyddiwch: cynlluniau gwaith, adroddiadau monitro a hunan arfarnu, arfarniad o ddata, cyfweliadau gyda'r cydlynydd a'r llywodraethwr dynodedig/ymwelydd CYSAG, cofnodion cyfarfodydd staff, cynllun gwella, arfarniad cynnydd, astudiaeth achos yn dilyn cydweithio ysgol-i-ysgol. |

| |
|---|
| • I'ch helpu mae: canllawiau CYSAG |
| Nodiadau: |
| **Mae arweinyddiaeth a rheolaeth mewn addysg grefyddol yn: BARN** |

| Agweddau i gael sylw | Camau gweithredu | Pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|
| | | Nid oes rhaid rhannu'r manylion hyn gyda CYSAG ond mae angen i gofnodion yr ysgol sicrhau bod atebolrwydd yn glir i staff a llywodraethwyr | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**Arfarniad crynodol a fydd yn cyfrannu at arfarniad yr ysgol o 'Ddatblygiad Personol (4.2)'**

Cryno! Tua 50 o eiriau.

**Enw'r Pennaeth:**
**Llofnod y Pennaeth:**
**Dyddiad:**

**3.6: Taflen gofnodi ar gyfer aelodau CYSAG Ynys Môn wrth iddynt fynychu sesiwn addoli ar y cyd**

## Cyngor Sefydlog ar Addysg Grefyddol

Mynychais sesiwn addoli ar y cyd mewn:
- ysgol arbennig ☐
- ysgol gynradd ☐
- ysgol uwchradd ☐

Mynychais sesiwn addoli ar y cyd:
- torfol/ysgol gyfan ☐
- dosbarth ☐
- cyfnod allweddol ☐

Yn cyfrannu i'r sesiwn addoli ar y cyd oedd:
- y pennaeth ☐
- disgyblion ☐
- athro/athrawon ☐
- arweinydd crefyddol lleol ☐
- rhiant/rhieni ☐
- llywodraethwr ☐

Roedd y sesiwn addoli ar y cyd wedi para:
- llai na 5 munud ☐
- rhwng 5-10 munud ☐
- rhwng 10-15 munud ☐
- dros 15 munud. ☐

Thema'r sesiwn addoli ar y cyd oedd: __________________________________________

Clywais:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Stori Feiblaidd | | Cyflwyniad gan oedolyn | |
| Stori o draddodiad crefyddol arall | | Cyflwyniad gan y disgyblion | |
| Stori foesol/cyfoes/hanesyddol addas | | Disgyblion yn myfyrio'n dawel mewn ymateb i ysgogiad | |
| Disgyblion yn gweddïo (yn unigol neu ar y cyd) | | | |
| Emyn /carol Cristnogol | | | |
| Cân addas | | | |

Tanlinellwch y tri datganiad gorau sy'n disgrifio'r sesiwn addoli ar y cyd.

Heddiw, roedd y  sesiwn addoli ar y cyd yn:
- datblygu gallu dysgwyr i fyfyrio ar eu teimladau, eu gwerthoedd a'u hagweddau eu hunain;
- datblygu ymwybyddiaeth dysgwyr o fywyd mewnol a dimensiwn ysbrydol pob unigolyn;
- trafod a hybu ymatebion i gwestiynau sylfaenol ynglŷn ag ystyr bywyd, newid a marwolaeth;
- datblygu credoau a gwerthoedd, yn bersonol ac yn gymunedol fel ei gilydd;
- hybu dealltwriaeth o gredoau a gwerthoedd pobl eraill naill ai yn lleol neu'n fyd-eang;
- cynyddu hunan-barch ac ymdeimlad o bwrpas mewn bywyd;
- meithrin y gallu dynol i wneud dewisiadau moesol er da neu er drwg;
- hybu gwerthoedd, ystyr a phwrpas a rennir;
- darparu cyfleoedd i fyfyrio ar y digwyddiadau a'r profiadau 'hapus' a 'thrist' sy'n effeithio ar gymuned yr ysgol a'r gymuned leol, ac i'w rhannu;
- ategu dealltwriaeth ar y cyd o sut y gall dysgwyr unigol ac ysgol gyfrannu'n gadarnhaol at y gymuned ehangach;
- datblygu dealltwriaeth o amrywiaeth ac anghydraddoldeb byd-eang.

Unrhyw sylw arall:

## 3.7 : Cynllun Gweithredu CYSAG Ynys Môn 2018-19

| **Adroddiad Blynyddol CYSAG Môn 2016-17/2017-18** | **Camau Gweithredu 2018-19**<br>**ALl (Awdurdod Lleol)**<br>**YP (Ymgynghorydd Pwnc)**<br>**AC (Aelodau CYSAG)** | **Tystiolaeth** | **Deilliannau** | |
|---|---|---|---|---|
| Cwricwlwm i Gymru<br>Maes Dysgu a Phrofiad: Y Dyniaethau<br>"Yr hyn sy'n bwysig" | • Sicrhau bod penaethiaid, athrawon, llywodraethwyr ac aelodau CYSAG yn wybodus am ofynion Cwricwlwm i Gymru (YP)<br>• Cyfrannu at drafodaethau lleol er mwyn cynllunio profiadau dysgu sy'n ymateb i'r 'hyn sy'n bwysig' ym Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau. (ALL+YP+AC)<br>• Cynrychioli Ynys Môn mewn unrhyw drafodaethau cenedlaethol parthed datblygu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu (ALl+ YP + AC)<br>• Datblygu Maes Llafur Cytûn ar gyfer ysgolion Môn sy'n adlewyrchu egwyddorion Cwricwlwm i Gymru | • Cofnodion CYSAG Ynys Môn<br>• Cofnodion Cymdeithas CYSAGau Cymru<br>• Gohebiaeth a chanllawiau CYSAG Ynys Môn i ysgolion.<br>• Maes Llafur Cytûn Ynys Môn<br>• Enghreifftiau o arferion da | • Maes Llafur Cytûn Ynys Môn yn adlewyrchu egwyddorion Cwricwlwm i Gymru<br>• Addysg Grefyddol yn cael ystyriaeth lawn wrth i ysgolion adolygu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu.<br>• Y ddarpariaeth ar gyfer addysg grefyddol yn dda neu'n well ym mhob ysgol.<br>• Safonau addysg grefyddol yn dda neu'n well ym mhob ysgol. | ☺<br>😐<br>☹ |
| Hwyluso Addoli ar y Cyd o ansawdd | • Sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio a'r gofynion statudol mewn perthynas ag addoli ar y cyd a darparu sesiynau addolir ar y cyd o ansawdd.<br>• Annog ysgolion i wahodd aelodau o GYSAG Ynys Môn i fynychu sesiynau addoli ar y cyd. | • Gohebiaeth i ysgolion<br>• Adroddiadau llafar aelodau CYSAG<br>• Cyfeiriadau tuag at addoli ar y cyd yn adroddiadau ESTYN | • Adroddiadau ESTYN yn nodi bod addoli ar y cyd yn dda.<br>• Pob ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.<br>• Gwell dealltwriaeth ymhlith aelodau CYSAG o natur addoli ar y cyd mewn ysgolion. | ☺<br>😐<br>☹ |
| | • | • | • | |
| | • | • | • | |

# CYLCH GORCHWYL PANEL GWEITHREDOL CYSAG YSGOLION

Pwrpas y ddogfen hon yw dangos cylch gorchwyl Panel Gweithredol CYSAG Ysgolion.

Ionawr, 2020

## 1.0 CEFNDIR

1.1 Mae gan CSYM Pwyllgor CYSAG gweithredol sy'n cyfarfod o leiaf bob tymor fel sy'n ofyn statudol ar bob Awdurdod.

1.2 Mae Uwch Reolwr Llesiant a'r Clerc yn rhoi arweiniad i'r Panel am arferion effeithiol sydd o fewn ein hysgolion, hefyd yn cyflwyno gwybodaeth newydd gan CYSAGau Cymru Llywodraeth Cymru ac Estyn

1.3 Gall y Pwyllgor Cysag wahodd ysgolion i gyflwyno eu harferion drwy rannu eu Hunan Arfarniad

1.4 Gall y Pwyllgor CYSAG gynnal ymweliadau i ysgolion i arsylwi cyfnodau Addoli ar y Cyd a chraffu ar waith disgyblion ac arddangosfeydd.

## 2.0 RÔL Y PANEL Gweithredol CYSAG YSGOLION

2.1 Annog trefniadau i rannu arferion da rhwng ysgolion, gan fanteisio ar wybodaeth cyfoesa diweddar .

2.2 Gwella darpariaeth holl ysgolion ar Ynys Môn drwy herio a chodi safonau Addysg Grefyddol yn gadarn mewn ysgolion unigol ac mewn clwstwr

2.3 Diweddaru gwybodaeth y PWYLLGOR CYSAG [llawn] am lwyddiannau a'r heriau sy'n wynebu ysgolion ar Ynys Môn.

2.4 Rhoi hyder i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Sgriwtini y Pwyllgor Gwaith a'r Rheoleiddwyr bod safon y ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol yn ysgolion Môn yn gadarn dda a bod y Pwyllgor CYSAG yn barnu ar dystiolaeth onest o gyraeddiadau ysgolion.

2.5 Cynorthwyo'r Gwasanaeth Dysgu ac Ysgolion gyda rhaglenni a phrosiectau addysgol blaengar o fewn y maes a chynyddu gwybodaeth am drefniadau gweithio ar y cyd rhwng y Cyngor a rhan ddeiliaid perthnasol er mwyn codi safonau.

## 3.0 TREFNIADAU

3.1 Bydd y PGCY yn cyfeirio at ac yn gweithredu'r cynllun gweithredu CYSAG.

3.2 Bydd disgwyl i’r aelodau o PGCY rannu unrhyw wybodaeth neu adnoddau diweddar gan yr Uwch Reolwr Llesiant o fewn ysgolion y dalgylch.

3.3 Bydd y PGCY yn gallu cynnig argymhellion neu godi materion sy'n peri pryder i sylw Pwyllgor CYSAG.

3.4 Bydd gwaith PGCY yn cyfrannu at adroddiad blynyddol CYSAG.

## 4.0 AELODAETH

4.1 Cydlynwyr Addysg Grefyddol pob un ysgol Uwchradd, ac athrawon sy’n aelod o’r Panel CYSAG

## 5.0 AMLDER A GWEINYDDU

5.1 Cynhelir cyfarfod tymhorol i drafod materion sydd o bwys a fewn y Cynllun Gweithredu

5.2 Bydd cyfle i’r aelodau PGCY gynnig eitemau ar gyfer yr agenda 5 diwrnod cyn y cyfarfod.

5.3 Bydd cofnodion, ar ffurf pwyntia gweithredu yn cael ei gofnodi gan Glerc y Panel CYSAG. Bydd CYSAG yn derbyn crynodeb o waith y pwyllgor gweithredu bob tymor.

5.4 Nid oes raid cael cworwm i’r Panel fedru bwrw ymlaen ond dylid rhoi sylw difrifol i ohirio'r cyfarfod os bydd llai na thri aelod yn bresennol.

## 6.0 ADOLYGU’R CYLCH GORCHWYL

6.1 Adolygir y Cylch Gorchwyl bob blwyddyn gan y Panel.

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Goronwy Owen
# Benllech
# Ynys Môn
# LL74 8SG

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Goronwy Owen

Mae Ysgol Goronwy Owen ym mhentref Benllech, Ynys Môn. Mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal gyfagos. Cymraeg yw prif gyfrwng a bywyd yr ysgol, ac fe gyflwynir Saesneg yng nghyfnod allweddol 2. Mae 135 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 16 oed meithrin rhan-amser. Mae tua 7% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Dros dreigl tair blynedd, tua 10% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r ganran genedlaethol, sef 18%. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 13% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu arbennig, sydd yn is na'r ganran genedlaethol, sef 21%.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2013, ac fe arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ionawr 2014.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar â naws gynhwysol a hapus lle rhoddir pwyslais cadarn ar ddarparu cymorth pwrpasol i bob unigolyn.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn i'r ysgol, sy'n sicrhau cyfeiriad strategol effeithiol iddi. Mae gan yr holl staff ymrwymiad cryf i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy. Mae'r corff llywodraethol yn adnabod yr ysgol yn dda. Maent yn wybodus am berfformiad yr ysgol ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn feddylgar iawn i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif.

Mae staff yn sefydlu perthynas waith arbennig gyda'r disgyblion sy'n meithrin dysgu llwyddiannus. Mae'r drefn o gynllunio gweithgareddau yn seiliedig ar themâu a phrofiadau dysgu diddorol yn sicrhau bod y disgyblion yn cyflawni safonau da. Mae lles pob disgybl yn cael lle blaenllaw yn narpariaeth yr ysgol gyda'r staff yn darparu arweiniad, gofal a chymorth effeithiol ar eu cyfer. Mae disgyblion yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd gwerthfawr a ddarperir iddynt fynegi eu barn a chyfrannu at agweddau pwysig ar waith yr ysgol. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn a chyson ac yn cyflawni'n dda erbyn Blwyddyn 6.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws yr ysgol

A2 Gwella presenoldeb

A3 Sicrhau bod blaenoriaethau'r cynllun datblygu wedi eu seilio'n fwy penodol ar wella cyrhaeddiad y disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig, yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda erbyn Blwyddyn 6. Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n ddysgwyr cydwybodol a hyderus gyda medrau gweithio annibynnol da. Mae hyn yn gryfder nodedig.

Mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n dda. Maent yn gwrando'n astud ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa briodol wrth sgwrsio gyda'i gilydd ac oedolion. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn sgwrsio'n hyderus am eu gwaith, gan ddefnyddio iaith a geirfa amrywiol a mynegi barn yn synhwyrol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ateb cwestiynau'n ddeallus a gwybodus, er enghraifft wrth drafod taith i'r amgueddfa Rufeinig. Maent yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd ac yn newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau darllen. Maent yn mwynhau darllen ar goedd ac yn gwneud hyn yn gynyddol hyderus. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn darllen gyda lefel dda o gywirdeb, rhuglder ac ystyr. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn rhugl ac ystyrlon yn y Gymraeg a Saesneg, gyda mynegiant effeithiol. Maent yn datblygu eu medrau'n dda wrth gywain gwybodaeth yn eu gwaith ymchwiliol, er enghraifft wrth ddefnyddio ffynonellau gwahanol yn eu hastudiaeth am wrachod Llanddona.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn bwrpasol, gan amrywio brawddegau yn fedrus erbyn Blwyddyn 2. Mae llawer yn ysgrifennu portreadau a straeon yn annibynnol. Er enghraifft, maent yn defnyddio ansoddeiriau a geirfa ddiddorol yn hyderus i gyfoethogi'u storïau am archarwyr. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n fedrus yn y Gymraeg a Saesneg mewn ffurfiau effeithiol ac amrywiol, er enghraifft wrth ysgrifennu darn sy'n rhoi gwybodaeth am afiechyd heintus. Mae cyflwyniad gwaith a llawysgrifen lleiafrif y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn dueddol o fod yn flêr.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu eu medrau rhifedd yn effeithiol yn eu tasgau ffocws mathemateg. Yn y cyfnod sylfaen, maent â dealltwriaeth dda o batrymau rhif a gwerth lle ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn fedrus i ddatrys problemau. Maent yn trin gwahanol fesuriadau yn bwrpasol, er enghraifft wrth brofi pa ynysyddion sy'n cadw dŵr yn gynnes hiraf. Gallant ddweud yr amser yn gywir mewn fformat analog a digidol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o briodweddau siapiau rheolaidd ac maent yn adnabod priodweddau siapiau 3D yn dda.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'r pedwar gweithred mathemategol yn bwrpasol, er enghraifft wrth weithio allan prisiau bwydydd gwahanol yn yr archfarchnad. Maent yn cyfrifo perimedr ac arwynebedd yn gywir wrth astudio gwahanol gaeau chwaraeon o amgylch y byd. Mae llawer yn

dehongli data yn ymwneud ag amser, arian, tymheredd a phellter yn fedrus. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ystod dda o strategaethau cyfrifo pen i ddatrys problemau rhif sy'n mynd yn fwyfwy anodd.

Yn gyffredinol, mae medrau TGCh rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n briodol ar draws yr ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn defnyddio meddalwedd i greu lluniau, a darnau animeiddio syml wrth ailadrodd stori Tedi yn mynd i'r lleuad. Maent yn llunio graffiau yn addas, er enghraifft wrth gyfrifo'r gwahanol fathau o dai sydd yn Benllech. Mae llawer o ddisgyblion wedi datblygu eu medrau prosesu geiriau i lefel briodol wrth greu stori fer, er enghraifft wrth ddisgrifio eu hantur mewn castell dychmygol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn cyfuno testun a lluniau i gynhyrchu cyflwyniadau yn effeithiol wrth ymchwilio i'r Ail Ryfel Byd. Mae'r rhan fwyaf wedi datblygu eu medrau prosesu geiriau i lefel briodol, er enghraifft wrth lunio taflen gwybodaeth am Gastell Penrhyn. Fodd bynnag, mae medrau'r disgyblion wedi eu cyfyngu i'r llinyn cyfathrebu gan amlaf ac nid yw medrau defnyddio taenlenni a bâs data y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi eu datblygu yn ddigonol.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae ymddygiad bron pob disgybl wrth symud o amgylch yr ysgol, yn ystod cyfnodau hamdden, gwasanaethau ac mewn gwersi yn ardderchog. Maent yn gwrtais iawn wrth gyfarch ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Maent yn groesawgar, yn foesgar ac yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda pharch.

Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau i ymarfer y corff yn ddyddiol, er enghraifft rhedeg milltir y dydd. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn ymwybodol at bwy i droi mewn achosion o bryder. Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd bod yn ddiogel ar-lein, ac yn amlinellu peryglon all godi yn sgil defnydd anaddas o'r we.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gweithio'n hyderus a chelfydd iawn yn annibynnol, ac mae hyn yn gryfder yn yr ysgol. Mae bron pob un yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at eu gwaith; maent yn frwdfrydig ac yn barod i gefnogi ei gilydd yn effeithiol mewn gwersi. Maent yn dangos parch a goddefgarwch tuag at ei gilydd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan rhan fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn iawn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith, ac maent yn cyfrannu'n bwrpasol tuag at gefnogi a gwella dysgu ei gilydd.

Mae bron pob disgybl yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd gwerthfawr a ddarperir iddynt fynegi eu barn ynglŷn ag agweddau pwysig ar waith yr ysgol, ac i gyfrannu at eu lles eu hunain a lles eu cyfoedion. Maent yn gwneud hyn yn effeithiol drwy gyfrwng y cynghorau amrywiol. Mae'r cyngor eco yn rhagweithiol yn plannu coed ar dir yr ysgol a'r cyngor ysgol wedi datblygu trefn wobrwyo ar gyfer ymddygiad da. Mae'r arweinwyr digidol yn frwdfrydig yn eu swydd wrth gynnig cymorth i ddisgyblion ieuengaf gyda agweddau digidol.

Mae llawer o ddisgyblion yn manteisio'n llawn ar y cyfle i ddatblygu'n ddinasyddion cydwybodol. Maent yn casglu arian at achosion da, ac yn ymfalchïo yn llwyddiant eu hymdrechion i sefydlu tŷ a ffynnon ddŵr yn Kenya. Mae mwyafrif y disgyblion yn elwa o brofiadau allgyrsiol fel chwaraeon, ac yn mwynhau cyfnodau preswyl gyda'r Urdd yng Nglan-llyn a Llangrannog.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd mynychu’r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon.  Serch hyn, mae presenoldeb dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn isel o gymharu ag ysgolion tebyg.

**Addysgu a phrofiadau dysgu:  Da**

Mae staff yn sefydlu perthynas waith arbennig gyda’r disgyblion sy’n meithrin dysgu llwyddiannus.  Mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel ac mae’r disgyblion i gyd yn deall hyn.

Mae’r drefn o gynllunio’r cwricwlwm yn seiliedig ar themâu a phrofiadau dysgu diddorol yn sicrhau bod y disgyblion yn cyflawni safonau da.  Nodwedd lwyddiannus ar draws yr ysgol yw’r rhan mae disgyblion yn ei gael i gynnig awgrymiadau a syniadau ar ddechrau pob thema am yr hyn yr hoffent ei astudio.  Mae hyn yn ennyn diddordeb a chwilfrydedd disgyblion tuag at ddysgu yn grefftus ac yn cryfhau eu hymrwymiad i’w gwaith.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu gwreiddio’n gadarn iawn.  Mae’r staff yn darparu cyfleoedd cyfoethog i’r disgyblion ddatblygu eu medrau a’u gallu i weithio’n annibynnol ac mae hyn yn gryfder amlwg.  Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion yn dangos hyder amlwg i ddewis eu gweithgareddau eu hunain a symud yn aeddfed o un i’r llall.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer medrau yn cynnwys cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd Cymraeg, Saesneg a rhifedd mewn amrywiaeth o feysydd cwricwlaidd.  Fodd bynnag, nid yw’r cynllunio i ddatblygu medrau TGCh y disgyblion mor effeithiol.  O ganlyniad, cyfyng yw’r cyfleoedd iddynt weithio gyda taenlenni a basau data.

Mae’r athrawon yn defnyddio ystod dda o ddulliau addysgu sy’n ennyn cyfranogiad a diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus.  Maent yn esbonio syniadau newydd mewn dull ystyrlon a pherthnasol ac yn ymestyn y dysgu yn greadigol drwy brofiadau ymarferol.  Mae’r tasgau wedi eu cynllunio’n ofalus ar gyfer yr ystod oedran a’r gallu sydd yn y dosbarthiadau.  Mae staff yn holi’n dreiddgar er mwyn ehangu dealltwriaeth y disgyblion yn dda ac yn eu hannog i ddefnyddio eu medrau meddwl drwy gydol gwersi.

Mae’r athrawon a’r cymorthyddion yn gweithio’n hynod o effeithiol fel tîm.  Mae cyfraniad staff cynorthwyol at ansawdd dysgu’r disgyblion yn sylweddol.  Mae’r holl staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion, sy’n cyfrannu’n llwyddiannus at eu medrau llefaredd.

Gwna athrawon ddefnydd medrus o ystod o strategaethau asesu.  Maent yn cynnig adborth llafar defnyddiol yn ystod gwersi.  Ceir enghreifftiau da o adborth ysgrifenedig pwrpasol ac mae sylwadau’r athrawon yn ymateb i dargedau unigol ac yn aml yn cyfeirio at wella medrau'r disgyblion.  Fe anogir y disgyblion i fanteisio ar y cyfle i wella eu gwaith trwy ymateb i sylwadau’r athrawon. Ceir enghreifftiau da o hyn mewn iaith.  Mae cyfleoedd cyson i ddisgyblion werthuso eu gwaith a gwaith disgyblion eraill.  Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion, yn gynnar iawn, yn deall pa mor dda maent yn ei wneud a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar â naws gynhwysol a hapus lle rhoddir pwyslais cadarn ar ddarparu cymorth pwrpasol i bob unigolyn. Mae lles pob disgybl yn cael lle blaenllaw yn narpariaeth yr ysgol gyda'r staff yn darparu arweiniad, gofal a chymorth effeithiol ar eu cyfer. O ganlyniad, mae bron pob un disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn ymddwyn yn dda iawn. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r staff yn annog y disgyblion i ddatblygu'n ddinasyddion cyfrifol, sy'n barod i helpu eraill, yn fedrus. Mae parchu aml-ddiwylliannau, hybu agweddau ar amrywiaeth a datblygu tegwch a chyfle cyfartal yn elfennau cryf o ddiwylliant yr ysgol. Mae gwasanaethau cyd-addoli yn gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio ac ystyried anghenion eraill mewn awyrgylch ysbrydol. Cyfoethogir hyn ymhellach trwy wahodd ymwelwyr i'r ysgol, fel y rheithor lleol.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth gref â'r rhieni. Mae'r ysgol yn gweithredu polisi drws agored yn llwyddiannus ac yn cyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni i sicrhau eu bod yn ymwybodol o ddigwyddiadau a gwaith yr ysgol. Mae adroddiadau i rieni yn bwrpasol ac yn ddefnyddiol i rieni. Maent yn amlinellu'n glir sut mae'r disgyblion yn cyflawni ac yn darparu targedau ar yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella.

Mae'r athrawon yn defnyddio'r gweithdrefnau olrhain cynnydd yn briodol i adnabod yn gyflym y disgyblion sydd angen her neu gymorth penodol. Mae'r rhaglenni ymyrraeth a'r gefnogaeth o fewn y dosbarthiadau yn bodloni anghenion y disgyblion yn dda. Mae cynlluniau addysg unigol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn bwrpasol ac yn cynnwys targedau meintiol i ddiwallu eu hanghenion. Caiff y cynlluniau eu hadolygu'n drylwyr a rheolaidd ar y cyd â'r disgyblion a'u rheini. O ganlyniad, mae bron pob un disgybl yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Mae'r staff yn cynnig llawer o gyfleoedd i'r disgyblion gyfrannu at waith yr ysgol drwy fod yn aelodau o amryw bwyllgorau ac wrth gynllunio gweithgareddau dysgu drwy awgrymu yr hyn yr hoffent ei astudio yn y gwaith themâu. Mae'r cyfleoedd hyn yn datblygu medrau arwain y disgyblion yn effeithiol ac yn dylanwadu ar fywyd yr ysgol yn dda.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i annog disgyblion i fwyta ac yfed yn iach ac mae'r staff yn hybu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd cadw'n heini yn llwyddiannus. Mae cyfleoedd cyson i'r disgyblion ymuno yn y sesiynau 'dal i fynd', sef rhedeg o gwmpas y buarth, sydd yn cyfrannu'n dda at wella eu ffitrwydd. Mae ymweliadau gan unigolion fel yr heddwas cymunedol yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o beryglon camddefnyddio sylweddau ynghyd â pheryglon defnyddio'r we yn dda. O ganlyniad, mae bron pob un disgybl yn deall pwysigrwydd gofalu am eu hiechyd a chadw'n ddiogel ar-lein.

Mae arweinwyr yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr i rieni o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd, ynghyd â chydweithio agos gyda'r swyddog lles i wella'r sefyllfa. Er gwaethaf holl ymdrechion yr ysgol, ni fu gwelliant mewn presenoldeb dros amser.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn i'r ysgol, sy'n sicrhau cyfeiriad strategol effeithiol a diwylliant sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus. Mae ganddi weledigaeth eglur sy'n seiliedig ar sicrhau bod lles disgyblion a staff yn rhan ganolog o waith yr ysgol a bod ffocws cryf ar annog y dysgwyr i gyrraedd eu llawn botensial. Mae'n cyfleu'r weledigaeth honno i'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr yn llwyddiannus iawn. O ganlyniad, mae gan bawb ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain, ei gilydd ac o safonau cyflawniad disgyblion.

Nodwedd gref yw'r modd y mae cyfrifoldebau'n cael eu dosrannu'n effeithiol. Mae hyn yn rhan o strategaeth yr ysgol i ddatblygu medrau staff a hybu cydweithio a rhannu arfer dda. O ganlyniad, mae gweithdrefnau cyfathrebu eglur rhwng yr holl staff. Maent yn cydweithio'n hynod o effeithiol fel tîm ac yn cyfarfod yn rheolaidd i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r ysgol. Mae gan yr holl staff ymrwymiad cryf i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy. Enghraifft dda o hyn yw'r modd llwyddiannus mae'r ysgol yn cyfoethogi'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau annibynnol y disgyblion a'u gallu i wella eu gwaith eu hunain.

Mae blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella yn seiliedig ar amrediad da o dystiolaeth uniongyrchol ac mae dealltwriaeth y staff ohonynt yn gadarn. Cyfeiria'r cynllun gwella yn effeithiol at y camau i'w cymryd, y meini prawf llwyddiant, amseriad a chyfrifoldeb, trefniadau monitro a chyllidebu. Fodd bynnag, er bod adroddiadau monitro yn canolbwyntio ar yr addysgu, dysgu a darpariaeth, maent yn rhy gyffredinol. Oherwydd hyn, nid yw'r blaenoriaethau'n ddigon penodol na meintiol er mwyn gwella cyrhaeddiad y disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn adnabod yr ysgol yn dda. Maent yn wybodus am berfformiad yr ysgol ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn feddylgar iawn i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif.

Un o rinweddau cryfaf arweinyddiaeth yr ysgol yw'r cyfleoedd cyfoethog a ddarperir i staff ddatblygu'n broffesiynol. Mae ganddi weithdrefnau rheoli perfformiad cadarn sy'n cyfoethogi datblygiad proffesiynol y staff yn llwyddiannus ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau. Enghraifft nodedig o'r gweithgareddau hyn yw'r ffordd mae darpariaeth y cyfnod sylfaen wedi ei sefydlu'n effeithiol.

Mae gwariant yn cysylltu'n dda ag amcanion, targedau a chynlluniau gwella'r ysgol. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant yn ofalus ac yn sicrhau bod yr adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio'n llawn i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Yn dilyn problemau anodd yn y gorffennol, mae cynllun cynhwysfawr ar waith i ddatrys y sefyllfa o or-wario. Mae defnydd effeithiol o'r grant datblygu disgyblion i gynnal yr ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi arwain at gynnydd yn safonau disgyblion, yn arbennig wrth wella eu medrau darllen a'u hunanhyder.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/12/2019

This page is intentionally left blank

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Rhyd y Llan
# Llanfaethlu
# Ynys Môn
# LL65 4NN

## Dyddiad yr arolygiad:  Mehefin 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Rhyd y Llan

Mae Ysgol Rhyd y Llan wedi ei lleoli ym mhentref Llanfaethlu, yng ngogledd orllewin Ynys Môn.  Sefydlwyd yr ysgol ym mis Medi 2017.  Cymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol.  Mae 153 disgybl ar y gofrestr yn gyfredol, gan gynnwys 15 disgybl meithrin, rhan-amser.  Mae'r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn chwe dosbarth, rhai yn un oedran a rhai yn gymysg.

Dros dreigl tair blynedd, mae tua 15% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd ychydig yn is na'r ganran genedlaethol sy'n 19%.  Mae 82% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod ychydig dros 15% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, ond ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.  Mae'r ganran sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ychydig islaw'r ganran genedlaethol, sy'n 21%.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2017.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Rhyd y Llan yn gymuned addysgol ofalgar a chynwysol lle mae bron bob un disgybl yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.  Mae Cymraeg lafar naturiol i'w chlywed gan y disgyblion mewn gwersi ac ar adegau anffurfiol yn ystod y dydd.  Mae medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion yn datblygu'n dda, beth bynnag fo'u gallu.  Mae'r disgyblion yn rhyngweithio'n hapus gyda'i gilydd, ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol at eu gwaith.

Mae'r athrawon yn cynllunio amrediad cyfoethog o weithgareddau ar gyfer y disgyblion ar draws yr ysgol, ac maent yn darparu adborth datblygiadol effeithiol. Mae'r athrawon yn sicrhau bod gwahanol fedrau yn cael eu plethu'n gelfydd i dasgau sy'n sbarduno'r disgyblion i drafod a chydweithio'n aeddfed.  Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn darparu cefnogaeth effeithiol ar gyfer disgyblion sydd wedi eu hadnabod ag anghenion dysgu ychwanegol.  Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'i chymuned a threftadaeth y disgyblion yn llwyddiannus.

O dan arweiniad cadarn y pennaeth, mae gan arweinwyr a staff weledigaeth glir sydd wedi ei seilio'n gadarn ar godi safonau cyflawniad a lles disgyblion.  Maent yn arfarnu'r ddarpariaeth, a chynllunio gwelliant, yn llwyddiannus.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu annibyniaeth a gwneud penderfyniadau ynglŷn â'u gwaith

A2 Ehangu cyfleoedd i'r disgyblion gyfrannu at ddatblygiad y cwricwlwm

A3 Rhannu arbenigedd staff ac arferion da ar draws yr ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol, mae medrau llythrennedd a rhifedd llawer o'r disgyblion islaw'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da. Maent yn dwyn i gof eu dysgu blaenorol yn llwyddiannus, ac yn ymroi'n llawn yn ystod eu gwersi.

Mae llafaredd rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn. Maent yn defnyddio'r Gymraeg yn gwbl naturiol, ac mae tafodiaith yr ardal i'w chlywed ganddynt o fewn eu gwersi ac wrth iddynt siarad yn gymdeithasol gyda'u ffrindiau. Mae'r disgyblion sy'n newydd i'r Gymraeg yn ei dysgu'n gyflym, ac yn datblygu hyder wrth siarad, o oedran cynnar. Mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn mynegi barn yn aeddfed a huawdl.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gadarn o'r cychwyn cyntaf. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau a geiriau syml yn gyflym ar ôl cychwyn yn yr ysgol, gan ddod i ddarllen cymalau a brawddegau syml mewn gwahanol gyd-destunau. Mae ganddynt agwedd gadarnhaol a byrlymus at eu gwaith, ac maent yn mwynhau trafod eu llyfrau a straeon sydd yn apelio atynt. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn darllen gyda lefel dda o gywirdeb. Maent yn talu sylw manwl i atalnodi ac yn amrywio goslef llais er mwyn creu effaith ar y gwrandäwr. Mae'r darllenwyr mwyaf galluog yn cywain gwybodaeth yn aeddfed ac yn defnyddio'r wybodaeth i gyfoethogi eu gwaith. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen er mwyn deall yn hyderus, er enghraifft wrth ddarllen cyfarwyddiadau ynglŷn â sut i greu lindys allan o gylchoedd papur.

Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn darllen yn fedrus. Maent yn ymateb yn ystyrlon i weithgareddau darllen, gan arddangos dealltwriaeth dda o destunau cynyddol estynedig yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r rhan fwyaf yn darllen yn frwdfrydig ac yn trafod awduron yn aeddfed, gan fynegi barn ynglŷn â'r ffurfiau sydd yn apelio fwyaf atynt. Mae disgyblion mwy galluog yn darllen yn hynod rugl, gan ddethol llyfrau sy'n eu diddori. Maent yn llithr ddarllen yn bwrpasol er mwyn cywain gwybodaeth, ac yn defnyddio'r wybodaeth i gyfoethogi eu gwaith, er enghraifft wrth drafod heriau oedd yn wynebu'r chwarelwyr yn chwarel y Penrhyn.

Mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu medrau ysgrifennu cadarn. Maent yn mwynhau gweithgareddau cyfoethog sy'n darparu cyfleoedd iddynt ddatblygu eu medrau ysgrifennu mewn amrediad o gyd-destunau. Yn y Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n aeddfed ac estynedig wrth drafod gwahanol drychfilod ac adar. Mae llawer o ddisgyblion mwy galluog Blwyddyn 2 yn ysgrifennu'n fedrus a chywir. Er enghraifft, wrth ysgrifennu llythyr at y trydydd mochyn bach, maent yn ei gynghori i guddio rhag ofn i'r blaidd ddod i chwilio amdano.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn creu amrediad effeithiol o waith ysgrifennu yn y Gymraeg a Saesneg. Maent yn arddangos ymwybyddiaeth dda o ffurf, gan atalnodi a sillafu yn gywir, ac yn ysgrifennu i safon dda mewn amrywiol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn creu adroddiad ar gyfer ei

ddarlledu wedi ei seilio ar brofiad gwahanol bobl yn ystod cyfnod apartheid yn Ne Affrica. Mae'r disgyblion mwyaf galluog yn ysgrifennu'n estynedig i safon dda iawn, er enghraifft wrth greu disgrifiad teimladwy a hynod effeithiol o hen fodryb.

Yn y cyfnod sylfaen, mae gan ran fwyaf o'r disgyblion afael cadarn ar fedrau rhif a gallant gymhwyso'u medrau yn hyderus wrth ddatrys problemau yn yr ardal tu allan. Mae llawer yn defnyddio clorian yn llwyddiannus wrth bwyso gwahanol wrthrychau gydag unedau safonol. Mae llawer o ddisgyblion y Derbyn a Blwyddyn 1 yn dangos dealltwriaeth gadarn o briodweddau cymesuredd wrth greu darluniau atyniadol o ddeunyddiau naturiol. Gall llawer o ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2 greu graffiau cywir o'r nifer o wahanol ddail a hadau.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau rhif rhan fwyaf y disgyblion yn dda. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o waith rhif, siâp a data, er enghraifft wrth ddarganfod arwynebedd, perimedr a chyfaint siapau dau a thri dimensiwn ym Mlwyddyn 5 a 6. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwyso'u medrau yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn dod o hyd i nifer y plant sy'n byw mewn gwahanol strydoedd er mwyn helpu Sion Corn gyda'i waith. Mae llawer o ddisgyblion mwy galluog Blwyddyn 5 a 6 yn defnyddio eu medrau rhif yn fedrus iawn, wrth graffu'n fanwl ar gyfri banc yn dangos yr arian sydd wedi dod i mewn ac allan o'r cyfri.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn dda. Maent yn defnyddio offer a meddalwedd yn hyderus o oedran cynnar. Er enghraifft, mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn cofnodi eu gwaith er mwyn ei werthuso. Gallant ddefnyddio meddalwedd yn hyderus er mwyn atgyfnerthu eu medrau rhifedd a llythrennedd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud dewisiadau aeddfed ynglŷn â'r offer mwyaf effeithiol i gyflawni eu gwaith. Maent yn defnyddio codau QR yn hyderus er mwyn arddangos eu gwaith. Gallant ddefnyddio offer technegol yn aeddfed wrth gynnig adborth i'w partner. Maent yn cydweithio'n effeithiol wrth greu fideo o'u cyflwyniadau llafar ac yn defnyddio offer sgrin werdd er mwyn cyflwyno'n llwyddiannus.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod beth i'w wneud os bydd rhywbeth yn eu poeni. Maent yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi, wrth symud o amgylch yr ysgol ac yn ystod amseroedd egwyl. Mae bron pob disgybl yn ofalgar o'i gilydd ac mae disgyblion hŷn, sy'n aelodau o'r Dreigiau Doeth, yn gofalu am eraill yn ystod amseroedd hamdden. Mae bron pob un o'r disgyblion yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda pharch. Maent yn gwrtais ac yn dangos balchder yn eu hysgol, eu cymuned a'u hiaith. Maent yn sgwrsio'n aeddfed, gan fynegi barn yn glir. Maent yn mynegi eu teimladau yn rheolaidd ac yn hyderus bod yr ysgol yn ymateb yn brydlon i unrhyw bryder sydd ganddynt.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos agwedd bositif at eu gwaith ac maent yn dyflbarhau â'u tasgau yn dda. Maent yn gweithio'n effeithiol gyda'u cyfoedion mewn grwpiau ac mewn parau ac yn dangos parch at farn ei gilydd. Maent yn trafod eu gwaith yn hyderus ac yn cyfrannu at y cam nesaf yn eu gwaith pan gânt y cyfle. Mae bron pob un yn barod i ddysgu ar gychwyn gwersi. Maent yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau ac yn newid o un gweithgaredd i'r llall yn hwylus.

Mae gan bron pob disgybl ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Maent yn deall gwerth ymarfer corff ac yn ymfalchïo yn y clybiau chwaraeon sydd ar gael yn ystod y dydd ac ar ôl ysgol. Maent yn deall y peryglon all godi yn eu bywydau bob dydd, gan gynnwys pwysigrwydd bod yn ddiogel ar y we, ac maent yn gwybod pa gamau i'w cymryd er mwyn cael cymorth pe bai angen.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o degwch a phwysigrwydd cyfle cyfartal. Maent yn sensitif i anghenion disgyblion eraill. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd gofalu am eu amgylchedd a'u cymuned leol. Enghraifft dda o hyn yw gwaith y pwyllgor eco a benderfynodd wahardd cŵn o'r safle oherwydd y broblem baw ci.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth drylwyr o'u rolau arwain o fewn yr ysgol. Maent yn gydwybodol ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif fel aelodau o'r cyngor ysgol, y cyngor eco a'r Dreigiau Doeth. Mae'r cyngor ysgol wedi casglu arian at nifer o elusennau. Maent hefyd yn cyfrannu'n rheolaidd tuag at y banciau bwyd lleol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill, yn ogystal â datblygu ymdeimlad o falchder yn eu cymuned. Maent yn adrodd yn ôl i'w cyd-ddisgyblion yn sgil eu trafodaethau a'u penderfyniadau mewn cyfarfodydd. Mae'r profiadau hyn yn eu paratoi nhw i fod yn ddinasyddion egwyddorol a meddylgar.

Mae bron pob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Maent yn deall canllawiau'r ysgol ynglŷn ag annog presenoldeb a bod mynychu'r ysgol yn gyson yn cael effaith gadarnhaol ar eu cynnydd dros amser.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae'r athrawon yn ennyn a chynnal diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol mewn gwersi ar draws yr ysgol. Mae gan staff berthynas waith adeiladol a hynod gefnogol gyda'r disgyblion yn eu gofal. Mae'r berthynas agos a chefnogol hon yn hyrwyddo cynnydd ymysg y disgyblion yn llwyddiannus. Mae gan yr athrawon a'r cymorthyddion ddisgwyliadau uchel o bob disgybl. Maent yn gosod amcanion clir ar gyfer gwersi, ac yn llunio meini prawf llwyddiant priodol gyda'r disgyblion. O ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion, yn enwedig y disgyblion hŷn, yn deall sut i werthuso eu gwaith eu hunain yn aeddfed. Yn yr un modd, mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn deall pwysigrwydd datblygu medrau dysgu annibynnol o oedran cynnar. Mae'r staff yn datblygu ymwybyddiaeth ymysg y disgyblion o bwysigrwydd dyfalbarhau â'u tasgau, a chydweithio gyda ffrind er mwyn datrys mân gwestiynau wrth iddynt weithio. Mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn gwneud defnydd aeddfed o'r wal 'llais bach ni,' er enghraifft wrth ymateb i syniad oedd wedi ei gynnig gan ddisgybl i greu sioe bypedau am y lindys bach a'i ffrindiau.

Mae'r athrawon yn darparu amrediad effeithiol o brofiadau dysgu hwyliog a sbardunol ar gyfer y disgyblion. Yn y cyfnod sylfaen, mae cydbwysedd effeithiol iawn rhwng gweithgareddau ffocws sy'n cael eu hwyluso'n llwyddiannus gan staff, a heriau penagored yn y ddarpariaeth. Mae'r ddarpariaeth barhaus a'r ddarpariaeth wedi ei chyfoethogi, yn cael ei defnyddio'n gelfydd gan y staff er mwyn annog datblygiad medrau'r disgyblion yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn herio'r disgyblion i lunio llwybr allan o beipiau er mwyn dyfrhau planhigyn sydd angen dwr.

Mae'r staff hefyd yn deall pwysigrwydd caniatáu i ddisgyblion llai hyderus ddefnyddio'r ddarpariaeth yn eu ffordd eu hunain er mwyn magu hyder yn raddol, ac adeiladu ar brofiadau dysgu blaenorol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu difyr er mwyn sicrhau bod disgyblion o alluoedd gwahanol yn cael eu herio i gyflawni i safon uchel. Mae'r athrawon yn darparu gweithgareddau gyda gwahanol lefelau o her, ac mae'r disgyblion yn dewis y lefel her sydd fwyaf addas iddynt. Ar y cyfan, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud y dewisiadau cywir ac yn datblygu annibyniaeth cynyddol.

Ar draws yr ysgol, mae'r staff yn rhoi adborth llafar pwrpasol i'r disgyblion wrth iddynt weithio ar eu tasgau. Maent yn trafod targedau personol y disgyblion yn rheolaidd gydag unigolion. O ganlyniad, mae gan y disgyblion afael gadarn ar yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i ddatblygu eu gwaith ymhellach.

Mae adborth ysgrifenedig y staff yn effeithiol, ac yn ymateb yn uniongyrchol i nod y wers a'r meini prawf llwyddiant sydd wedi eu cytuno. Mae'r disgyblion yn derbyn cyfleoedd rheolaidd a gwerthfawr i werthuso eu gwaith eu hunain, ac i roi sylwadau i'w cymheiriaid gan ddefnyddio systemau hylaw ac effeithiol. Mae'r disgyblion yn cyflawni'r rôl hon yn sensitif a chefnogol, gan hefyd herio ei gilydd i wella elfennau penodol o'u gwaith. Mae cyfleoedd rheolaidd i'r disgyblion fyfyrio ar adborth, ac i ailddrafftio elfennau o'u gwaith er mwyn ei gryfhau ymhellach.

Yn ddiweddar, mae athrawon cyfnod allweddol 2 wedi cyflwyno ardaloedd dysgu yn eu dosbarthiadau ac mae llawer o'r disgyblion yn dewis gweithgareddau yn gynyddol annibynnol. Fodd bynnag, mewn ychydig o weithgareddau, nid yw'r dasg yn galluogi disgyblion i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain.

Mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd cyfoethog mewn amrediad o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm i'r disgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh. Maent yn plethu elfennau'r cwricwlwm yn gelfydd gyda'i gilydd er mwyn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Er enghraifft, maent yn gwerthuso cerddoriaeth brodorol o Botswana fel sbardun i greu eu cyfansoddiad eu hunain, a chynhyrchu fideo o'r perfformiad er mwyn ei rannu ar system gyfrifiadurol yr ysgol.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r staff yn creu ethos gofalgar, hapus a chynhwysol yn yr ysgol lle mae pawb yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi. Mae'r amgylchedd dysgu yn annog disgyblion i ymfalchïo yn eu gwaith ac i gyfrannu'n effeithiol at fywyd yr ysgol. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer annog bwyta ac yfed yn iach ac annog gweithgaredd corfforol. Er enghraifft, maent yn tyfu ffrwythau a llysiau yng ngardd yr ysgol, gan ddysgu sut i ofalu amdanynt wrth iddynt dyfu. Mae amrediad effeithiol o weithgareddau corfforol yn cael eu cynnal yn ystod gwersi ac fel gweithgareddau allgyrsiol.

Mae gweithdrefnau olrhain a monitro cynnydd trwyadl yn cael effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad disgyblion. Maent yn galluogi staff i adnabod a chefnogi unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion mwy bregus a'r rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r athrawon yn adnabod anghenion y disgyblion yn gynnar ac yn cynnig rhaglenni ymyrraeth pwrpasol iddynt,

pan fo angen.  Mae'r cynorthwywyr yn gweithio'n frwd o dan arweiniad y cyd-gysylltydd anghenion dysgu ychwanegol i weithredu ystod effeithiol o raglenni ymyrraeth.  Mae hyn yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd a rhifedd wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau buddiol i ddatblygu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad disgyblion o hanes ac etifeddiaeth Cymru.  Er enghraifft, maent yn astudio hanes lleol am y diwydiant llechi, teithiau Gerallt Gymro, hanes Mari Jones ac yn dysgu am hanes y cestyll cyfagos.  O ganlyniad, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth dda o hanes eu cymuned leol ac o ddiwylliant Cymru.  Trwy gymryd rhan mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol a thrwy weithio gydag arlunwyr lleol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ymwneud â'r celfyddydau creadigol yn bwrpasol.

Mae'r ysgol yn dathlu amrywiaeth, cydraddoldeb ac amlddiwylliant yn llwyddiannus.  Maent yn gwahodd ymwelwyr o'r gymuned leol i rannu profiadau am hanes diwydiannau sy'n cyfoethogi profiad uniongyrchol y disgyblion o'u gwaith thema.  Mae'r athrawon yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i'r disgyblion astudio arddull wahanol artisitaid, er enghraifft wrth efelychu gwaith Mattisse.  Maent yn dathlu gwyliau amlddiwylliannol, er enghraifft wrth ddysgu am y flwyddyn newydd Tsieineaidd.  Maent yn dysgu am ddiwylliant Affricanaidd trwy weithgareddau celf a cherddoriaeth ac mae hyn yn ymestyn eu dealltwriaeth o'r byd ehangach yn llwyddianus.  Cynhelir addoliad dyddiol sydd yn galluogi blant i fyfyrio a datblygu moesoldeb a gwerthoedd yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ymuno â grwpiau arweinyddol fel y cyngor ysgol, y cyngor eco a Dreigiau Doeth.  Drwy waith y grwpiau hyn, mae disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau o fywyd a gwaith yr ysgol.  Er enghraifft, mae'r Dreigiau Doeth yn gweithredu'n fedrus i hybu parch a chydweithio rhwng y disgyblion ieuengaf a'r rhai hynaf yn yr ysgol.  Fodd bynnag, cyfyng yw'r cyfleoedd hyd yma i'r disgyblion gyfrannu at benderfyniadau ynglŷn â datblygiad y cwricwlwm.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau cryf a defnyddiol gyda'r rhieni, y gymuned, ysgolion eraill ac asiantaethau allanol fel y therapydd iaith a lleferedd a'r seicolegydd addysg.  Mae'r berthynas sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni yn un gadarn.  Mae'r ysgol yn gweithredu polisi drws agored ac yn cyfathrebu'n effeithiol â nhw i sicrhau eu bod yn ymwybodol o ddigwyddiadau beunyddiol ym mywyd yr ysgol.  Mae'r staff yn trefnu gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth rhieni o wahanol ffyrdd y gallant gefnogi eu plant gartref, drwy gynnal holiadur ynglŷn ag arferion darllen, ac wrth gynnal hyfforddiant i rieni ar sut i hyrwyddo ymddygiadau cadanhaol o ran llythrennedd.

Mae'r ysgol yn cael ei chadw'n lân a thaclus.  Mae trefniadau trwyadl ar gyfer rheoli'r safle.  Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da**

Mae'r pennaeth yn cynnig arweiniad hynod o ofalgar a chefnogol, a chyfeiriad strategol cadarn i'r ysgol sy'n arwain yn llwyddiannus at hyrwyddo lles a safonau cyflawniad y disgyblion.

Mae strwythur rheoli'r ysgol yn effeithiol a chaiff y pennaeth ei chefnogi'n frwdfrydig gan yr holl staff. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi dechrau cynllunio i ddatblygu meysydd cyfoes fel y cwricwlwm newydd i Gymru, ac agweddau cyfredol fel y fframwaith cymhwysedd digidol, er mwyn codi safonau cyflawniad disgyblion. Mae disgwyliadau uchel y pennaeth yn arwain yn llwyddiannus at ddatblygu lles a safonau disgyblion drwy addysgu effeithiol mewn amgylchedd ofalgar a Chymreig.

Mae'r pennaeth, arweinwyr a staff wedi cydweithio'n llwyddiannus i sefydlu ysgol newydd, gan sicrhau cysondeb yn y strategaethau arwain, dulliau addysgu ac wrth hyrwyddo lefel uchel o les. Mae hyn wedi cyfrannu'n sylweddol at yr ethos teuluol o gydweithio ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae'r ysgol yn gymuned ddysgu effeithiol sy'n llwyddo i ymgyrraedd at ei hamcanion, sef 'Darparu addysg o'r radd flaenaf i blant yr ardal mewn awyrgylch gynnes, gynhaliol.'

Mae trefniadau cyfarfodydd staff a chyfarfodydd yr uwch dîm rheoli yn gadarn ac yn canolbwyntio'n bwrpasol ar ymestyn deilliannau'r disgyblion. Mae'r strwythur staffio clir yn nodi cyfrifoldebau penodol i'r staff ac, o ganlyniad, mae gan bob aelod adnabyddiaeth gadarn o'u rôl o fewn yr ysgol.

Mae trefniadau hunanarfarnu yn ystyried tystiolaeth uniongyrchol yn ofalus. Er enghraifft, mae arweinwyr ac athrawon yn craffu ar waith disgyblion a chanfyddiadau arsylwi gwersi i werthuso cynnydd yn erbyn blaenoriaethau cyfredol. Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad pwrpasol yn arwain at adnabyddiaeth dda o anghenion datblygiad personol y staff. Er enghraifft, mae athrawon yn canolbwyntio'n gyfredol ar ddatblygu medrau dysgu annibynnol disgyblion.

Mae arweinwyr yn defnyddio canfyddiadau gwerthuso yn effeithiol ac mae'r wybodaeth yn arwain yn uniongyrchol at adnabod blaenoriaethau gwelliant yr ysgol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y blaenoriaethau cyfredol yn ganolog i ddatblygiad pellach yr ysgol, ac yn derbyn sylw manwl, er enghraifft wrth ddatblygu'r ddarpariaeth i wella safonau disgyblion mewn TGCh, a sicrhau cysondeb yn y broses asesu a thracio cynnydd disgyblion. Mae hyn yn arwain yn llwyddiannus at ddarparu gweithgareddau sy'n hybu awch a brwdfrydedd ymysg y disgyblion i ddysgu a chydweithio'n llewyrchus.

Mae'r nifer o gysylltiadau ag ysgolion cyfagos yn cynnig cyfleoedd buddiol i athrawon gydweithio ar agweddau penodol, fel trefnu adnoddau darllen, ar y cyd. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i athrawon gyfnewid arferion da a rhannu arbenigedd ymysg ei gilydd.

Mae gan y corff llywodraethol wybodaeth gadarn am berfformiad ac effaith gweithdrefnau'r ysgol ar safonau a lles y disgyblion. Maent yn rhannu cyfrifoldebau yn gydwybodol ac yn cynnal ymweliadau cyson i werthuso effaith darpariaeth ar safonau a lles y disgyblion, er enghraifft wrth adnabod datblygiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer TGCh ar draws yr ysgol. O ganlyniad, maent yn dwyn yr ysgol i gyfrif ac yn helpu i osod arweiniad a strategaethau clir ar gyfer datblygu'r ysgol ymhellach fel cymuned ddysgu flaengar.

Mae gan yr ysgol adeilad eang a braf, ac amrediad da iawn o adnoddau dysgu sy'n hyrwyddo cyflawniad a lles y disgyblion yn llwyddiannus. Mae gwariant wedi ei gysylltu'n briodol â blaenoriaethau gwelliant. Mae'r grant datblygu disgyblion yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gynnal cefnogaeth ar gyfer disgyblion penodol. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da dros amser.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/08/2019

This page is intentionally left blank

**Enw'r Ysgol: Y Fali**

**Addysg Grefyddol**

**Maes arolygu 1: Safonau Addysg Grefyddol**
***Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd dros amser?***

- Defnyddiwch: gwaith y disgyblion, asesiadau athrawon, teithiau dysgu, arsylwadau gwersi i lunio barn.
- I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, adroddiadau arholwyr CBAC.

**Y CYFNOD SYLFAEN**
Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dechrau dod yn hyderus wrth drafod amrywiol faterion ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen ac maent yn dechrau galw i gof storïau a ffeithiau. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer ohonynt yn gallu cymryd rhan mewn trafodaethau mewn parau, grwpiau bach a dosbarth cyfan gan ofyn cwestiynau synhwyrol.
Gall y rhan fwyaf siarad am eu teimladau eu gweithrediadau a'u barnau erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen ac y mae tua hanner yn disgrifio a chynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill.
Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dechrau defnyddio geirfa grefyddol syml gyda hyder cynyddol.

**CYFNOD ALLWEDDOL 2**
Mae'r rhan fwyaf o blant 3 / 4 yn gallu galw i gof, ymateb a chyfathrebu'n syml rai o'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol sylfaenol yr ymchwilir iddyn nhw. Mae ychydig iawn yn dechrau nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol mewn crefyddau.
Erbyn bl 5 / 6 mae tua hanner o'r disgyblion yn gallu disgrifio rhai arferion crefyddol a chredodau. Maent yn dechrau sylweddoli fod grefydd a chredodau yn effeithio ar fywydau credinwyr.
Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn bl 3 / 4 yn gallu disgrifio a trafod eu teimladau. Maent yn dechrau cymryd cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn parchu safbwyntiau eraill. Mae y rhan fwyaf yn dechrau cydnabod bod ystyr i symbolau crefyddol a byddant yn defnyddio geirfa crefyddol syml yn addas.
Erbyn bl 5 a 6, mae llawer o'r disgyblion yn gallu esbonio sut mae eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain yn effeithio ar eu bywydau. Mae llawer ohonynt yn gallu trafod sut mae eu penderfyniadau yn effeithio ar eu bywydau eu hunain a bywydau eraill. Mae llawer ohonynt yn defnyddio geiriau addas.
Drwy addysgu yn drawsgwricwlaidd mae'r disgyblion yn derbyn cyfleoedd i ddefnyddio'u medrau siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu, rhifedd a TGCh yn briodol mewn addysg grefyddol e.e. cynllunio hysbyseb ar gyfer swydd ficer newydd, ysgrifennu barddoniaeth a chynllunio cardiau dathliad Eid.
Yng Nghyfnod Allweddol 2 defnyddir cynlluniau ac adnoddau Cwestiynau Mawr mewn Addysg Grefyddol yn rhannol rhwng y dosbarthiadau bellach.

Nodiadau:
**CYFNOD SYLFAEN:** Mwy o gyfle am drafodaethau. Datblygu cwestiynu ymhellach.
**CYFNOD ALLWEDDOL 2:** Ymestyn gwybodaeth y disgyblion o arferion crefyddol a chredodau. Darparu mwy o gyfleoedd i drafod tebygrwydd a gwahaniaethau mewn crefyddau.

**Mae safonau addysg grefyddol ein disgyblion yn: DA**

**Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu am Addysg Grefyddol?**
***Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?***

- Defnyddiwch: gwaith disgyblion, dadansoddiad o holiadur addysg grefyddol, cofnodion grwp ffocws/Cyngor Ysgol
- I'ch helpu mae: Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017),

Dengys y rhan fwyaf o ddysgwyr yn y ddau gyfnod allweddol ymwybyddiaeth dda o werthoedd a chredoau Cristnogol, megis rhannu ag eraill a gofalu amdanynt. Trwy eu hymdrechion i gasglu arian at elusennau megis Plant Mewn Angen ac elusen lleol- Lighthouse, datblyga'r holl ddysgwyr ymwybyddiaeth dda eu bod yn rhan o gymuned fyd-eang a bod ganddynt gyfrifoldeb tuag at eu cyd-ddyn. Rhoddir gyfle i ddatblygu 'Lais Y Plentyn' drwy roi cyfrifoldebau am gasglu arian a pha elusennau i'w gefnogi i'r Cyngor Ysgol.
Wrth ymweld â lleoedd o addoliad yn yr ardal, datblyga'r holl ddysgwyr ddealltwriaeth dda o arwyddocâd y prif nodweddion a berthyn i adeiladau crefyddol. Dangosant ymwybyddiaeth dda o rai o'r seremonïau arbennig a gynhelir mewn lleoedd o'r fath, megis bedyddio. Mae ganddynt wybodaeth dda o rai o brif hanesion yn y Beibl.

Mae'r holl ddisgyblion yn gwybod am, ac yn dathlu digwyddiadau'r calendr Cristnogol, gan gymryd rhan yng ngwyliau'r Cynhaeaf, Nadolig a Phasg.
Gall disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol ddisgrifio nodweddion ym mywydau enwogion, e.e. Mari Jones, Florence Nightingale a Dewi Sant, sydd wedi bod yn arweinwyr pwysig neu wedi achosi newidiadau yn y byd.
Erbyn diwedd CA2 mae gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o resymau am bererindodau a ymgymera Cristnogion, Iddewon a Mwslemiaid, ac am y dulliau o'u cynnal.
Datblyga disgyblion sgiliau ABCh da o ganlyniad i'r ystod eang o destunau yr ymdrinnir â hwynt yn eu hastudiaethau addysg grefyddol.

Nodiadau:

Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi llais y plentyn gan gyflwyno mwy o gyfleoedd i fynegi barn a thrafod datblygiadau, chysyniadau ac agweddau crefyddol

**Mae agweddau disgyblion tuag at addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: DA**

**Maes arolygu 3: Addysgu ac phrofiadau dysgu mewn Addysg Grefyddol?**

***Pa mor dda yw'r cynllunio a'r addysgu mewn addysg grefyddol? Rhowch enghreifftiau o brofiadau addysg grefyddol cyfoethog***

- Defnyddiwch: teithiau dysgu, arsylwadau gwersi, gwaith disgyblion, holi disgyblion
- I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, Addysg grefyddol mewn ysgolion uwchradd (ESTYN, Haf 2013), Addysg grefyddol a moesol yng NghA2 a ChA3 (ESTYN, Haf 2018)

**Y CYFNOD SYLFAEN**

- Mae athrawon y Cyfnod Sylfaen yn gyfarwydd â'r fframwaith ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol
- Mae cynlluniau y Cyfnod Sylfaen yn sicrhau fod gofynion y fframwaith yn cael ei ddiwallu.
- Mae'r gweithgareddau wedi eu cynllunio ar draws y cyfnod Sylfaen ac yn dangos dilyniant o un dosbarth i'r llall o ganlyniad i gyd gynllunio a chyd drafod .
- Mae adnoddau storïol, llyfrau gwybodaeth, llyfrau gwybodaeth, llyfrau mawr, arteffactau, adnoddau TGCh, ymweliadau/ymwelwyr i'r ysgol i gyd yn creu diddordeb ac yn cyfoethogi'r ddarpariaeth yn y maes.
- Bydd y ficer lleol yn dod i weithio gyda'r plant unwaith pob mis.

**CYFNOD ALLWEDDOL 2**

- Yn ystod y cyfnodau Addysg Grefyddol, pwysleisir ar y cwestiynau mawr. Mae sgiliau'r plant i drafod a chwestiynu yn datblygu'n dda.
- Bydd y plant yn cael gwrando ar storïau a thrafod agweddau ohonynt.
- Defnyddir technoleg gwybodaeth i gyflwyno agweddau o'r maes llafur ac mae hyn yn sbardun i waith trafod.
- Mae adnoddau a llyfrau addas ar gael yn yr ysgol ac mae'r rhain o safon uchel ac maent yn gyfredol. Defnyddir clipiau fideo neu achos lleol i gyflwyno agweddau o'r gwaith.
- Mae cynlluniau ar gael yn yr ysgol ond mae angen ail edrych ar y rhain yn sgil ail drefnu dosbarthiadau'r ysgol.

Nodiadau:

**Y CYFNOD SYLFAEN** Ail edrych ar y cynlluniau
**CYFNOD ALLWEDDOL 2**. Ail edrych ar y cynlluniau yn sgil ail drefnu dosbarthiadau a phersonél.

**Maes safonau addysgu addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: DA**

**Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad mewn Addysg Grefyddol?**

***I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain? Sut mae addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol? I ba raddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?***

- Defnyddiwch: teithiau dysgu, cyfweliadau gyda disgyblion, rhaglen addoli ar y cyd yr ysgol, cylchlythyr ysgol, cofnodion yr ysgol o unrhyw troseddau casineb/bwlio.
- I'ch helpu mae: Canllawiau CYSAG, Canllawiau ynglyn â addoli ar y cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru), Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (ESTYN, Hydref 2017), Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017)

Mae cyfnod o addoli ar y cyd yn cael ei gynnal yn ddyddiol boed hynny fel ysgol gyfan, Cyfnod Allweddol neu ddosbarth Unigol. Bydd y gwasanaethau wedi eu selio ar Gristnogaeth. Mae hawl gan rieni i neilltuo eu plant o'r cyfnodau Addoli ond ar hyn o bryd, does neb yn dewis gwneud hyn.
Yn ystod y cyfnod o addoliad bydd y plant yn cael cyfle i weddïo, canu, myfyrio, trafod, gwrando ar storïau, actio ,darllen ayyb. Bydd y ficer lleol yn arwain un gwasanaeth pob mis.
Defnyddir y cyfnodau yma i drafod cwestiynau mawr ac i gyflwyno gwaith y dosbarth i weddill yr ysgol. Byddant yn cael eu defnyddio fel arf ar gyfer datblygu cwestiynau moesol, agweddau o ddinasyddiaeth byd eang a datblygiad personol a chymdeithasol. Byddwn yn pwysleisio fod angen dathlu tebygrwydd a gwahaniaethau.
Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn gwasanaethau yn eglwys y pentref e.e. Christingle, ymweld a'r cartref henoed lleol a chymryd rhan yn gwasanaeth carolau'r Urdd.
Bydd y pennaeth yn cynnal 'amser sgwrs' gyda plant BL 5&6 er mwyn iddynt rannu neu drafod os oes ganddynt bryderon neu hyd yn oed dweud os oes rhywbeth wedi ei gwneud yn hapus. Bydd hyn yn gwneud i blan deimlo'n gyfforddus a saff yn yr ysgol.
Mae materion ABaCh yn cael eu cyflwyno yn drawsgwricwlaidd. Mae sesiynau amser cylch yn caniatáu cyfleoedd da i'r disgyblion fynegi barn, rhannu a thrafod teimladau a materion o bwys iddynt. Mae trefn i drafod gwaith cartref nad yw disgybl wedi ei ddeall a chyfle yn ystod amser dosbarth i fynd drosto yn rhoi hyder i ddisgyblion i rannu unrhyw anawsterau.
Mae gan yr ysgol gyswllt weithredol effeithiol gydag asiantaethau arbenigol, yn cynnwys y gwasanaeth lles addysg, gwasanaethau meddygol, seicolegwyr addysg, yr heddlu, nyrs ysgol a'r gwasanaethau cymdeithasol.
Prin fod unrhyw gam ymddwyn yn yr ysgol ac mae trefniadau effeithiol yn ei lle i ddelio ac unrhyw ddigwyddiadau. Mae egwyddorion yr ysgol yn amlwg ac yn effeithiol iawn i bawb ac yn helpu disgyblion i wahaniaethu rhwng hyn sydd yn gywir a'r hyn sydd yn anghywir a datblygu hunan barch. Bydd hyn yn cael atgoffa mewn gwasanaethau boreuol. Mae'r ysgol yn cynnal gwobr 'Ser yr Wythnos' sy'n annog ac yn dathlu ymddygiad ac ymdrech arbennig. Mae adroddiadau o 'wir' fwlio yn brin iawn. Mae'r ysgol yn mabwysiadu safbwynt llym iawn ar fwlio.
Mae parchu aml-ddiwylliannau, hybu agweddau ar amrywiaeth, gwrth-hiliaeth a datblygu tegwch a chyfle cyfartal yn rhan naturiol o waith yr ysgol. Mae pwyslais amlwg ar hybu gwerthoedd cytûn yr ysgol, ac mae hyn yn cael dylanwad positif ar ymddygiad disgyblion.
Mae'r ysgol yn darparu addoli ar y cyd a gwasanaethau sy'n chwarae rhan bwysig yn natblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Ar Ddydd Mercher cyntaf o pob mis mae Cannon Philip Barratt yn rhoi gwasanaeth ysgol gyfan. Mae hyn yn cryfhau'r cyswllt gymunedol ac hefyd yn rhoi cyfleoedd pellach i gyd-addoli. Mae'r gweithredoedd cyd-addoli yr ysgol yn bodloni gofynion statudol.
Mae'r ysgol yn meithrin gwerthoedd sy'n cael eu rhannu fel gonestrwydd, tegwch, cyfiawnder a chynaliadwyedd drwy'r gwasanaethau boreol yn ogystal a gwaith ar lawr y dosbarth. Mae ethos deuluol yr ysgol yn nodwedd cadarnhaol ac mae'r ysgol yn ymfalchïo yn yr holl ddisgyblion.

Nodiadau:
Trafod y sesiynau addoli ar y cyd gyda'r holl staff gan drefnu cyfnodau ar gyfer creu cynlluniau ar gyfer y sesiynau yma . Gosod themâu yn eu lle ar gyfer y cyfnodau gan sicrhau fod y cynlluniau yn efelychu gwaith / themâu y dosbarthiadau.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ydy'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd?** | **Ydy** | | **Nac ydy** | |

**Mae cyfraniad addysg grefyddol i ddatblygiad personol disgyblion a chydlyniad cymunedol yn: DA**

**Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth mewn Addysg Grefyddol?**
***A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol? Sut ydych yn gwybod?***

- Defnyddiwch: cynlluniau gwaith, adroddiadau monitro ac hunan arfarnu, arfarniad o ddata, cyfweliadau gyda'r cydlynydd a'r llywodraethwr dynodedig/ymwelydd CYSAG, cofnodion cyfarfodydd staff, cynllun gwella, arfarniad cynnydd, astudiaeth achos yn dilyn cydweithio ysgol-i-ysgol.
- I'ch helpu mae: canllawiau CYSAG

Nodiadau:

**Mae arweinyddiaeth a rheolaeth mewn addysg grefyddol yn: BARN**

Nid oes rhaid rhannu'r manylion hyn gyda CYSAG ond mae angen i gofnodion yr ysgol sicrhau bod atebolrwydd yn glir i staff a llywodraethwyr

| Agweddau i gael sylw | Camau gweithredu | Pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| **CYFNOD SYLFAEN:** Mwy o gyfle am drafodaethau. Datblygu cwestiynu ymhellach. | Gwasanaeth ysgol 3 gwaith yr wythnos gyda agweddau crefyddol.<br><br>Gwersi Addysg Grefyddol pwrpasol sydd yn rhoi cyfle i blan drafod gwestiwn mawr agored. | Athrawon | Cychwyn Ionawr 2020 |
| Trafod y sesiynau addoli ar y cyd gyda'r holl staff gan drefnu cyfnodau ar gyfer creu cynlluniau ar gyfer y sesiynau yma . Gosod themâu yn eu lle ar gyfer y cyfnodau gan sicrhau fod y cynlluniau yn efelychu gwaith / themâu y dosbarthiadau. | Ystyried gofynion y Cwricwlwm Newydd i Gymru a cynllunio sesiynau addoli ar y cyd i gyd fynd gyda'r gofynion hyn. | Pennaeth | Ionawr 2020 |

**Arfarniad crynodol a fydd yn cyfrannu at arfarniad yr ysgol o 'Ddatblygiad Personol (4.2)'**

Mae'r ysgol yn darparu addoli ar y cyd a gwasanaethau sy'n chwarae rhan bwysig yn natblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Ar Ddydd Mercher cyntaf o pob mis mae Cannon Philip Barratt yn rhoi gwasanaeth ysgol gyfan. Mae hyn yn cryfhau'r cyswllt gymunedol ac hefyd yn rhoi cyfleoedd pellach i gyd-addoli. Mae'r gweithredoedd cyd-addoli yr ysgol yn bodloni gofynion statudol.

| | |
|---|---|
| **Enw'r pennaeth** | **Iolo Evans** |
| **Llofnod y pennaeth** | Iolo Evans |
| **Dyddiad:** | 09-01-20 |

**Sut y gall CYSAG fonitro safonau?**

**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)**

Prif swyddogaeth CYSAG yw monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd a chynghori'r awdurdod lleol ar faterion sy'n ymwneud ag addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae Cymdeithas CYSAGau Cymru yn credu y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol. Mae llawer o CYSAGau yn monitro safonau trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunanarfarniad Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd ag aelodau CYSAG.

**Gwybodaeth bellach:**

- Cymdeithas CYSAGau Cymru: www.wasacre.org.uk
- Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd: Cylchlythyr 10/94 (Swyddfa Gymreig)
- Felly rydych yn ymuno â'ch CYSAG lleol: llawlyfr ar gyfer aelodau CYSAGau yng Nghymru (Cym. CYSAGau C)
- Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, 2012);
- Adolygiad o Adroddiadau CYSAG (Llywodraeth Cymru, 2011 and 2013)

**Adran Addysg a Sgiliau Cymru (AdAS)**

Mae'r rhan fwyaf o CYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu'r 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3-19 oed yng Nghymru' neu'i addasu fel eu maes llafur cytûn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi addysg grefyddol yng Nghymru trwy ddarparu canllawiau i gefnogi athrawon, penaethiaid ac aelodau CYSAG. Maent yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol am ddulliau addysgu, adnoddau ac asesu. Roedd proses gymedroli allanol genedlaethol 2010 -12 yn gyfle i adrannau AG mewn ysgolion uwchradd ddangos eu dealltwriaeth o lefelau cyrhaeddiad Addysg Grefyddol.

**Gwybodaeth bellach**

- http://cymru.gov.uk > chwiliwch am Addysg Grefyddol
- Y Maes Llafur Cytûn (neu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)
- Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed(2009)
- Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013)
- Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr 2012 (http://cbac.co.uk )

**ESTYN**

Mae arolygiadau ESTYN yn seiliedig ar bump maes arolygu:





1. Safonau
2. Lles ac agweddau ddysgu
3. Addysgu a phrofiadau dysgu
4. Gofal, cymorth ac arweiniad
5. Arweinyddiaeth a rheolaeth

Prin yw'r adroddiadau arolygiadau ysgol sy'n cynnwys sylwadau ar safonau Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Cyhoeddwyd adolygiad thematig o Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd ym mis Mehefin 2013 ac mae'n cynnig argymhellion i awdurdodau lleol, ysgolion a CYSAGau.

**Gwybodaeth bellach:**

- www.estyn.org.uk
- Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd (ESTYN, Mehefin 2013)
- Addysg grefyddol a moesol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 (ESTYN, Haf 2018)
- Arweiniad atodol : addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (Hydref 2017)

**Pa dystiolaeth a ddefnyddir gan ysgolion wrth ddod i farn?**

| | |
|---|---|
| **Craffu ar lyfrau**<br> | Mae athrawon yn casglu sampl o waith disgyblion, (*e.e. amrediad o allu, oed, bechgyn a merched*) er mwyn helpu'r cydlynydd i ateb cwestiynau megis:<br>• Pa gynnydd a wneir gan ddisgyblion yn eu sgiliau AG? A oes grwpiau o ddisgyblion yn tangyflawni?<br>• I ba raddau y mae'r gwaith yn adlewyrchu gofynion y Maes Llafur Cytûn?<br>• I ba raddau y mae gwaith y dysgwyr yn datblygu'r medrau a nodir yn y Fframweithiau Llythrennedd, Rhifedd, a Chymhwysedd digidol Cenedlaethol<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu addysg grefyddol? |
| **Arsylwadau gwersi**<br> | Mae athrawon ac arweinwyr ysgol yn arsylwi gwersi er mwyn helpu'r cydlynydd i ateb cwestiynau megis:<br>• Pa gynnydd a wneir gan ddisgyblion yn eu sgiliau AG? A oes grwpiau o ddisgyblion yn tangyflawni?<br>• A yw'r dysgwyr yn dangos cymhelliant uchel? A ydynt yn cyfrannu i'w dysgu?<br>• I ba raddau y mae gwaith y dysgwyr yn adlewyrchu gofynion y Maes Llafur Cytûn?<br>• I ba raddau y mae gwaith y dysgwyr yn datblygu'r medrau a nodir yn y Fframweithiau Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd digidol Cenedlaethol?<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu addysg grefyddol? |
| **Holiaduron a chyfweliadau**<br> | Gall ysgolion ddadansoddi canlyniadau holiaduron a ddefnyddiwyd i ganfod barn disgyblion, athrawon a rhieni i gwestiynau megis:<br>• Beth yw eu barn am 'gynnwys' y gwersi AG? A oes grwpiau arwyddocaol o ddisgyblion/rhieni sy'n cynnig barnau gwahanol?<br>• Pa gynnydd a wneir ganddynt yn eu sgiliau Addysg Grefyddol?<br>• Beth yw eu rhagdybiaethau/barnau/agweddau tuag at Addysg Grefyddol?<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu addysg grefyddol? |
| **Data**<br> | Gall ysgolion ddefnyddio data asesiadau athro neu ganlyniadau arholiadau allanol (uwchradd yn unig) er mwyn adnabod tueddiadau neu batrymau?<br>• Pa mor dda y mae bechgyn/merched/grwpiau o ddisgyblion yn perfformio dros gyfnod? (*pob ysgol*)<br>• Pa mor dda y mae disgyblion ein hysgol/adran ni yn perfformio mewn cymhariaeth ag ysgolion/adrannau eraill? (*ysgolion uwchradd yn unig*)<br>• A oes grwpiau o ddisgyblion sy'n tangyflawni? (*pob ysgol*)<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu mewn addysg grefyddol? |
| **Eraill**<br><br>RE Quality Mark GOLD<br>Newyddion **Addysg Grefyddol**<br>**Religious Education** News | Gall barn ysgolion hefyd fod yn seiliedig ar dystiolaeth arall megis:<br>• Llwyddiant mewn cystadlaethau AG lleol neu genedlaethol;<br>• Cyfrannu tuag at ddigwyddiadau/cynadleddau/prosiectau/cyhoeddiadau lleol neu genedlaethol;<br>• Adroddiadau monitro gan aelodau eraill o'r staff *e.e. cydlynwyr llythrennedd rhifedd neu TGCh;*<br>• Cofnodion cyfarfodydd gyda staff, llywodraethwyr neu ymwelwyr CYSAG;<br>• Ymchwil gweithredu gan aelod o Gymuned Ddysgu Broffesiynol;<br>• Achrediad allanol, *e.e. Marc Ansawdd Addysg Grefyddol http://www.reqm.org/wales* |

DRAFT

## Canllawiau CYSAG (tudalennau 3, 4, 5 a 6)

**I ba raddau y mae ddarpariaeth yr ysgol yn hyrwyddo datblygiad personol y disgyblion? (Maes arolygu 4.2)**
Bydd arfarnu safonau a'r ddarpariaeth ar gyfer addysg grefyddol yn gymorth i'r ysgol arfarnu maes arolygu 4.2 sef 'Datblygiad personol (gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol).

Mae arweiniad arolygu ESTYN (Medi 2017) ar gyfer datblygiad ysbrydol a moesol yn nodi:

> *"Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn hyrwyddo egwyddorion sy'n helpu disgyblion i wahaniaethu rhwng da a drwg. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn datblygu gallu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain. Dylent ystyried i ba raddau y mae'r ysgol yn meithrin gwerthoedd sy'n cael eu rhannu, fel gonestrwydd, tegwch, cyfiawnder a chynaliadwyedd, ac yn helpu disgyblion i ddeall anghenion a hawliau pobl eraill yn lleol, ac fel aelodau o fyd eang ac amrywiol."*

O fewn amserlen cylch hunan arfarnu'r ysgol bydd angen ystyried pa dystiolaeth fydd yn helpu'r ysgol ddod i farn ar maes arolygu 4.2. Mae gan addysg grefyddol ac addoli ar y cyd gyfraniad pwysig i'r maes hwn.

Mae'r cwestiynau enghreifftiol canlynol yn seiliedig ar Fframwaith Arolygu Cyffredinol ESTYN (Medi 2017) a'r cwestiynau a defnyddiwyd gan ESTYN yn ystod arolygiad thematig ar addysg grefyddol yn ystod tymor yr Hydref 2017. Nid oes disgwyl i ysgol ateb pob cwestiwn, ond o drafod rhain gyda staff, llywodraethwyr, disgyblion ac ymgynghorydd cefnogi gwelliant bydd ysgol yn gallu adnabod cryfderau a meysydd gwella fydd yn eu galluogi i gynllunio gwelliannau.

### Maes Arolygu 1: Safonau

Cofiwch gynnwys geirfa feintiol ac arfarnol ac enghreifftiau o waith 'go iawn'!

- Beth yw eich barn am safonau addysg grefyddol yn eich ysgol? *(Disgyblion CS, CA2, CA3, CA4, CA5)*
- Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol?
- I ba raddau mae grwpiau o ddisgyblion yn gwneud cynnydd mewn addysg grefyddol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd?
- I ba raddau mae disgyblion yn defnyddio'u medrau siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu, rhifedd a TGCh yn briodol mewn addysg grefyddol?
- Rhowch enghraifft o sut mae'r disgyblion wedi datblygu eu medrau meddwl, eu creadigrwydd a'u medrau corfforol mewn gweithgareddau addysg grefyddol yn yr ystafell ddosbarth a thu allan?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

### Maes Arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu

Cofiwch gynnwys geirfa feintiol ac arfarnol ac enghreifftiau o waith 'go iawn'!

- A yw'r disgyblion yn dangos diddordeb mewn addysg grefyddol?
- Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

### Maes Arolygu 3: Addysgu a phrofiadau dysgu

Cofiwch gyfeirio at enghreifftiau o'r darpariaeth. Amser i'r pwnc? % sy'n dewis fel opsiwn Ast. Cref? % sy'n cael achrediad am AGref statudol.

- Sut ydych yn gwybod bod eich ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addysg grefyddol?
- Sut mae addysg grefyddol yn cael ei haddysgu yn eich ysgol?
- A yw'r addysg grefyddol yn llwyddo i ennyn ddiddordeb y disgyblion?
- Pa mor dda y mae'r gwersi/gweithgareddau yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol yn ogystal a'u medrau pwnc a'u medrau trawsgwricwlaidd?

- Beth yw ansawdd y cynllunio ar gyfer addysg grefyddol? (adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau blaenorol? amcanion clir? dulliau addysgu? adnoddau?)
- Pa mor dda y mae'r adborth mewn addysg grefyddol yn helpu disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn ei wneud a beth mae angen iddynt ei wneud i wella?
- Ym mha ffyrdd ydych chi'n asesu ac yn olrhain cynnydd disgyblion mewn addysg grefyddol?
- Sut mae'r cynllunio ar gyfer addysg grefyddol yn helpu'r disgyblion i fod yn unigolion uchelgeisiol, hyderus, dyheadol a gwybodus? A ydych wedi dechrau ymateb i argymhellion 'Dyfodol Llwyddiannus'?
- I ba raddau y mae'r ysgol yn rhoi ystod eang a phriodol o brofiadau, tu fewn a thu allan i'r dosbarth, er mwyn datblygu diddordeb a medrau'r disgyblion mewn addysg grefyddol?
- A yw'r ysgol yn trefnu unrhyw deithiau neu ymweliadau sy'n gysylltiedig ag addysg grefyddol? Pa grwpiau blwyddyn, pa mor aml, a sut mae'r teithiau hyn yn cyfoethogi'r cwricwlwm?
- A yw'r addysg grefyddol yn adlewyrchu natur cyd-destun yr ysgol? A yw'n adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol, ieithyddol ac ethnig Cymru ac ardal leol yr ysgol?
- I ba raddau mae'r gweithgareddau addysg grefyddol yn rhoi cyfleoedd cynyddol pwrpasol i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh i'r safon briodol?'
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?


**Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad**

- I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol?
- Sut mae'r disgyblion yn dylanwadau ar yr hyn y maent yn ei ddysgu mewn addysg grefyddol?
- A yw'r ysgol yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau cymunedol neu a oes ganddi gysylltiadau ag unrhyw arweinwyr neu sefydliadau ffydd?
- Beth yw cyfraniad addysg grefyddol i ddealltwriaeth disgyblion o'u diwylliant, y gymuned leol a'r byd ehangach?
- Rhowch enghreifftiau o sut mae addysg grefyddol wedi helpu disgyblion i ddeall materion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, ystrydebau neu eithafiaeth crefyddol, hawliau dynol?
- I ba raddau mae'r ysgol yn helpu disgyblion i ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?
- Pa mor dda mae'r ysgol yn datblygu gallu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain?
- A yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol parthed addoli ar y cyd?
- Beth yw ansawdd yr addoli ar y cyd? Pa mor dda y mae'r ysgol yn ei gynllunio dros gyfnod?
- Sut mae'r ysgol yn cadw disgyblion yn ddiogel rhag peryglon radicaleiddio, *e.e. deunydd eithafol naill ai drwy siaradwyr gwadd neu siaradwyr ar ymweliadau a safleoedd*?
- Sut ydych chi'n sicrhau y caiff pryderon ynghylch sylwadau a wneir gan ddisgyblion yn ystod gwersi addysg grefyddol eu hystyried yn briodol?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

**Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth**

- A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol?
- A yw'r staff yn gallu manteisio ar ddatblygiad proffesiynol mewn addysg grefyddol?
- Sut ydych yn dyrannu adnoddau i gynorthwyo i addysgu addysg grefyddol?
- Sut caiff rhieni eu hysbysu am eu hawl i dynnu disgyblion o wersi addysg grefyddol? Sawl disgybl sy'n cael eu tynno o wersi addysg grefyddol gan eu rhieni ac a oes gan yr ysgol drefniadau da i ddarparu ar eu cyfer yn ystod gwersi addysg grefyddol? A yw'r nifer hon wedi cynnydd/gostwng/aros yr un fath dros y 5 mlynedd diwethaf? O ba grwpiau y daw'r disgyblion hyn? A ydych yn cael sgwrs a rhieni ynghylch eu penderfyniad?
- Ym mha ffyrdd y mae darpariaeth eich ysgol ar gyfer addysg grefyddol yn helpu i hyrwyddo cydlyniad cymunedol gwell?
- Pa mor aml ydych chi'n monitro addysg grefyddol? Sut caiff y wybodaeth hon ei rhannu a staff perthnasol eraill?
- A ydych yn ystyried safbwyntiau disgyblion yn yr adroddiad hunan-arfarnu a'r cynlluniau gweithredu?
- A ydych yn cydweithio gydag athrawon sy'n addysgu addysg grefyddol mewn ysgolion eraill? Beth yw effaith hyn?
- Beth yw'r 'enghraifft gorau o addysg grefyddol' y gallwch ei rannu gyda'ch CYSAG lleol neu gydag athrawon eraill?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

**Sut y gall CYSAGau fonitro safonau?**




**Sut y gall CYSAG gywain gwybodaeth?**

- trwy ofyn i ysgolion gyflwyno gwybodaeth a hunanarfarniad;
- trwy gomisiynu 'arbenigwr' i ymweld â sampl o ysgolion a darparu adroddiad tymhorol;
- trwy drefnu bod yr aelodau yn ymweld ag ysgolion;
- trwy ofyn i ddisgyblion, staff a llywodraethwyr mewn sampl o ysgolion gwblhau holiadur ar-lein;
- trwy edrych ar ganlyniadau arholiadau allanol ac asesiadau athro CA3 (ysgolion uwchradd yn unig)

**Pa ffynonellau sydd ar gael yn eich hardal chi?**

- Dadansoddiad o adroddiadau hunan arfarnu ysgolion;
- Dadansoddiad o bolisïau, cynlluniau gwaith, cynlluniau datblygu ysgolion;
- Data perfformiad ysgolion: asesiadau athrawon CA3, canlyniadau TGAU, Safon UG/A;
- Adroddiadau ymweliadau ysgol gan aelodau CYSAG;
- Dadansoddiad o holiaduron ysgol, arolygon ar-lein (disgyblion, staff, llywodraethwyr) wedi'u cyflwyno gan benaethiaid, cydlynwyr neu CYSAG/Cymdeithas CYSAGau Cymru;
- Cyflwyniadau gan gydlynwyr, athrawon, penaethiaid, disgyblion;
- Llwyddiant mewn cystadleuaethau, achrediadau allanol.

**Rhifau - meintiau a chyfrannau**

| | | |
|---|---|---|
| bron bob un | = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf | = | 90% neu fwy |
| llawer | = | 70% neu fwy |
| mwyafrif | = | dros 60% |
| tua hanner | = | agos at 50% |
| lleiafrif | = | o dan 40% |
| ychydig | = | o dan 20% |
| ychydig iawn | = | llai na 10% |

**Pwy sy'n cyfrannu tuag at y monitro?**

- athrawon ac aelodau o UDRh ysgolion
- aelodau CYSAG
- swyddogion Awdurdod Lleol/GwE
- athrawon a nodwyd fel athrawon neilltuol
- disgyblion
- llywodraethwyr
- rhieni

| **Rhagorol**<br>**Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig** | **Da**<br>**Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau** |
|---|---|
| arbennig, da iawn, cryf iawn, eithriadol, yn rhagori ar, arbennig, ardderchog, gwych, safon uchel iawn, ansawdd uchel iawn, ymestynnol, creadigol iawn, ymhell uwchlaw'r disgwyliadau, effeithiol iawn, hyfedr, meistrolgar | llwyddiannus, cryf, cadarn, medrus, buddiol, gwerthfawr, cadarnhaol, trwyadl, defnyddiol, nerthol, grymus, cynhwysfawr, defnydd da, cyson dda, effeithiol, pwrpasol |
| **Digonol ac angen gwelliant**<br>**Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella** | **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys**<br>**Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau** |
| boddhaol, priodol, addas, effeithlon, cymwys, perthnasol, digonol, digon, dilys, cadarn, diogel, canolig, cyson, cymedrol, anghyson, | annigonol, aneffeithlon, dim, amhriodol, aneffeithiol, anaddas, methu, gwan, gwael, cyfyngedig. |

**Geiriau/ymadroddion defnyddiol**

Mae xxx wedi arwain at....
O ganlyniad i xxx mae safonau xxx wedi codi xx% er xx
Yn dilyn cyflwyno xxx mae xxx wedi gwella, fel y dangosir gan ...
Dengys xxx fod safonau xxx wedi...
Gwelir effaith xxx yn xxx sy'n dangos bod....
Gellir gweld gwelliant mewn xxx yn ....
Gellir gweld dylanwad xxx yn y gwelliant/cynnydd...
Dengys XXXXX bod x% o'r disgyblion yn gallu/bod gan x% o'r disgylion ...
Dengys xxx bod x% o'r rhieni/staff/llywodraethwyr yn....

**Beth ddylid ei gynnwys?**

- **Effaith ymyrraeth** ar (safonau, lles, addysgu, agweddau, gwerthoedd)
- **Tueddiadau** dros gyfnod
- **Cymhariaeth** ag ysgolion eraill (?)
- **Barn** - defnyddio termau arfarnol
- **Meintioli** pa bryd bynnag y bo'n bosibl

**Enw'r Ysgol:- Ysgol Rhoscolyn**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

| **Maes arolygu 1: Safonau Addysg Grefyddol**<br>***Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd dros amser?*** |
|---|
| • Defnyddiwch: gwaith y disgyblion, asesiadau athrawon, teithiau dysgu, arsylwadau gwersi i lunio barn.<br>• I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, adroddiadau arholwyr CBAC. |
| Nodiadau:-<br>CS<br>Mae gan y mwyafrif o ddisgyblion y CS ddealltwriaeth gadarn o wyliau crefyddol ac mae rhan fwyaf yn gallu trafod y gwyliau hyn gyda pheth manylder. Gall y rhan fwyaf gyfrannu ar lafar i drafodaethau ar gwestiynau moesol ee Beth sydd yn gwneud ffrind da, Pam fod hi'n bwysig dweud y gwir ayyb. Fodd bynnag, wrth gynnal sesiwn craffu a'r lyfrau ni welwyd ddigon o dystiolaeth o hyn yn lyfrau'r plant. Mae gan ganran fechan o ddisgyblion CA1 wybodaeth dda o'r crefydd Hindwaeth ac yn gallu sgwrsio yn wybodus am arteffactau sydd yn berthnasol i'r crefydd hyn.<br>CA2<br>Nid yw mwyafrif o ddisgyblion Bl. 3 a 4 yn ymddangos yn hyderus wrth drafod y Beibl. Prin iawn yw eu gwybodaeth am Gristnogaeth. Mae ganddynyt ychydig o wybodaeth am grefyddau eraill ond nid yw y wybodaeth hyn eto yn gadarn. Mae disgyblion 5 a 6 yn ymddangos yn fwy hyderus wrth drafod y crefyddau mawr gyda nifer yn cyflwyno gwaith o safon uchel. Fodd bynnag, nid oes ganddynt lawer o wybodaeth am y Beibl, a phrin oeddynt yn gallu enwi prif gymeriadau a straeon cyfarwydd. Wrth bori trwy'r llyfrau gwaith roedd pob darn o waith a theitl gweladwy, roedd hyn yn gamoladwy ac yn dangos ffocws clir i'r gwaith. |
| **Mae safonau addysg grefyddol ein disgyblion yn: foddhaol, gyda rhai agweddau angen fwy o sylw.** |

| **Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu am Addysg Grefyddol?**<br>***Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?*** |
|---|
| • Defnyddiwch: gwaith disgyblion, dadansoddiad o holiadur addysg grefyddol, cofnodion grwp ffocws/Cygor Ysgol<br>• I'ch helpu mae: Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017), |
| Nodiadau: -<br>Ar y cyfan mae gan ddisgyblion yr ysgol agwedd bositif a iach tuag at Addysg Grefyddol. Mae'r mwyafrif yn barod i wrando ar safbwynt pobl eraill mewn modd rhesymol a pharchus. Mae bron pob disgybl yn barod i gymeryd rhan mewn sesiynau amser cylch ac yn agored i drafodaethau sydd yn cynnwys materion moesol, lles ac ysbrydol. Mae canran helaeth o'r disgyblion yn dangos diddordeb cryf mewn crefyddau mawr y byd ac yn gallu trafod ystyr gwahanol symbolau yn wybodus a ddeallus.<br>Fodd bynnag, mae angen ystyried a datblygu yn fwy testun gwasanaethau'r ysgol gyfan. |
| **Mae agweddau disgyblion tuag at addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: bositif a chamoladwy.** |

| **Maes arolygu 3: Addysgu ac phrofiadau dysgu mewn Addysg Grefyddol?**<br>***Pa mor dda yw'r cynllunio a'r addysgu mewn addysg grefyddol? Rhowch enghreifftiau o brofiadau addysg grefyddol cyfoethog*** |
|---|
| • Defnyddiwch: teithiau dysgu, arsylwadau gwersi, gwaith disgyblion, holi disgyblion<br>• I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: |

Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, Addysg grefyddol mewn ysgolion uwchradd (ESTYN, Haf 2013), Addysg grefyddol a moesol yng NghA2 a ChA3 (ESTYN, Haf 2018)

Nodiadau:-

Mewn mwyafrif o wersi Addysg Grefyddol mae safon a darpariaeth yn dda. Mae gwaith cynllunio'r athrawon yn dangos fod traws toriad o wahanol brofiadau yn cael eu cynnig i'r disgyblion gyda'r phwyslais ar ddatblygu credoau ysbrydol y disgyblion. Mae rhan helaeth o'r gwaith yn cyfeirio at dyddiau pwysig yn y calendr Cristnogol a hefyd at Grefyddau byd eang.

Yn lyfrau'r plant derbyn gwelwyd tystiolaeth o waith yn yr Ardaloedd gyda'r plant yn cael cyfle i sgwrsio, fodelu a mynegi eu syniadau ynglyn a mannau crefyddol. Gweler hefyd tystiolaeth o brofiadau trawsgwriciwlaidd wrth i'r plant ail greu hanes Sul y Palmwydd yn llwyddiannus allan ar dir yr ysgol.

Braf oedd gweld tystiolaeth fod ddisgyblion 1 a 2 yn cael cyfle i ddysgu am Sul y Cofio ac i fynegi eu ysbrydioliaeth trwy waith celf. Roedd yr elfen o blethu Addysg Grefyddol yn naturiol i waith thema'r dosbarth yn hynod o lwyddiannus.

Yn waelod CA2, gwelwyd fod y disgyblion yn cael llawer o gyfleoedd i ymchwilio i grefyddau mawr y byd ac i geisio gweithio yn annibynnol. Ymysg y gwaith cynllunio, roedd tystiolaeth fod sgiliau TGCh y dysgwyr yn derbyn lle blaenllaw wrth i'r athro/ athrawes baratoi gwersi penodol.

Yn dop CA2 fe welwyd amryw o dasgau heriol yn cael eu cynnig i'r palnt ee ysgrifennu llythyr perswad, cynnal ymchwil i'r afon ganges ayyb. Roedd tystiolaeth fod y tasgau wedi eu gwahaniaethu yn glir, gyda ffocws pendant a meini prawf penodol.

**Maes safonau addysgu addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: dda gyda'r bwriad o ddatblygu ymhellach.**

**Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad mewn Addysg Grefyddol?**

***I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain? Sut mae addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol? I ba raddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?***

- Defnyddiwch: teithiau dysgu, cyfweliadau gyda disgyblion, rhaglen addoli ar y cyd yr ysgol, cylchlythyr ysgol, cofnodion yr ysgol o unrhyw troseddau casineb/bwlio.
- I'ch helpu mae: Canllawiau CYSAG, Canllawiau ynglyn â addoli ar y cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru), Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (ESTYN, Hydref 2017), Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017)

Nodiadau:-

Mae'r ysgol yn ymateb yn syth i unryw achosion o fwlio neu chasineb at eraill ond prin yw achosion o'r fath. Mae canran uchel o'r disgyblion yn dangos parch tuag at blant bach ac oedolion wrth iddynt ddal drysau yn agored, siarad yn aeddfed ac arwain ymwelwyr drwy'r ysgol. Yn gyntedd yr ysgol, mae'r blwch post 'dwi isho dweud' wedi ei leoli ac ar gael i ddisgyblion rannu eu pryderon yn gyfrinachol. Mae gan yr Cyngor Ysgol rol fugeiliol ac yn cyfarfod yn aml er mwyn cysidro materion sydd yn ymwneud a lles phob disgybl. Mae'r system 'buddies buarth' yn hynod o lwyddiannus, gyda'r 'buddies' yn monitro'r buarth yn eu siacedi melyn ac o gymorth i blant swil sydd efallai yn llai hyderus.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf gyda'r eglwys ar gymuned leol. Mae canran fechan o'r gymuned yn mynychu'r ysgol er mwyn rhannu profiadau am blentyndod a chyfleu hanesion lleol. Mae llyfrau gwaith y plant yn dangos tystiolaeth fod yna gysylltiadau cadarn rhwng yr ysgol a'r eglwys, gyda nifer o dripiau a chyngherddau yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn ysgol. Mae rheithor yr eglwys hefyd wedi arwain ambell wasanaeth o fewn yr ysgol.

Mae gwasanaethau'r ysgol yn cael eu trefnu yn ystod y prynhawn gyda'r pwyslais ar ddatblygu disgyblion parchus, caredig a heddychlon sydd gyda'r rhinweddau i dyfu i fod yn ddinasyddion gweithredol.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ydy'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd?** | **Ydy** | **√** | **Nac ydy** | |

**Mae cyfraniad addysg grefyddol i ddatblygiad personol disgyblion a chydlyniad cymunedol yn: dda gyda'r angen i gryfhau mewn ambell man.**

**Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth mewn Addysg Grefyddol?**
***A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol? Sut ydych yn gwybod?***

- Defnyddiwch: cynlluniau gwaith, adroddiadau monitro ac hunan arfarnu, arfarniad o ddata, cyfweliadau gyda'r cydlynydd a'r llywodraethwr dynodedig/ymwelydd CYSAG, cofnodion cyfarfodydd staff, cynllun gwella, arfarniad cynnydd, astudiaeth achos yn dilyn cydweithio ysgol-i-ysgol.
- I'ch helpu mae: canllawiau CYSAG

Nodiadau:-
Oes, mae'r Arweinydd pwnc wedi cwblhau yn ddiweddar Adroddiad Cyfansawdd manwl oedd yn cyfeirio yn benodol at ddarpariaeth a safonau presennol yr ysgol. Fe seilwyd yr adroddiad hwn ar y tystiolaeth canlynol:-

- Barn proffesiynol yr athro/athrawon dosbarth,
- Cynlluniau unigol athro/athrawon,
- Sesiynau craffu ar lyfrau,
- Cyfweliadau a thrafodaethau anffurfiol gyda grwpiau o blant ac
- Arfarniad o gynnydd gan yr Arweinydd Pwnc.

**Mae arweinyddiaeth a rheolaeth mewn addysg grefyddol yn: dda, gyda'r angen i barhau i fonitro meysydd gwelliant trwy'r ysgol.**

| Agweddau i gael sylw | Camau gweithredu | Pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|
| | | Nid oes rhaid rhannu'r manylion hyn gyda CYSAG ond mae angen i gofnodion yr ysgol sicrhau bod atebolrwydd yn glir i staff a llywodraethwyr | |
| Amserlennu cyfnodau i astudio'r Beibl a'r crefydd Cristnogol. | Cyfnodau i astudio'r Beibl a'r crefydd Cristnogol wedi eu amseru yn glir. | Pawb | Rhagfyr 2019 |
| Plethu elfennau o Addysg Grefyddol yn rheoliadd i mewn i sesiynau Amser Cylch. | Tystiolaeth yn ymddangos yn gynlluniau gwaith yr athrawon dosbarth. | LLO, LW | Rhagfyr 2019 |
| Cynnig strwthyr fwy pendant i wasanaethau'r ysgol ee beth sydd yn cael eu astudio pa bryd a pham. | Trafodaeth yn ystod Nos Fawrth gyda'r bwriad o grynhoi cynnwys gwasanaethau'r ysgol. | Pawb | Rhagfyr 2019 |
| Sicrhau fod yr ysgol yn cyd ymffurfio a gofynion y cwricwlwm newydd wrth ddarparu profiadau crefyddol. | Tystiolaeth yn ymddangos yn gynlluniau gwaith yr athrawon dosbarth | Pawb | Rhagfyr 2019 |
| Sicrhau fod pob disgybl yn cael y cyfle i gyrraedd ei lawn botensial wrth astudio | Tystiolaeth o wahanol dasgau yn ymddangos yn glir yn gynlluniau gwaith yr athrawon dosbarth. | SR, BR | Rhagfyr 2019 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Addysg Grefyddol. | | | |

**Arfarniad crynodol a fydd yn cyfrannu at arfarniad yr ysgol o 'Ddatblygiad Personol (4.2)'**
Cryno! Tua 50 o eiriau.

Mae yma lawer o dystiolaeth fod yr ysgol yn datblygu disgyblion a fydd yn tyfu i fod yn ddinasyddion parchus a gweithredol. Mae gan mwyafrif o'r disgyblion ddealltwriaeth cadarn o'r gymuned leol a'r byd ehangach. Mae'r ysgol eisoes wedi datblygu y system o 'fuddies buarth' sydd o gymorth wrth ddatblygu'r ethos o gyfeillgarwch a thegwch trwy'r ysgol. Mae ymdrechion yr athrawon i ddarparu cyfleoedd i'r disgyblion wahaniaethu rhwng y da a'r drwg yn llwyddiannus gyda'r Cyngor Ysgol yn barod i gefnogi a chymeryd rol weithredol.
Efallai mae angen ystyried yn fwy ansawdd gwasanaethau'r ysgol, er mwyn bodloni yn llawn gofynion statudol yr ysgol.

**Enw'r cydlynydd:- Llinos Owen**

**Dyddiad:- Mai 2019**

DRAFT

This page is intentionally left blank

CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru
WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

***Cyfarfod CYSAGau Cymru, Neuadd y Cyngor, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA Dydd Iau, 21 Tachwedd, 2019***
**10.30a.m. – 3.30p.m.**

**Yn bresennol**

| | | |
|---|---|---|
| **Ynys Môn**<br>Rheinallt Thomas (RT) Gwyneth Mai Hughes (GH)<br><br>**Blaenau Gwent**<br>Paula Webber (PW)<br><br>**Pen-y-bont ar Ogwr** Edward J. Evans (EE)<br>Angela Hill (AH)<br><br>**Caerffili**<br>Paula Webber (PW)<br><br>**Caerdydd**<br>Angela Hill (AH)<br><br>**Sir Gaerfyrddin**<br>Aled Jones (AJ)<br><br>**Ceredigion**<br>Lyndon Lloyd (LL) Mary Parry (MP) Aled Jones (AJ)<br>Lynford Thomas (LT) John Tudor Williams (JW)<br>C. Joyce Howells (JH) Mary Davies (MD) Angharad John (AJ)<br><br>**Conwy**<br>Phil Lord (PL) | **Sir Ddinbych**<br>Phil Lord<br><br>(PL) **Sir y**<br><br>**Fflint**<br><br>**Gwynedd**<br><br>**Merthyr Tudful**<br>Angela Hill (AH)<br><br>**Sir Fynwy**<br>Paula Webber (PW)<br><br>**Castell-nedd Port Talbot**<br>Rachel Samuel (RS)<br><br>**Casnewydd**<br>Paula Webber (PW)<br><br>**Sir**<br><br>**Benfro**<br><br>**Powys**<br><br>**Rhondda Cynon Taf**<br>Angela Hill (AH) | **Abertawe**<br>Jennifer Harding-Richards (JHR)<br>Alison Lewis (AL)<br><br>**Torfaen**<br>Paula Webber (PW)<br><br>**Bro Morgannwg**<br>Angela Hill (AH)<br>Marged Williams (MW)<br><br>**Wrecsam**<br>Libby Jones (LJ)<br>Tania ap Siôn (TaS)<br><br>**Sylwedyddi**<br><br>**on**<br><br>**Cyflwynwyr**<br><br>**REMW**<br>Paul Morgan (PM)<br><br>**Cofnodion**<br>Gill Vaisey (GV)<br><br>**Darpar Ysgrifennydd**<br>Alice Parry (AP) |

Cyn y cyfarfod, cafwyd cyfle i fwynhau eitemau cerddorol gan ddisgyblion a staff Côr Ysgol Gynradd Aberaeron.

# Cofnodion y cyfarfod

## 1. Cyflwyniad a chroeso

Croesawyd pawb i Swyddfeydd Cyngor Ceredigion ym Mhenmorfa gan y Cynghorydd Sir, Catrin Miles, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Dysgu, Dysgu Gydol Oes a Hamdden. Dywedodd wrth yr Aelodau fod ganddi gyfrifoldeb dros y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes a Hamdden, a bod ganddi gryn ddiddordeb ym mhwnc addysg grefyddol a sut mae'n eistedd o fewn ysgolion Ceredigion ac o fewn y cwricwlwm newydd. Roedd hi'n falch o allu bod yn bresennol yn y cyfarfod ac roedd yn bwriadu aros tan y diwedd.

Croesawodd EE bawb i'r cyfarfod. Cyflwynodd Alice Parry, sydd wedi cynnig dod yn Ysgrifennydd newydd CCYSAGauC. Mae Alice yn gynrychiolydd athrawon ar GYSAG Pen-y- bont ar Ogwr. Cefnogwyd y penodiad yn unfrydol gan yr aelodau.

Siaradodd Alice am ei brwdfrydedd dros AG, dros GYSAGau, a'r cyfle i wasanaethu CCYSAGauC fel ysgrifennydd.

Diolchodd EE hefyd i Paula Webber, yr ysgrifennydd presennol, am y gwaith enfawr a wnaeth hi dros CCYSAGauC fel ysgrifennydd yn ystod ei hamser yn y swydd. Dywedodd fod Paula wedi gweithio'n ddiflino ar ran CCYSAGauC. Roedd yn sylweddoli faint o amser a gymerodd hyn, wrth iddi weithio yr un pryd ar ddatblygu'r cwricwlwm newydd i Lywodraeth Cymru ac ochr yn ochr â'i gwaith llawn amser gydag EAS.

Ategwyd sylwadau EE gan yr aelodau a diolchodd pawb i Paula am ei hymroddiad a'i gwaith rhagorol. Roedd yr aelodau'n falch o glywed y bydd Paula yn dal yn rhan o CCYSGAauC, yn ei swydd fel cyn ysgrifennydd.

## 2. Adfyfyrio tawel

Rhannodd EE feddyliau am yr amseroedd cythryblus hyn. Siaradodd am yr anniddigrwydd, yr anhapusrwydd a'r anghytundeb sydd yn y wlad ar hyn o bryd. Darllenodd linellau o ryddiaith fyfyriol gan Satish Kumar, aelod o'r gymuned Jainaidd:

"Arwain fi o farwolaeth at Fywyd, o anwiredd at y
Gwir Arwain fi o anobaith i Obaith, o ofn i
Ymddiriedaeth Arwain fi o gasineb at Gariad, o ryfel i
Heddwch
Boed i Heddwch lenwi'n calonnau, ein byd, ein bydysawd."

## 3. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Kathy Riddick (Blaenau Gwent), Rudi Lockhart (REC), Vicky Barlow (Sir y Fflint), Michesae Gosney (Estyn), Janet Jones (Caerffili), John Mitson (Powys).

## 4. Cyflwyniad: Cynhadledd EFTRE 2019 – Gill Vaisey

Cafwyd cyflwyniad gan Gill Vaisey, a oedd yn adborth o Gynhadledd Athrawon AG y Fforwm Ewropeaidd a gynhaliwyd yn Nulyn a Belffast ym mis Awst 2019. Bu hi yno fel cynrychiolydd CCYSAGAuC.

Siaradodd Gill am werth a safon y gynhadledd a gynhaliwyd dros chwe diwrnod. Gellir cael manylion ar wefan EFTRE, yn cynnwys papurau'r prif siaradwyr, a gellir lawrlwytho'r rhain o http://www.eftre.net/

Yn ei chyflwyniad, canolbwyntiodd Gill ar rannu rhai o'r adnoddau dysgu niferus a gafodd sylw yn ystod y gynhadledd. Pwysleisiodd ei bod yn teimlo y gallai ei phresenoldeb yn y gynhadledd gael yr effaith fwyaf drwy'r ffaith fod yr adnoddau hyn yn cael eu rhannu, drwy GYSAGau, gydag athrawon yng Nghymru, a hynny o fudd i'r disgyblion yn y pen draw.

Tynnodd Gill sylw arbennig at un adnodd fideo a strategaeth ddysgu yr oedd hi'n teimlo oedd yn enghraifft berffaith o sut i ymdrin â Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau mewn ysgolion. Gan ddefnyddio clipiau fideo 'Little Things are Big', dangosodd Gill sut y gallai hyn fod yn sail ar gyfer gwaith i archwilio datganiadau Yr Hyn sy'n Bwysig y Dyniaethau ac y gallent gael eu datblygu ymhellach o fewn meysydd pwnc hanes, astudiaethau cymdeithasol ac addysg grefyddol.

Gweithredu: Bydd y cyflwyniad PowerPoint gyda dolenni i'r adnoddau y cyfeiriwyd atynt ar gael i bob CYSAG. Caiff CYSAGau eu hannog i rannu'r rhain gyda'r athrawon yn eu Hawdurdod Lleol.

## 5. Diweddariadau ar y Cwricwlwm i Gymru 2022

Rhoddodd PW ddiweddariad ar y datblygiadau yn dilyn y cyfnod ymgynghori ac adborth a ddaeth i ben ym mis Gorffennaf 2019. Hysbysodd PW yr aelodau na fydd newidiadau mawr o'r drafft i'r ddogfen derfynol. Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau sy'n newid leiaf o'r holl feysydd. Bydd y prif newidiadau yn ymwneud â'r 'deilliannau cyflawniad' a fydd yn newid yn 'ddisgrifyddion dysgu'. Bydd y canllawiau 'cynllunio eich cwricwlwm' yn cael ei gwtogi ac yn mynd yn ganllaw i 'ddylunio eich cwricwlwm'.

Bydd fersiwn ddiwygiedig derfynol y cwricwlwm ar gael ym mis Ionawr 2020 a bydd yn cael ei gweithredu mewn ysgolion a lleoliadau drwy Gymru erbyn mis Medi 2022.

Dywedodd LL fod llawer o bobl ddim yn cefnogi'r cwricwlwm newydd ac y dylai LlC fod yn pwysleisio rôl foesol AG. Awgrymodd y byddai her gyfreithiol i'r cwricwlwm newydd yn codi.

Cyfeiriodd at gyflwyniad Gill lle'r oedd hi wedi cyfeirio ar werthoedd Puerto Rica ar gwrteisi. Awgrymodd ein bod yn byw mewn oes o anghwrteisi ac y dylai'r pwyslais yn y cwricwlwm newydd fod ar hyrwyddo gwerthoedd a moesau yn AG. Mae ef yn teimlo fod y cwricwlwm AG yn rhy academaidd a heb fod yn hyrwyddo gwerthoedd ac addysg foesol. Mynegodd bryder nad oes sôn am y traddodiadau Cristnogol sy'n bodoli yng Nghymru.

Dywedodd PW ei bod yn dymuno lliniaru'r pryderon hyn oherwydd yn y cwricwlwm newydd, mae'r Pedwar Diben, y datganiadau Yr Hyn sy'n Bwysig, MDdaPh y Dyniaethau ac Iechyd a

Lles i gyd yn mynd i'r afael â moesau, gwerthoedd a moeseg. Cyfeiriodd at gynnwys y syniad o 'gynefin' sy'n golygu ymdeimlad am le a bod hwn hefyd yn cael ei ddefnyddio yn fersiwn Saesneg y cwricwlwm fel ffordd o hybu pwysigrwydd ymdeimlad disgyblion o'u lle yn y byd.

Cyfeiriodd RT at y datganiadau Yr Hyn sy'n Bwysig gan ddweud fod datganiadau 5 a 6 yn arbennig yn edrych yn benodol ar foeseg a chredoau.

## 6. Diweddariad ar y Fframwaith AG

Dywedodd PW wrth yr aelodau na fydd y fframwaith yn cael ei adnabod mwyach fel y Fframwaith Cefnogi ond yn hytrach Fframwaith AG. Bwriedir ei gyhoeddi ar ffurf drafft erbyn diwedd Ionawr 2020 i ymgynghori arno. Bydd y Fframwaith AG drafft yn cael ei gyhoeddi ar yr un pryd ag y mae'r Cwricwlwm Cymru terfynol yn cael ei gyhoeddi.

Cafwyd cwestiwn am a fydd yr ymgynghoriad presennol ar newid enw AG yn effeithio ar ysgrifennu'r Fframwaith AG. 

Cadarnhaodd PW y bydd canlyniad yr ymgynghoriad am y newid enw ynghyd â'r cymal am yr

hawl i dynnu'n ôl yn cael effaith ar y Fframwaith AG. Felly, ni ellir cwblhau rhai adrannau o'r Fframwaith ar hyn o bryd.

Rhagwelir y bydd y cyfnod ymgynghori'n dechrau cyn gynted ag y bydd y Fframwaith AG drafft yn cael ei gyhoeddi. Pwysleisiodd sawl aelod fod angen i LlC ganiatáu digon o amser i dderbyn adborth a gwneud newidiadau fel y bo'r angen cyn bod Fframwaith AG terfynol yn cael ei gyhoeddi. Tynnodd PL sylw ar yr angen i LlC sylweddoli fod angen i GYSAGau gyfarfod o fewn y cyfnod ymgynghori gan ei bod yn hanfodol cael eu hadborth nhw. Adroddodd PW fod LlC yn bwriadu anfon llythyr at y CYSAGau i ddweud hyn.

Gweithredu: Cytunwyd y byddai CCYSAGauC yn ysgrifennu at bob CYSAG i bwysleisio pwysigrwydd ymateb i'r ymgynghoriad ar y Fframwaith AG drafft wedi iddo gael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2020. Mae'n hollbwysig fod CYSAG yn cymryd y cyfle hwn i ystyried y Fframwaith AG drafft yn llawn ac yn rhoi ymateb manwl er mwyn sicrhau fod eu barn yn cael ei chlywed drwy'r ymgynghoriad a thrwy hynny'n cael ei hystyried wrth gynhyrchu fersiwn derfynol. Mae rhannu barn eich CYSAG yn y cam hwn yn hanfodol yn y broses o gynhyrchu dogfen y bydd CYSAG yn fodlon ei mabwysiadu neu ei haddasu i ffurfio eu Maes Llafur Cytûn. Mae CCYSAGauC yn argymell fod pob ALl yn galw cyfarfod CYSAG arbennig er mwyn ystyried ac ymateb i'r Fframwaith AG. Mae'n debyg y byddai'r cyfarfod hwn yn cael ei gynnal ym mis Chwefror 2020, yn dibynnu ar amserlen yr ymgynghoriad.

Esboniodd un athro gynrychiolydd mai tymor y gwanwyn yw'r amser mwyaf anodd i athrawon fod allan o ysgolion i fynychu cyfarfod CYSAG. Cytunodd EE fod cael cynrychiolaeth athrawon yn bwysig a'i fod yn cydymdeimlo â'r anawsterau o gael eich rhyddhau o'r ysgol.

Atgoffwyd yr aelodau mai nod LlC yw bod Cynadleddau'r Maes Llafur Cytûn yn cytuno i fabwysiadu neu addasu'r Fframwaith AG ac yna argymell hwn i'w ALl i'w fabwysiadu fel eu Maes Llafur Cytûn lleol.

Mewn ymateb i gwestiynau, hysbyswyd yr aelodau y bydd y Fframwaith AG yn cynnwys adran ar AG Ôl-16 er mae'n bosibl na fydd hyn yn orfodol erbyn hynny os yw'r ddeddfwriaeth yn cael ei newid. Ni fydd cynnwys yn y Fframwaith AG ond yn hytrach canllawiau i athrawon ar ddewis cynnwys ar gyfer datblygu eu cwricwlwm eu hunain. Bydd y Fframwaith AG yn cynnwys adran ar y Pedwar Diben a sut bydd AG yn cefnogi'r rhain. Mae 'Bydolygon' yn cael ei gynnwys yn y Fframwaith AG fel y mae ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau.

Dywedodd PW a LJ wrth yr aelodau eu bod wedi treulio dau ddiwrnod yr wythnos cynt yn gweithio ar 'gysyniadau' a fydd yn rhan o'r Fframwaith AG. Maent wedi ymrwymo i gynhyrchu dogfen sy'n ddefnyddiol i GYSAGau a Chynadleddau Maes Llafur Cytûn ac yn fwyaf pwysig, sy'n hygyrch a hawdd ei defnyddio i athrawon, pe bai'n cael ei mabwysiadu fel y Maes Llafur Cytûn.

Bydd angen i athrawon gynllunio'u cwricwlwm eu hunain yn seiliedig ar y Maes Llafur Cytûn.

Nodwyd, os nad yw CYSAG yn dymuno mabwysiadu'r Fframwaith AG, byddant yn rhydd i gynhyrchu eu Maes Llafur eu hunain. Fodd bynnag, wedi cael y cyfle i adrodd yn ôl ar y Fframwaith AG a chynnig unrhyw newidiadau, gobeithir y byddai pob CYSAG yn hapus i fabwysiadu neu addasu'r fersiwn derfynol o'r Fframwaith AG fel sail eu Maes Llafur Cytûn.

Holodd MP a fyddai'r Fframwaith AG wedi'i orffen erbyn y dyddiad a ragwelir, o ystyried y gwaith sydd yn dal ar ôl i'w wneud.

Eglurwyd nad oes llawer o ddyddiau ar ôl i PW a LJ weithio ar y ddogfen o dan eu trefniant caffael presennol ac nad yw hyn yn debygol o fod yn ddigon o amser i orffen y ddogfen fel y dymunent.

Dywedodd EE fod swm mawr o arian wedi'i wario'n barod ar gynhyrchu'r Fframawith AG a'i bod yn hanfodol fod LlC yn rhyddhau mwy o arian er mwyn sicrhau y gall y ddogfen gael ei chwblhau a'i golygu fel bo angen yn dilyn yr ymgynghoriad. Pwysleisiodd fod angen i'r gwaith ar y ddogfen gael ei barhau gan yr arbenigwyr AG hynny sydd eisoes wedi cymryd

rhan yn y broses o'i hysgrifennu, er mwyn sicrhau dilyniant hyd nes bod y ddogfen yn barod i gael ei chyhoeddi yn ei ffurf derfynol.

Cynigiodd RS fod CCYSAGauC yn ysgrifennu at LIC a'r Gweinidog ynghylch y pryderon a amlinellwyd, gyda chefnogaeth aelodau CCYSAauC.

Gweithredu: CCYSAGAuC i ysgrifennu at LIC a'r Gweinidog am yr angen am gyllid ychwanegol i ganiatáu caffael ymhellach yr arbenigwyr AG sydd wedi bod wrthi'n ysgrifennu'r Fframwaith AG. Y llythyr i nodi fod hyn yn hanfodol o safbwynt sicrhau dilyniant wrth gynhyrchu'r ddogfen. Mae'n hollbwysig hefyd fod gan GYSAGau hyder yn y Fframwaith AG ac os ydynt am ystyried ei fabwysiadau neu ei addasu fel eu Maes Llafur Cytûn, bydd angen eu sicrhau fod y mewnbwn gan yr arbenigwyr AG a gaffaelwyd yn gyson drwy gydol y broses, yn cynnwys golygu wedi'r ymgynghoriad.

Holodd un o'r aelodau pam nad oedd y Fframwaith AG wedi cael ei rannu hyd yma er mwyn dechrau trafodaeth. Hysbyswyd yr aelodau fod y ddogfen ym mherchnogaeth LIC ac nad ydyn nhw wedi rhoi caniatâd i'w rhannu yn y cam hwn.

## 7. Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gynigion i sicrhau mynediad i'r cwricwlwm llawn i bob dysgwr

Adroddwyd fod y Pwyllgor Gwaith wedi cwrdd i ffurfio ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Mae'r ymateb ynghlwm fel atodiad i'r cofnodion hyn.

Gwahoddodd EE ymatebion gan yr aelodau ar rai pwyntiau.

O ran hawl rhieni i dynnu eu plant yn ôl o addysg grefyddol, atgoffodd RT yr aelodau fod Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru, wedi dweud wrth CCYSAGauC fod gan bob plentyn hawl i dderbyn addysg lawn.

Drwy godi dwylo, gwelwyd fod consensws pendant yn cytuno â chael gwared ar yr hawl i dynnu'n ôl o addysg grefyddol.

O safbwynt y cynnig i newid enw addysg grefyddol, gofynnodd y Cadeirydd am 'bleidlais gwelltyn' a gafodd y canlyniad canlynol:

Dim newid enw: 7

Newid i Grefyddau a

Bydolygon: 0 Newid i Grefydd

a Bydolygon: 6

Tynnwyd sylw at y ffaith nad yw athrawon yn gyfarwydd â'r term bydolygon ac y byddai yr un mor wir yn y Gymraeg â'r Saesneg.

Awgrymodd PM ddewis arall, sef 'Crefydd' fel gyda Hanes a Daearyddiaeth er enghraifft.

Cafwyd awgrymiadau am enwau gwahanol gan aelodau eraill, megis Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg neu Grefydd ac Athroniaethau.

Awgrymodd LJ fod angen i rieni a phlant gael sicrhad am wir natur addysg grefyddol a bod enw'r pwnc yn bwysig er mwyn cyfleu hyn.

Yn ôl PW, mae ychwanegu 'au' i grefydd fel yn y cynnig 'Crefyddau a Bydolygon' yn newid natur yr enw yn sylweddol ac nid yw'n adlewyrchu'r meddylfryd presennol am natur addysg grefyddol. Cysyniad yw'r term crefydd ac mae'n cyd-fynd â'r meddylfryd y tu ôl i'r cwricwlwm newydd.
Felly, mae Crefydd a Bydolygon yn enw mwy addas.



Dywedodd RT fod un mudiad y mae'n gweithio gydag ef, yn teimlo fod gormod o bwyslais

**yn cael ei roi ar yr adroddiad CoRE i Loegr. Mae ef yn fodlon â'r term addysg grefyddol a byddai'n well ganddo ei gadw fel y mae.**

**Pwysleisiodd PW a LJ eu bod yn teimlo fod adroddiad CoRE yn berthnasol i Gymru er bod yr ymchwil wedi'i seilio yn Lloegr yn unig. Atgoffodd EE yr aelodau fod Cymru wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan o'r cychwyn ond ei bod wedi gwrthod.**

## 8. Cefnogaeth AG broffesiynol i GYSAGau

**Nodwyd fod Phil Lord bellach yn gweithio fel ymgynghorydd proffesiynol i GYSAGau Sir Ddinbych a Chonwy, wedi gostwng nifer y dyddiau mae'n gweithio i GwE.**

**Mae Consortiwm Canol y De wedi sicrhau gwasanaethau Angela Hill, fel gweithiwr Gwasanaethau AG Heddiw, i roi cymorth proffesiynol i'r pum CYSAG sydd yn y consortiwm.**

**Mae Mary Parry wedi ail-ymuno â ChYSAG Ceredigion fel aelod.**

**Soniodd LJ eto am y broblem nad yw rhai pobl sy'n cael eu symud i gefnogi CYSAGau yn cael digon o amser i ymgymryd â'r gwaith yn effeithiol. Ategwyd hyn gan PL gan ddweud er bod amser yn cael ei roi i gefnogi'r CYSAG, nid ydynt yn cael yr amser ychwanegol sy'n angenrheidiol i gefnogi ysgolion.**

**Adroddodd PW fod dal angen cyflwyno papur i Kevin Palmer i ddangos yr angen i bob ALl gael arbenigedd AG er mwyn helpu ysgolion yn effeithiol.**

## 9. Diweddaria dau:

### REMW

**Adroddodd Paul Morgan fod REMW yn cynnig ail-greu mudiad a fydda'n cael ei alw'n REW. Maent yn cynnal trafodaethau gyda gwahanol asiantaethau yng Nghymru sydd â diddordeb ym mhwnc AG ac a fyddai'n gwerthfawrogi fforwm rhwydweithio.**

### REC

**Adroddodd PW ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2019. Derbyniwyd dau fudiad newydd yn aelodau ar y bwrdd, sef Cymdeithas Athrawon AG Gatholig a Chyngor Ismaili'r DU.**
**Rhoddodd PW gyflwyniad ar y cwricwlwm newydd yng Nghymru.**
**Mae'r Cyngor yn symud ymlaen ar argymhellion y comisiwn, sydd ddim yn gofyn am newid deddfwriaethol.**
**Adroddodd ar y prosiect ymchwil arfaethedig ar yr hyn a ddelir gan y term 'Crefydd a Bydolygon'. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn chwilio am gyllid i'r prosiect ac yn gobeithio y bydd yn arwain at gynhadledd ym mis Mehefin 2020.**

### PYCAG

**Adroddodd LJ ar gyfarfod cynhyrchiol a dywedodd eu bod wedi treulio llawer o amser yn edrych ar yr ymgynghoriad presennol ar y cwricwlwm er mwyn ffurfio ymateb PYCAG. Tynnodd LJ sylw at dair eitem y byddai PYCAG yn hoffi i CCYSAGaC eu hystyried -**

- Dim ond 10 o fyfyrwyr sy'n astudio AG ar lefel Addysg Gychwynnol Athrawon yn y Drindod erbyn hyn. Hoffai PYCAG gynnig fod CCYSAGauC yn ysgrifennu at LlC i ofyn iddynt gynnig bwrsariaethau i fyfyrwyr AG er mwyn hybu recriwtio.

**Gweithredu: Cytunodd CCYSAGauC i ysgrifennu at LlC ynglŷn â hyn.**

- Mae problem diffyg cydymffurfiaeth gyda darparu AG yn CA4. Mae rhai ysgolion wedi ei chael yn anodd defnyddio'r fanyleb TGAU AG bresennol yn yr amser cyfyngedig a roddir i AG statudol. Mae tueddiad cyffredin i rai ysgolion gynnig

cymhwyster gwahanol mewn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn lle darparu AG. Mae PYCAG yn awgrymu y dylai CCYSAGauC atgoffa ysgolion am eu dyletswydd statudol i ddarparu AG ac nid yw'r cymwysterau amgen hyn yn bodloni'r ddyletswydd honno. Awgrymodd un o'r aelodau y dylai problem diffyg cydymffurfiaeth Ôl-16 gael ei gynnwys yn y llythyr hefyd. Yn dilyn trafodaeth ynghylch cynnwys Ôl-16 yn y llythyr arfaethedig, cytunwyd, gan fod ysgolion yn dal i orfod gweithio o fewn y ddeddfwriaeth bresennol, y dylent gael eu hatgoffa fod darpariaeth yn CA4 ac Ôl-16 yn statudol.

**Gweithredu: Cytunodd CCYSAGauC i ysgrifennu at Gadeiryddion CYSAGau a Chyfarwyddwyr Addysg i dynnu eu sylw at yr uchod.**

- Roedd CCYSAGauC wedi cytuno i dalu am hyfforddiant i ymgynghorwyr proffesiynol i GYSAGau a Chlercod CYSAGau. Hoffai PYCAG dderbyn y cynnig hwn a dechrau cynllunio'r rhaglen hyfforddiant. Cadarnhaodd EE y byddai hyn yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC.

## AREIAC

Adroddodd GV y bydd cynhadledd AREIAC 2020: '*Deep Dive or Shallow Swim: From Syllabus to Classroom*' yn cael ei chynnal ar 6 a 7 Gorffennaf 2020 yn y Windmill Village Hotel, Coventry ac mae gwahoddiad i aelodau CCYSAGauC fynychu.

**Yn canolbwyntio ar ddatblygu'r cwricwlwm ar lefel genedlaethol ac ysgol leol, mae'r gynhadledd yn agored i bawb sydd â diddordeb mewn cefnogi AG o safon. Bydd Diwrnod 1 yn ymdrin â datblygu Maes Llafur Cytûn a'i nod yw cefnogi ymgynghorwyr a allai fod yn gweithio gyda ChYSAGau a bydd hefyd yn werthfawr i Gadeiryddion CYSAGau a'r aelodau eu hunain. Bydd Diwrnod 2 yn adeiladu ar y thema hon, gyda sylw ar symud i ddatblygu a chynllunio cwricwlwm seiliedig ar ysgol. Trafodir hefyd ddisgwyliadau Ofsted o safbwynt mynd at wraidd AG. Bydd y diwrnod hwn yn werthfawr i bawb sy'n hyrwyddo rhagoriaeth mewn AG ac mae croeso i athrawon ac eraill sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda disgyblion.**

**Gall y cynrychiolwyr ddewis mynychu'r ddau ddiwrnod neu ddim ond un. Bydd y rhaglen yn llifo o'r dydd Llun i'r dydd Mawrth ond bydd pob diwrnod yn werthfawr ar ei ben ei hun hefyd. Mae'r siaradwyr gwadd hyd yn hyn yn cynnwys, Paul Smalley, Kathryn Wright, Trevor Cooling, Paula Webber a Rudi Lockhart.**

**Gellir cael manylion llawn ac archebu lle drwy'r wefan neu gyda Gill Vaisey, trefnydd y gynhadledd: areiac.org.uk/public/conf20 neu areiacconference@gmail.com**

## 10. Adroddiad o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 30 Medi 2019

**Rhoddodd EE adroddiad llafar o gyfarfod y Pwyllgor Gwaith gan amlinellu'n fras y pynciau a drafodwyd.**

**Materion LlC: Mae cyfarfodydd tymhorol wedi ailddechrau rhwng cynrychiolwyr CCYSAGauC a LlC gyda John Pugsley fel eu cynrychiolydd.**
**Mae LlC wedi cadarnhau, yn dilyn cyhoeddi'r cwricwlwm newydd, y byddant yn ailystyried y ddeddfwriaeth am Addoli ar y Cyd fel maes ar wahân.**
**Bydd yr holl ddeddfwriaeth a chanllawiau ar y mater hwn ar wahân i AG.**

**Dysgu Proffesiynol: Roedd PW a LJ wedi cael cyfarfod â Kevin Palmer a Pauline Smith.**
**Maent wedi cytuno ar gyllid yn benodol ar gyfer dysgu proffesiynol AG.**
**Mae ewyllys gref i ddarparu cefnogaeth o'r tu mewn i Gymru ac nid gan gyrff masnachol allanol.**

**Cyfarfodydd â Cymwysterau Cymru: Roedd LJ, PW, EE, ac RS wedi cwrdd â chynrychiolwyr o CC - Philip Baker ac Emer George. Maent yn lansio ymgynghoriad ar yr holl gymwysterau yng Nghymru.** 7

**Llawlyfr CYSAG: Mae EE wedi cynhyrchu'r ddogfen hon yn seiliedig ar Lawlyfr presennol CCYSAGauC a llawlyfr NASACRE. Wedi ei gymeradwyo, bydd yn cael ei ddylunio a'i gynhyrchu fel dogfen PDF y gellir ei diweddaru fel bo'r angen.**

**Gwefan CCYSAGauC: Mae is-grŵp o aelodau'r Pwyllgor Gwaith wrthi'n ceisio datblygu gwefan newydd i CCYSAGauC. O dan ohebiaeth sy'n gysylltiedig â'r wefan, cytunodd y Pwyllgor nad gwefan CCYSAGauC yw'r llwyfan ar gyfer rhannu adnoddau cyhoeddedig.**

**GDPR: Mae EE yn ymgynghori ag arbenigwr yn y maes hwn a bydd yn adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ar y gofynion i CCYSAGauC.**

**Twitter a'r Cyfryngau Cymdeithasol: Cytunwyd fod angen codi proffil CCYSAGauC ac y dylid gwneud gwell defnydd o'r cyfleoedd ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae GV wedi diweddaru logo CCYSAGauC ar y cyfrif Twitter.**

**Rheoli Cyfarfodydd CCYSAGauC: Er mwyn sicrhau fod pob eitem ar yr agenda yn cael ymdriniaeth yn yr amser a roddwyd i'r prif gyfarfodydd cytunwyd ar y canlynol:**

**dim ond i Gadeirydd y CYSAG neu Gyfarwyddwr yr ALI y bydd gwahoddiad i roi croeso byr iawn. Yn y dyfodol ni fyddwn yn gwahodd unrhyw eitemau gan ysgolion ayb. Fodd bynnag, os yw'r awdurdod sy'n croesawu yn dymuno cyfrannu eitem, gallant wneud hynny cyn dechrau'r cyfarfod, fel bod y cyfarfod yn dechrau ar yr amser a bennwyd.**

**bydd yr adfyfyrio tawel / munud i feddwl yn parhau ond bydd rhaid cadw'r rhain yn fyr a chryno oherwydd hyd yr eitemau sydd angen eu trafod;**

**dylai'r cwestiynau i'r siaradwyr fod yn berthnasol i AG neu Gwricwlwm Cymru yn unig;**

**bydd cywirdeb y cofnodion yn cael sylw ar ddechrau'r agenda a'r materion i'w trafod ar y diwedd; a**

**dylai Cadeirydd y cyfarfod fod mor bendant ag sydd angen wrth reoli perthnasedd a hyd y trafodaethau a'r cyfraniadau gan yr aelodau yn y cyfarfodydd.**

## 11. Y CYSAG Effeithiol

**Ni thrafodwyd.**

## 12. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghonwy ar 28 Mehefin 2019

**Cytunwyd fod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod.**

## 13. Materion yn codi

**Dim**

## 14. Gohebiaeth

**Adroddodd PW ei bod hi wedi derbyn nifer o lythyrau gan athrawon yn holi am adnoddau i'w benthyca yn lleol. Roedd hi wedi eu cyfeirio'n ôl at eu CYSAG lleol. Mae hyn eto yn dangos y broblem o beidio â chael ymgynghorydd ym mhob ALI.**

**Roedd CYSAG Ynys Môn wedi ysgrifennu i dynnu sylw at y diffyg adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg . Rhoddodd RS amlinelliad o rai o'r problemau sy'n golygu diffyg adnoddau – yn** 8

cynnwys oedi mewn cyhoeddi rhai o ddeunyddiau CBAC yn Gymraeg. Dywedodd RS nad oes unrhyw adnoddau ar Hindŵaeth, er enghraifft, er ei bod hi'n dysgu'r pwnc yn ei hysgol. Mae llyfrau'n cael eu cynhyrchu gan CBAC ond mae mwy o deitlau ar gael yn Saesneg nag yn Gymraeg. Nododd un aelod fod angen mwy o siaradwyr Cymraeg i farcio arholiadau Cytunodd RS rannu gyda'r lleill unrhyw adnoddau sydd ar gael neu wedi'u cyfieithu.
Diolchodd GH o GYSAG Ynys Môn i RS am y cynnig hwn.
Hysbysodd GV yr aelodau fod y deunydd 'Brexit Through the Lens of Ruth' y cyfeiriodd ato yn ei chyflwyniad ar gael yn Gymraeg hefyd a bydd yn ychwanegu'r ddolen at y cyflwyniad PowerPoint.

Cafwyd llythyr gan y Rhwydwaith Rhyng-ffydd yn sôn am y deunydd sydd ar gael ar eu gwefan. Dywedodd PV nad yw hwn o reidrwydd yn gysylltiedig ag AG ond gallai fod o ddiddordeb i'r aelodau.

## 15. Dangos a dweud

Dywedodd Gill Vaisey wrth yr aelodau ei bod hi'n gweithio ar hyn o bryd gydag wyth o deuluoedd i gynhyrchu cyfres o lyfrau ac adnoddau ar-lein i gefnogi AG i blant 3 - 7 oed. Mae'r gyfres 'Belonging and Believing: My Family' yn canolbwyntio ar blentyn pum mlwydd oed ym mhob teulu ac yn portreadu eu bywyd bob dydd a'r ffyrdd y mae eu credoau'n cael eu mynegi yn y cartref ac yn y gymuned. Rhoddir sylw i deuluoedd sy'n arddel Bwdhaeth, Cristnogaeth, Hindŵaeth, Sikhiaeth, Iddewiaeth, y Ffydd Bahá'i, Islam a dyneiddiaeth, ac mewn rhai achosion, traddodiadau a mynegiannau o gred llai adnabyddus. Dywedodd GV ei bod yn ddiolchgar iawn i'r teuluoedd a gymerodd rhan, y rhan fwyaf ohonynt yn byw yng Nghymru, a dywedodd iddi fod yn fraint cael ei chroesawu i mewn i fywydau'r teuluoedd. Mae hi'n gobeithio y bydd y llyfrau a'r adnoddau ar-lein ar gael yn gynnar yn nhymor yr haf.

## 16. Unrhyw fater arall

Dim

## 17. Dyddiad y cyfarfod nesaf:

17 Mawrth 2020 – Merthyr Tudful

Diolchodd EE i bawb yn y cyfarfod gan ddiolch yn arbennig i:
Ddisgyblion a staff Côr Ysgol Gynradd Aberaeron;
Dana Jones, Clerc CYSAG Ceredigion;
Gwasanaethau Cyfieithu Cyngor Sir Ceredigion; a
Cyng Catrin Miles, Aelod Cabinet, Gwasanaethau Dysgu, Dysgu Gydol Oes a Hamdden

This page is intentionally left blank

CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru
WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

*Cadeirydd /*Chairman:
The Revd Canon Edward J Evans
15 St. Andrews Road, Bridgend, CF31 1RX
e-bost/e-mail: ejevans972@btinternet.com
*ffôn/ tel* : 01656 655511 / 07968 044583

Y*sgrifennydd*/Secretary:
Ms Alice Parry
39 Galleon Way, Cardiff Bay, CF10 4JA
e-bost/e-mail: alice.parry@bridgend.gov.uk
*ffôn/tel*: 07779 168084

16 Chwefror 2019

Annwyl Glerc CYSAG,

Gan ddilyn ein proses flynyddol arferol, rwyf yn ysgrifennu i wahodd CYSAGau i gynnig enwebiadau am aelodau newydd i Bwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru. Byddwch yn ddiolchgar pe bai'ch CYSAG chi yn trafod unrhyw enwebiadau y dymunant eu cynnig yn eu cyfarfod CYSAG yn nhymor y gwanwyn. Sylwer, os yw'ch CYSAG yn cael ei gynrychioli ar y Pwyllgor Gwaith yn barod, ac eithrio'r Ysgrifennydd, yr Ysgrifennydd Cynorthwyol a'r Trysorydd, yn ôl Cyfansoddiad CCYSAGauC, ni fyddwch yn gallu enwebu rhywun o'ch CYSAG chi y tro hwn.

Fe sylwch yn y rhestr aelodau sydd ynghlwm fod 3 lle ar gael, ac un ohonynt yw sydd yr Is Gadeirydd. Mae'n hanfodol fod CCYSAGauC yn cadw aelodaeth lawn ac amrywiol er mwyn parhau â'i waith da, yn cynnwys bod yn rhanddeiliaid i'r Cwricwlwm i Gymru 2022. Gofynnwn i chi felly ystyried y cais hwn yn ofalus a gobeithio y derbyniwn rai enwebiadau.

Ynghlwm y mae ffurflen y dylid ei llenwi a'i dychwelyd i mi yn y cyfeiriad e-bost /post uchod erbyn dydd Gwener 3 Ebrill 2020. Byddaf yn anfon y rhestr enwebiadau i chi cyn dydd Gwener 15 Mai 2020, fel y gall eich CYSAG eu trafod yng nghyfarfod tymor yr haf mewn pryd ar gyfer y bleidlais yng Nghyfarfod Blynyddol y Gymdeithas ym mis Gorffennaf.

Sylwer y bydd disgwyl i'r enwebeion fod ar gael i fynychu cyfarfodydd y pwyllgor gwaith yn rheolaidd os ydynt yn llwyddiannus yn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Gorffennaf.

Hoffem ddiolch i chi a'ch aelodau am eich cymorth yn y mater hwn.

Yn gywir,

A Parry

Alice Parry

**Ysgrifennydd i Gymdeithas CYSAGau Cymru**

CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru

WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

# EXECUTIVE MEMBERS LIST 2019/2020

**Chair**- Edward Evans - Bridgend

**Vice Chair**- Rachel Samuel - Neath Port Talbot -Vacant from July 2020

**Immediate Past Chair**- n/a

**Secretary**- Alice Parry - Bridgend

**Assistant Secretary** - Libby Jones - Wrexham

**Past Secretary** – Paula Webber

**Minutes Secretary** – Gill Vaisey

**Treasurer**- John Mitson - Powys

**Chair of NAPfRE** – Libby Jones

1. Mathew Maidment- RCT (period of office- 2019-2022)
2. Andrew Jones - Cardiff (period of office 2019- 2022)
3. Marged Williams and Lucy Grant - Vale of Glamorgan (period of office 2019- 2022)
4. Tania Ap Sion- Wrexham (period of office 2017- 2020) – Vacant from July 2020
5. Alison Lewis- Swansea (period of office 2017- 2020) – Vacant from July 2020
6. Kathy Riddick- Blaenau Gwent (period of office 2018- 2021)

*Quorum is 5 members

**Majority vote will count

CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru
WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

**Enwebiadau ar gyfer Pwyllgor Gwaith CCYSAGC/**
***Nominations to WASACRE Executive Committee***

**2020**

**ENW CYSAG / SACRE NAME:**

| **Enwebiad / Nomination** | **Enw / Name** | **Cyfeiriad e-bost/ E-mail address** |
|---|---|---|
| Pwyllgor Gwaith/ Executive Committee | | |
| Is-gadeirydd / Vice Chair | | |

This page is intentionally left blank

# Ensuring access to the full curriculum

## Consultation response form


**Your name: The Revd. Canon Edward Evans**

**Organisation (if applicable): Executive Committee of WASACRE – Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education**

**e-mail/telephone number:**
**ejevans972@btinternet.com**
**01656 655511 / 07968 044583**

**Your address: 15 St Andrews Road, Bridgend, CF31 1RX**


Atebwyd erbyn **28 November 2019**

**Question 1** – What implications would there be for learners, parents/carers and schools if all learners were required to receive RE and/or RSE lessons in the new curriculum?

Please use the space below for your comments:

**Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb - ni fydd CCYSAGauC yn gwneud sylwadau ar hyn gan nad yw o fewn ein cylch gwaith.**

**ADDYSG GREFYDDOL**

**Cyfarfu CCYSAGauC ar 21 Tachwedd 2019. Trafodwyd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn fanwl. Cytunwyd fod CCYSAGAuC yn cefnogi'n llwyr farn ei Phwyllgor Gwaith, a oedd wedi cyfarfod yn flaenorol, ynghylch cynnig Llywodraeth Cymru i gael gwared ar yr hawl i dynnu plant o AG.**

**Mae CCYSAGauC yn siomedig fod y drafodaeth ar AG ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael eu trin yn yr un ymgynghoriad pan mae'r materion sy'n ymwneud â nhw yn rhai cymhleth a gwahanol. Gofynnodd CCYSAGauC, ynghyd â sawl mudiad pwysig arall a'r CYSAGau, yn ystod yr adborth i'r Papur Gwyn, am gael cynnal yr ymgynghoriadau ar AG ac ACRh ar wahân.**

**Mewn egwyddor, mae Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC yn cytuno y byddai'n ddelfrydol cael gwared ar yr hawl i dynnu'n ôl pan mae addysgu AG yn wrthrychol, beirniadol ac amlblwyfol. Mae goblygiadau sylweddol i ddysgwyr, rhieni/gofalwyr ac ysgolion pe bai hawl rhieni i dynnu eu plant o AG yn cael ei ddiddymu gyda chyflwyno'r cwricwlwm newydd. Fel dywedodd aelodau Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC, pe na fu erioed hawl i dynnu'n ôl, yna byddai'n ymddangos yn wiriondeb llwyr ei gyflwyno nawr. Ac os felly, a yw'r gyfraith yn dal i ateb y diben?**

**Mae Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC yn deall mai bwriad Llywodraeth Cymru yw cynnwys pob dysgwr mewn AG. Mae aelodau'r Pwyllgor yn cytuno â Llywodraeth Cymru fod dysgwyr yn llai tebygol o gael addysg foesegol a chyflawni'r Pedwar Diben heb AG. Byddai ysgolion yn colli llawer o gyfleoedd i alluogi dysgwyr i gyflawni'r Pedwar Diben pe bai dysgwyr yn cael eu tynnu'n ôl o'r pwnc.**

**Yn wir, byddai'n anodd iawn mewn cwricwlwm rhyngddisgyblaethol tynnu dysgwyr yn ôl o AG. Os yw'r hawl yn cael i gadw, yna byddai angen i AG fod yn weladwy. Er enghraifft, pe baech yn astudio'r Diwygiad Protestannaidd mewn hanes ac AG, o ba rannau y byddech chi'n tynnu'r dysgwyr yn ôl? Mae aelodau pwyllgor gwaith CCYSAGauC yn cytuno fod anghysondeb yn y ffaith y gallwch dynnu dysgwyr o bwnc academaidd fel AG a ddim o bwnc academaidd arall lle y gall y dysgwyr fod yn edrych ar yr un testun. Rydym yn deall hefyd y dylai dysgwyr gael mynediad i'r cwricwlwm llawn.**

**Drwy gael gwared ar hawl rhieni i dynnu eu plant yn ôl, mae'n wir nad yw hyn mwyach yn fater ysgol ond yn fater i LlC. Byddai ar ysgolion angen arweiniad ar ddelio â rhieni a gafodd yr hawl hon yn flaenorol. Gallai LlC gael ei herio yn y gyfraith hefyd os na fernir fod cyflwyno addysg mewn ysgolion yn wrthrychol, beirniadol ac amlblwyfol. Yn gyfreithiol, mae'n rhaid i AG fod yn wrthrychol, beirniadol ac amlblwyfol mewn ymarfer yn ogystal â mewn deddfwriaeth er mwyn osgoi heriau cyfreithiol. Mae angen trefn gwyno glir i rieni ei dilyn os nad yw AG dda yn cael ei dysgu.**

**Hoffai aelodau Pwyllgor Gwaith CCYSAGAuC weld gwaredu'r hawl i rieni dynnu eu plant yn ôl yn rhannol o AG gan fod yr hawl hon wedi cael ei defnyddio weithiau am resymau o ragfarn.**

**Wrth dynnu hawl rhieni, mae rhai pobl yn dadlau y byddai Llywodraeth Cymru yn tynnu cyfrifoldeb eithaf rhieni i addysgu eu plant. Byddai goblygiadau hyn yn ddifrifol i rai rhieni. Mae posibilrwydd y byddai nifer mwy o rieni yn dewis addysgu eu plant yn y cartref o ganlyniad. Gallai LlC gyfyngu ar oblygiadau hyn drwy drafodaeth gyhoeddus, canllawiau i bob rhanddeiliad, dysgu proffesiynol i bawb sydd â rhan mewn addysgu plant – Penaethiaid, Uwch Dîm Rheoli, ymarferwyr, llywodraethwyr, CYSAGau, swyddogion Awdurdodau Lleol, ayb., a chanllawiau ar bolisïau ysgol am AG. Dylai ysgolion roi eu polisi AG yn eu prosbectws ac ar eu gwefan.**

**<u>Parthed: Adran 375(3) o Ddeddf Addysg 1996</u> sy'n darparu y dylai pob maes llafur cytûn adlewyrchu'r ffaith fod traddodiadau crefyddol ym Mhrydain yn Gristnogol gan mwyaf tra'n cymryd i ystyriaeth ddysgeidiaeth ac arferion y prif draddodiadau crefyddol eraill a gynrychiolir ym Mhrydain. – Nid yw'n amlwg i aelodau'r Pwyllgor ai bwriad Llywodraeth Cymru yw cadw Adran 375 (3) o fewn y ddeddfwriaeth. Os cedwir hyn yn y gyfraith a bod AG yn aros yn 'Gristnogol gan mwyaf' sut all hi hefyd fod yn wrthrychol, beirniadol ac amlblwyfol a sut, felly allwch chi gael gwared ar yr hawl i dynnu'n ôl? Y perygl yma yw y bydd y ddeddfwriaeth yn gwrth-ddweud ei hun. Fodd bynnag, nid yw LlC wedi ymgynghori'n agored ar yr agwedd hon o'r ddeddfwriaeth er mwyn rhoi llais i'r cyhoedd ar a ddylid cadw neu dynnu Adran 375(3). Ar ben hynny, mae angen gwneud y ddeddfwriaeth yn addas i'r dyfodol. Ar hyn o bryd mae'r TGAU yn 50% Cristnogol er enghraifft, ond, pe bai'r ffigyrau'n parhau i fynd i lawr, yna gall y datganiad 'yn Gristnogol gan mwyaf' beidio â bod yn gywir mwyach. Dylid ystyried hefyd yr iaith sydd o amgylch y term 'y prif draddodiadau crefyddol a gynrychiolir ym Mhrydain' – a fydd hyn yn dal i fod yn briodol i'r cwricwlwm newydd? Beth a olygwn gan amlblwyfol yn y cwricwlwm newydd? Gall cwestiynau fel Pa grefyddau ddylai gael eu hastudio gael eu tybio a'u casglu. Mae aelodau Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC yn awgrymu nad yw'r iaith hon yn gynhwysol ac na fyddai'n arwain at AG wrthrychol, feirniadol ac amlblwyfol. Os felly mae gan hyn oblygiadau ar gael gwared ar hawl rhieni i dynnu eu plant yn ôl o AG.**

**Mae angen cael sgwrs ystyrlon gyda rhieni i lansio'r hawl hwn i dynnu'n ôl ac i gynnal y ddealltwriaeth flwyddyn ar ôl blwyddyn. Dylai fod hyfforddiant i benaethiaid i'w galluogi i ddelio â hyn. Dylai CYSAGau fod yn gallu cynghori ar hyn a dylent ymgysylltu â'u cymunedau. Yr unig ffordd y gallai hyn ddigwydd yw trwy gael ymgynghorwyr proffesiynol i GYSAGau o fewn awdurdodau lleol.**

**Mae'r problemau o ran hawl rhieni i dynnu plant o AG yn wahanol iawn mewn ysgolion Ffydd i'r rhai mewn ysgolion cymunedol. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd**

**tynnu'r hawl i dynnu'n ôl yn llwyr. Dylai'r cwricwlwm newydd fod yn gynhwysol a dylai meysydd llafur ysgolion Ffydd roi 'sylw dyledus' i Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Fodd bynnag, bydd AG yn dal i gael ei dysgu mewn ffordd enwadol. Gan fod llawer o ysgolion Ffydd yn cael eu cyllido gan y wladwriaeth ac felly, y trethdalwr sy'n talu amdanynt, mae gan unrhyw un hawl i anfon eu plentyn yno p'un ai eu bod yn dilyn y ffydd arbennig honno ai peidio. Felly, mae llawer o blant yn eu cael eu hunain mewn ysgolion Ffydd am nifer o resymau, e.e. dyma'r ysgol agosaf yn ddaearyddol, am resymau cymdeithasol, ayb. Mae'n iawn, felly, fod rhieni'r plant hyn yn cadw'r hawl i dynnu eu plant yn ôl o AG enwadol, AG nad yw'n wrthrychol, beirniadol ac amlblwyfol, yn eu barn nhw. Dylai fod cydraddoldeb o dan y gyfraith i grefyddau ac i ddysgwyr y dylid ystyried eu barn bersonol beth bynnag fo'u crefydd neu gred.**
**Os yw'r hawl i dynnu'n ôl yn cael ei diddymu, bydd adwaith gan bobl oherwydd camddealltwriaeth yn y gymdeithas ynglŷn â beth yw AG. Gallai hyn gael goblygiadau i deuluoedd, e.e. nifer o deuluoedd Tystion Jehofa.**

**20. Goblygiad – Mae gan Gymru gwricwlwm cenedlaethol gorfodol a maes llafur y cytunwyd arno'n lleol. Mae Llywodraeth Cymru wedi mynd i'r afael â'r tyniant posibl hwn yn y Papur Gwyn drwy gynnig fod Cynadleddau Maes Llafur Cytûn yn rhoi sylw dyledus i Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Fodd bynnag, pe bai CYSAG yn penderfynu peidio â mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith AG fel y Maes Llafur Cytûn, a fyddai modd cael gwared ar yr hawl i dynnu'n ôl? Sut byddai LIC yn sicrhau fod rhieni'n gwybod sut byddai'r Cwricwlwm AG yn edrych o dan yr amgylchiadau hynny? Mae'r Pwyllgor Gwaith yn awgrymu y byddai'n bwysicach cael gwared ar gymal Adran 365(3) er mwyn sicrhau fod Meysydd Llafur Cytûn yn wrthrychol, beirniadol ac amlblwyfol. Dyma reswm ychwanegol pam fod angen cefnogaeth ymgynghorol broffesiynol i Feysydd Llafur Cytûn, ac er mwyn bod yn atebol, ni ddylai'r gefnogaeth hon gael ei phrynu i mewn gan gwmnïau/cyrff allanol gan ALlau neu gonsortia rhanbarthol. Mae Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC yn llwyr gefnogi pennu AG yn lleol. Mae hyn yn unol ag egwyddorion sybsidiaredd. Mae CYSAGau lleol yn cymryd eu rôl a'u cyfrifoldebau o ddifrif. Oni bo AG yn cael ei werthfawrogi a'i gefnogi gan ALlau a'r Consortia, yna mae egwyddor sybsidiaredd ei hun yn rhwystr i gael gwared ar yr hawl i dynnu'n ôl.**

**Ar hyn o bryd mae'r hawl i dynnu'n ôl hefyd yn cynnwys hawl yr athro i dynnu'n ôl o ddysgu AG. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi mynd i'r afael â hyn yn yr ymgynghoriad er bod CCYSAGauC a chyrff eraill wedi tynnu sylw at hyn yn eu hymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn. A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgynghori ar y mater hwn? A yw LIC yn bwriadu tynnu'r hawl hwn oddi wrth athrawon? Mae hyn yn bwysig iawn yn y cwricwlwm newydd gan ei bod yn bosibl iawn y bydd AG yn cael ei dysgu gan fwy o athrawon heb fod yn arbenigwyr mewn Cwricwlwm Dyniaethau. Gall rhai athrawon deimlo fod dysgu AG yn gwrthdaro â'u ffydd, cred neu fydolwg personol. Ac, os cedwir y ddeddfwriaeth hon, yna gallai fod yn fwy anodd cael gwared ar hawl rheini i dynnu eu plant yn ôl.**

**Question 2** – What support, information and guidance would be needed if this approach was adopted?

Please use the space below for your comments:

**Mae aelodau Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC yn teimlo y dylid ei gwneud yn hollol glir fod y cynnig i gael gwared ar hawl rhieni i dynnu eu plant yn ôl yn ymwneud ag AG ac nid o Addoli ar y Cyd.**

**Mae camddealltwriaeth ymhlith y cyhoedd ac mewn rhai ysgolion ynghylch natur AG ac mae angen sgwrs gyhoeddus fel bod rhieni'n gwybod mwy am pam y tynnwyd yr hawl hwn i ffwrdd ac am natur AG yn y cwricwlwm newydd. Mae'n bosibl iawn y bydd gwrthwynebiadau fod dysgwyr yn gorfod cymryd rhan mewn rhai gweithgareddau,**

**e.e. mae rhai rhieni'n poeni am eu plant yn cymryd rhan mewn myfyrdod, neu ioga, neu brosiectau Celfyddydau Mynegiannol sydd â thema grefyddol. Mae angen mynediad at ganllawiau, dysgu proffesiynol a chymorth ymgynghorol fel y gall penaethiaid reoli sefyllfaoedd fel hyn yn y ffordd orau p'un ai bod yr hawl i dynnu'n ôl yn cael ei gadw neu ei dynnu.**

**Os penderfynir cael gwared ar yr hawl i dynnu'n ôl i bob dysgwr o fis Medi 2022 mae angen arweiniad i ysgolion a phenaethiaid ar y ffordd orau o reoli ail-integreiddio disgyblion sydd ar hyn o bryd yn cael eu tynnu'n ôl. Pa ddull bynnag a gymerir, bydd angen cymorth i benaethiaid o ran canllawiau ymarferol gan LlC ar gyfer delio â'r trawsnewid. Yn ychwanegol, mae'n bosibl y bydd gan rieni yn y dyfodol bryderon am AG neu am yr hyn mae eu plant yn cael ei ddysgu mewn AG. Mae rhannu gwybodaeth gyda rhieni am yr hyn sy'n cael ei ddysgu yn hanfodol, yn enwedig gan fod y cwricwlwm hwn yn seiliedig ar egwyddor sybsidiaredd. Mae rheswm arall pam fod arweiniad a chyngor yn hanfodol. Gall fod angen cryfhau rôl y CYSAG lleol. Mae'r diffyg gwasanaethau cynghori i AG a ChYSAGau yn broblem o ystyried y sensitifrwydd y mae'n rhaid i'r pwnc ddelio ag ef a'r angen pendant am Ddysgu Proffesiynol da ar gyfer AG. Os na fydd hawl i dynnu'n ôl, mae'n rhaid i LlC gael ei gweld yn gwneud popeth o fewn ei gallu i osgoi ymgyfreithiad ac mae angen amddiffyn ymarferwyr drwy roi hyfforddiant arbenigol pwnc benodol iddyn nhw fel eu bod yn hyderus i gyflwyno AG wrthrychol, feirniadol ac amlblwyfol. Ni ddylai ymarferwyr fod yn byw mewn ofn gwneud camgymeriadau wrth gyflwyno'r pwnc.**

**Question 3** – Our proposal is that parents/carers should not be able to prevent their child from having RE or RSE lessons. This will be rolled out from September 2022, for all primary age learners and learners in Year 7 in secondary school (with additional year groups being added each year).

Should the ability of parents/carers to prevent their child from receiving RE and RSE lessons also be stopped under the old curriculum from September 2022? (This would only have implications for learners in Years 8–11 in 2022, Years 9–11 in 2023, and so on.)

| Yes | ✓ | No | ☐ | Not sure | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

Why do you think that?

**Os yw Llywodraeth Cymru'n dadlau fod peidio â chaniatáu mynediad llawn i bob dysgwr i gwricwlwm eang a chytbwys yn fater cydraddoldeb, yna mae'n ymddangos yn rhesymegol y dylai pob dysgwr gael cydraddoldeb yr un pryd. Yn gyfreithiol, dylai'r cwricwlwm AG presennol hefyd fod yn wrthrychol, beirniadol ac amlblwyfol. Mae'n gwneud synnwyr felly y dylai cydraddoldeb fod yn weithredol o fewn y cwricwlwm presennol a'r un newydd. Gallai cael gwared yn raddol ar yr hawl i dynnu'n ôl danseilio'r meddylfryd y tu ôl i'r newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth gan y byddai hyn yn gwahaniaethu yn erbyn dysgwyr ym mlynyddoedd 8-11 na fyddai'n cael mynediad at y cwricwlwm llawn.**

**Ar y llaw arall, byddai cael gwared yn raddol yn ei gwneud yn llai heriol i benaethiaid. Ni fyddai angen iddyn nhw gael y sgwrs hon, a'r gwrthdaro posibl, gyda rhieni'r plant hynny sydd ar hyn o bryd yn cael eu tynnu'n ôl o AG am ail-integreiddio. Pa bynnag lwybr y mae LlC yn dymuno'i gymryd, mae angen cynllun gweithredu eglur wrth roi'r cwricwlwm newydd ar waith a thu hwnt. I rieni, mae angen trafodaeth gydag ysgolion, gweithdrefnau cwyno, ayb. Mae angen cael dogfen/polisi yn barod a hyfforddiant ymlaen llaw yn gosod allan canllawiau clir. Mae angen hefyd cael disgrifiad clir o'r hyn sy'n cael ei ddysgu a pham mae'n cael ei ddysgu fel ei bod yn amlwg nad oes angen tynnu'n ôl o AG. Mae'n bosibl y gallai ymgynghorwyr CYSAG, CCYSAGauC a PYCAG helpu Llywodraeth Cymru i baratoi'r canllawiau angenrheidiol.**

**Question 4** – What is an appropriate name for 'religious education', to accurately reflect the broader scope proposed in for the new curriculum?

| No change | ☐ | Religion, values and ethics | ☐ | Religions and worldviews | ☐ | Other (please specify) | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Other (please specify): **RELIGION AND WORLDVIEWS**

Reasons for your choice:

**Mae Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC yn cytuno, os yw Addysg Grefyddol yn newid ei enw, yna dylai fod yn CREFYDD A BYDOLYGON fel yr amlinellwyd yn Adroddiad Terfynol y Comisiwn ar Addysg Grefyddol yn Lloegr, lle mae'r enw'n ymddangos gyntaf. Bu comisiynwyr y ddogfen hon, yn ysgolheigion blaenllaw ac arbenigwyr ym maes Addysg Grefyddol, ym meddwl yn hir ac yn galed cyn argymell yr enw hwn. Mae CCYSAGauC yn gwerthfawrogi'n llwyr y bwriadau da y tu ôl i gynnig LlC i newid enw'r pwnc. Serch hynny, mae gan aelodau Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC bryderon mawr am yr enw y mae LlC yn ei ffafrio. Mae ychwanegu 'au' yn newid natur yr enw yn sylweddol ac nid yw'n adlewyrchu natur y pwnc yn foddhaol, yn enwedig fel y'i bwriadwyd o fewn y cwricwlwm newydd. Mae'r term Crefyddau yn awgrymu cynnwys a byddai'n arwain at y cwestiwn: Pa grefyddau ddylem ni eu hastudio? Mae potensial i fod yn rhanedig yma felly. Nid yw chwaith yn unol â dull gwrthrychol, beirniadol ac amlblwyfol o gyflwyno AG.**

**Mae'r term Crefydd yn gysyniad lefel uchel, trosfwaol a byddai'n cyd-fynd yn well â'r Cwricwlwm i Gymru 2022 sy'n cael ei yrru gan gysyniadau. Mae angen i ddysgwyr ddeall categori cysyniadol 'crefydd' yn ogystal â chysyniadau eraill fel 'seciwlaredd', 'seciwlariaeth' ac 'ysbrydolrwydd'. Bydd deall tarddiadau a defnyddiau'r cysyniad 'crefydd' yn help i oleuo trafodaethau yn yr astudiaeth o grefydd. Bydd yn galluogi'r dysgwyr i adeiladu dealltwriaeth gymesur o grefydd fel grym sy'n ffurfio cymdeithas. Mae AG yn faes astudiaeth amlddisgyblaethol ac mae'n hanfodol fod yr enw newydd yn adlewyrchu hyn. Yn ein barn ni, dim ond yr enw Crefydd a Bydolygon sy'n gwneud hyn. Mae'n parhau i ganiatáu astudiaeth o gysyniad am grefydd fel y mae'n cael ei archwilio ar hyn o bryd yn athroniaeth crefydd, cymdeithaseg crefydd, crefydd a moeseg, seicoleg crefydd, crefydd a gwleidyddiaeth, crefydd a'r wladwriaeth, ac yn y blaen.**

**Mae'n bwysig cynnwys y term Bydolwg yn yr enw gan mai bydolwg yw ffordd rhywun o ddeall, profi ac ymgysylltu â'r byd. Mae hyn yn cynnwys sut mae rhywun yn deall natur realiti a'u lle nhw eu hunain yn y byd. Mae bydolwg rhywun yn debyg o ddylanwadu a chael ei ddylanwadu gan eu credoau, gwerthoedd, ymddygiadau, profiadau, hunaniaethau ac ymrwymiadau. Wrth archwilio bydolygon byddai dysgwyr yn archwilio eu bydolygon eu hunain ac eraill yn ogystal â'r bydolygon sefydliadol ar rennir gan grwpiau, mudiadau neu sefydliadau. Mae'r rhain yn cynnwys bydolygon crefyddol ac anghrefyddol. Mae iaith bydolygon yn ein helpu i symud i ffwrdd o wahaniad rhwng y crefyddol a'r digrefydd. Mae'n cydnabod fod bydolygon anghrefyddol yn tynnu ar etifeddiaeth rhai crefyddol, ac fel arall. Bydd deall bydolygon fel hyn yn galluogi dysgwyr i ymgysylltu â'r gymdeithas amlblwyfol yr ydym yn byw ynddi a'i gwerthfawrogi. Mae CCYSAGauC yn awgrymu mai'r enw CREFYDD A BYDOLYGON sy'n disgrifio orau natur AG yn y cwricwlwm newydd.**

**Barn Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC yw bod yr enw Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a awgrymwyd yn anfoddhaol, gan nad yw'n caniatáu ar gyfer astudio bydolygon personol a sefydliadol. Ar ben hynny, mae gwerthoedd a moeseg yn gyfrifoldeb ar bob pwnc a phob ymarferydd i alluogi dysgwyr i weithio tuag at y Pedwar Diben. Nid cyfrifoldeb yr athro AG yn unig yw datblygu gwerthoedd a moeseg.**

23. Un gair ac nid dau yw Bydolygon, neu air â chysylltnod fel mae'n ymddangos weithiau yn y ddogfen ymgynghori. Mae'n hollbwysig fod hyn yn gyson yn holl ddogfennau LIC yn cynnwys Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau lle mae'n ymddangos fel dau air.

Mae'r cyfieithiad Cymraeg 'Crefyddau a Bydolygon' yn codi problemau gan nad yw'r ystyr yn adlewyrchu ystyr 'Worldviews' yn Saesneg. Mae'n awgrymu golygfa naturiol yn fwy na barn a safbwyntiau fel y bwriedir yn y defnydd Saesneg o'r term Worldviews. Hefyd, nid yw'r term 'bydolygon' erioed wedi cael ei ddefnyddio mewn Addysg Grefyddol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Enw mwy addas fyddai 'Crefydd a safbwyntiau byd eang' a fyddai'n adlewyrchu dealltwriaeth o'r enw Saesneg yn well.

Cyfarfu CCYSAGauC ar 21 Tachwedd 2019 lle trafodwyd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn faith. Roedd barn y cynrychiolwyr CYSAG oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn rhanedig. Roedd hanner yn ffafrio cadw'r enw presennol Addysg Grefyddol a byddai hanner yn hoffi gweld newid yr enw i CREFYDD A BYDOLYGON. Cynigiwyd enwau eraill i'r pwnc ond ni chawsant gymaint o gefnogaeth. Hoffai cyfarfod y Gymdeithas dynnu sylw at yr anawsterau wrth gyfieithu'r term Worldviews i'r Gymraeg fel y nodwyd uchod. Hoffent hefyd dynnu sylw at yr anhawster mewn cyfieithu terminoleg arall sy'n benodol i'r pwnc ynghyd â geiriau sy'n effeithio ar natur AG yn cynnwys y term 'amlblwyfol'. Awgrymwyd y dylai arbenigwr AG Cymraeg ei iaith gymryd rhan mewn golygu Fframawith AG a MDaPh y Dyniaethau.

**Question 5** – We would like to know your views on the effects that not including a right to withdraw in the new curriculum would have on the Welsh language, specifically on:

i) opportunities for people to use Welsh
ii) treating the Welsh language no less favourably than the English language.

What effects do you think there would be? How could positive effects be increased, or negative effects be mitigated?

**Supporting comments**

Ni ddylai fod unrhyw effeithiau negyddol ar yr Iaith Gymraeg pe bai'r cynnig hwn yn cael ei weithredu.

**Question 6** – Please also explain how you believe the proposed plan could be formulated or changed so as to have:

i) positive effects or increased positive effects on opportunities for people to use the Welsh language and on treating the Welsh language no less favourably than the English language
ii) no adverse effects on opportunities for people to use the Welsh language and on treating the Welsh language no less favourably than the English language.

**Supporting comments**

Ceir llawer o gyfleoedd cadarnhaol i ddatblygu'r Iaith Gymraeg mewn Addysg Grefyddol.

Dylid cael cydraddoldeb i AG a Chymraeg fel pynciau statudol ar y cwricwlwm. Cadarnhawyd hyn yn ystod y cyfarfodydd Cynllunio'r Dyniaethau a gynhaliwyd rhwng Llywodraeth Cymru a CCYSAGauC yn ystod y broses datblygu'r cwricwlwm. Sut bydd

**LIC yn sicrhau cydraddoldeb? Yn yr un ffordd na ddylai'r cynigion newydd gael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg, ni ddylent chwaith gael effaith negyddol ar AG.**

**Question 7** – We have asked a number of specific questions. If you have any related issues which we have not specifically addressed, please use this space to report them.

**Mae aelodau Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i GYSAGau ac AG yn ystod y cyfnod cynllunio'r cwricwlwm. Mae CCYSAGauC yn cydnabod fod llawer iawn o gydweithio wedi digwydd ac yn gwerthfawrogi'r cyfle a gafodd i gymryd rhan yn yr ymgynghoriadau niferus a gynhaliwyd.**

**Mae'r Pwyllgor Gwaith yn cytuno gyda'r Gweinidog y dylai pob dysgwr gael cwricwlwm eang a chytbwys. Hoffem dynnu sylw at y ffaith fod rhagair y Gweinidog yn cyfeirio ar 'fframwaith' ac nid 'fframweithiau' i AG ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Yn ein tyb ni, mae'n ddryslyd cyfeirio at un fframwaith ar gyfer y ddau bwnc.**

**Dymunwn wneud y pwyntiau ychwanegol canlynol mewn cysylltiad â'r cynnig:**

**19. Rydym yn cytuno fod gan AG le canolog mewn gwireddu'r Pedwar Diben ac yn awgrymu fod angen addysgu proffesiynol er mwyn sicrhau fod AG o ansawdd uchel yn cael ei chynnwys yn y Cwricwlwm. Awgrymwn y bydd angen cymorth ar ysgolion i archwilio sut mae AG yn cymryd ei lle yn y cwricwlwm Dyniaethau, gan ei bod yn eistedd y tu allan i'r cwricwlwm ar hyn o bryd. Os yw pob dysgwr yn mynd i gyflawni'r Pedwar Diben mae hyn yn hanfodol, gan ei fod yn wasanaeth cynghorol arbenigol.**

**Awgrymwn fod Llywodraeth Cymru yn ehangu a chryfhau rôl CYSAG gan mai swyddogaeth CYSAG yw cynghori'r ALl a'i ysgolion wrth ddelio â chwynion a'r trefniadau ynghlwm â nhw. Mae Pwyllgor Gwaith CCYSAGuC yn daer eisiau tynnu sylw mai dyma rôl CYSAG ac os yw Estyn a'r consortia rhanbarthol i gael rôl yn y dyfodol, yna mae angen cael trafodaeth a chytundeb am weledigaeth gyffredin o sut bydd hyn yn edrych mewn ymarfer er mwyn osgoi dryswch.**

**22. Mae'n bwysig fod geiriad y frawddeg hon yn stopio ar ôl 'mae AG yn ystyried bydolygon anghrefyddol'. Yn sicr ni ddylai ddatgan 'sy'n ddigon tebyg i grefyddau (er enghraifft, dyneiddiaeth)' gan y gallai hyn awgrymu i ymarferwyr eu bod yn cael eu gwahardd rhag archwilio a thrafod cysyniadau fel seciwlariaeth ac anffyddiaeth, ayb. Mewn cymdeithas amrywiol mae'n hollbwysig fod pob cred/bydolwg yn agored i'w trafod. Mae hyn yn ailadrodd yr un pwynt a wnaethom mewn ymateb i'r Papur Gwyn. Byddai aelodau Pwyllgor Gwaith CCYASGau yn hapus i drafod hyn gyda LlC.**

**23. Un gair yw Bydolygon ac nid dau, neu air â chysylltnod fel sy'n digwydd weithiau yn y ddogfen ymgynghori. Mae'n hollbwysig fod hyn yn gyson ym mhob un o ddogfennau LlC yn cynnwys MDaPh y Dyniaethau lle mae'n ymddangos fel dau air.**

**31 - Mae Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC yn cytuno y byddai cael gwared ar hawl rhieni i dynnu eu plant yn ôl o AG yn cefnogi'r agwedd ryngddisgyblaethol yn y cwricwlwm newydd.**

**Cynigion**

**33.Sut bydd ymarferwyr yn sicrhau priodoldeb datblygiadol? Mae angen gwasanaeth cynghori ar y pwnc a Dysgu Proffesiynol i gefnogi athrawon ac ymarferwyr. Er enghraifft, ar hyn o bryd mae rhywfaint o gynnwys TGAU AG yn cael ei ddysgu ym mlynyddoedd 8 a 9 ac mae weithiau'n amhriodol. Mae hyn yn digwydd oherwydd bod mesurau perfformiad yn annog ysgolion i ddysgu cyrsiau yn gynt ac yn gynt. Nid yw hyn yn addas yn ddatblygiadol o gwbl a dylid ei osgoi ar bob cyfrif yn y cwricwlwm newydd. Dylai iechyd a lles dysgwyr gael blaenoriaeth dros fesurau perfformiad neu unrhyw reswm arall pam mae'r addysgu datblygiadol amhriodol hyn yn digwydd. Gallai gwasanaeth cynghori sy'n gysylltiedig â CHYSAGau a'r consortia rhanbarthol sicrhau hyn.**

**38. Gan fod yr hawl i dynnu'n ôl yn fater llywodraeth, byddai unrhyw ganllawiau a Dysgu Proffesiynol a gefnogir gan LIC yn cynnig cysondeb, difrifoldeb a chymorth i benaethiaid. Dylai rôl CYSAGau gael ei chryfhau i helpu LIC i fonitro AG.**

**39. Mae CCYSAGauC yn cytuno ag awgrymiadau LIC ar y pwynt hwn. Sut ydym ni'n mynd i sicrhau darpariaeth AG o safon uchel sydd yn briodol i ddatblygiad? Mae AG yn cael ei phennu'n lleol a dylai rôl CYSAGau gael ei chryfhau i gyflawni Dysgu Proffesiynol effeithiol.**

**40. Cytunwn nad yw'r hawl i dynnu'n ôl yn fecanwaith priodol i ddelio ag AG o safon isel a bod dulliau mwy addas i sicrhau hyn. Cytunwn y byddai angen Dysgu Proffesiynol. Fodd bynnag, mae yna fwlch mewn arbenigedd o fewn y consortia rhanbarthol ac anghysondeb mewn diwylliant rhwng consortia. Mae rhai consortia yn gefnogol iawn i AG ac yn gwneud newidiadau i ffyrdd o weithio i sicrhau fod yr ysgolion yn eu rhanbarth yn gallu cyrchu cefnogaeth ymgynghorol drwy'r consortia ac nid drwy'r ALI yn unig. Serch hynny, mae rhai o'r consortia yn meddwl fod y cyfrifoldeb dros AG yn gorwedd yn llwyr gyda'r Awdurdod Lleol. Barn Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC yw y dylai'r rhanddeiliaid i gyd weithio gyda'i gilydd i sicrhau fod AG o ansawdd uchel yn digwydd mewn ysgolion drwy Gymru. Fodd bynnag, os bydd rhan gan y consortia i chwarae yn y dyfodol, yna ni ddylid tanseilio rôl CYSAGau. Mae angen datblygu proses gyson yn genedlaethol lle gall ALlau, CYSAGau a'r consortia weithio gyda'i gilydd. Ar hyn o bryd nid yw rhai consortia yn cyfathrebu â CHYSAGau na'n gofyn am gyngor CCYSAGauC e.e. gofyn am gyngor ynglŷn â phenodi cymorth ymgynghorol proffesiynol i GYSAGau. Yn bryderus iawn, mae Cymru wedi gweld dirywiad cyflym mewn arbenigedd ymgynghorol AG yn y blynyddoedd diwethaf oherwydd y diffyg cyfathrebu hwn.**

**41. Par "byddai'r sylw ar addysgu a dysgu sy'n ddatblygiadol addas a diwylliannol sensitif; a'r pwyslais ar ymgysylltu â chymunedau a chydnabod ac ymateb i gefndir dysgwyr wrth drafod y pynciau hyn, yn darparu mesurau diogelwch priodol i rieni." Mae aelodau Pwyllgor Gwaith CCYSAGAuC yn credu fod gan AG dda y potensial i annog cydlyniant cymunedol. Er mwyn i'r addysgu diwylliannol sensitif ayb, ddigwydd yna mae angen i ymarferwyr, Uwch Dimau Rheoli, ysgolion, llywodraethwyr, CYSAGau, ymgynghorwyr consortia ayb fod yn hyderus yn beth a sut sydd i'w gyflwyno fel nad yw hyn o bosibl yn tanseilio cydlyniant cymunedol. Bydd angen hyfforddiant i bawb yn awr ac yn barhaus yn y dyfodol i sicrhau hyn.**

**42. Mae aelodau Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC yn cytuno â'r pwyntiau sydd yma i gyd.**

**43. Bydd rhieni'n pryderu fod plant yn cael eu gwarchod ac mae angen diogelu plant rhag AG nad yw'n cael ei dysgu mewn ffordd wrthrychol, feirniadol ac amlblwyfol.**

**Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig newid y ffordd yr ydym yn rhyngweithio am y pwnc hwn. Felly, bydd ar LIC angen gweithdrefn i'w dilyn i ddelio â'r newidiadau hyn a pheidio â gadael i benaethiaid ddelio â hyn ar eu pennau eu hunain.**

**Mae CCYSAGauC yn fodlon cefnogi Llywodraeth Cymru i ystyried goblygiadau cael gwared ar yr hawl i dynnu'n ôl. Mae CYSAGau a CCYSAGauC mewn sefyllfa i'ch helpu gyda hyn. Gallai CYSAGau fod yn rhan o'r ateb i'r goblygiadau y gellir eu hwynebu drwy'r newid hwn i'r ddeddfwriaeth.**

This page is intentionally left blank

CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru
WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

*Cadeirydd* /Chairman:
The Revd Canon Edward J Evans
15 St. Andrews Road,
Bridgend,
CF31 1RX
e-bost/e-mail: ejevans972@btinternet.com
*ffôn/ tel* : 01656 655511 / 07968 044583

Y*sgrifennydd*/Secretary:
Paula Webber
EAS Offices
Tredomen Gateway
Tredomen Park
Ystrad Mynach
Hengoed
CF82 7EH
e-bost/e-mail: WASACRE@sewaleseas.org.uk
*ffôn/ tel: 07904 644728*

23 Ionawr 2020

Annwyl Gyfarwyddwyr Addysg,

Yng nghyfarfod diweddar Cymdeithas CYSAGau Cymru, cafodd yr aelodau adborth gan y Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG) a chawsant wybod bod mwy a mwy o ysgolion yng Nghymru yn chwilio am ddulliau gwahanol i gwrdd â'u darpariaeth statudol ar gyfer Addysg Grefyddol (AG) yng Nghyfnod Allweddol 4.

Ar hyn o bryd yng Nghymru dim ond un fanyleb sydd ar gyfer TGAU Astudiaethau Crefyddol. Mae hyn wedi'i gwneud yn fwy anodd i ysgolion gynnig cymhwyster i'r dysgwyr sy'n dewis Astudiaethau Crefyddol fel opsiwn a'r dysgwyr AG statudol, sydd hefyd yn cynnig gwerth i ysgolion, o safbwynt cyrraedd targedau perfformiad. O ganlyniad mae PYCAG yn gweld tuedd cynyddol i ysgolion wneud i ffwrdd â'r cymhwyster cwrs byr Addysg Grefyddol (ac mewn rhai achosion y cymhwyster cwrs llawn) a'i newid am gwrs 'haws', unedol, seiliedig ar sgiliau, gan yr NCFE mewn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (neu debyg), sy'n dod â nifer uwch o bwyntiau perfformiad i ysgolion (cynifer â dau TGAU Lefel 2 cyfatebol fe gredwn). Fodd bynnag, gwyddom hefyd gan ein cydweithwyr yn PYCAG mai dim ond trosolwg arwynebol o rai agweddau o'r maes llafur cytûn y mae'r cyrsiau hyn yn eu cynnig. Byddai angen cryn dipyn o gynllunio ac ychwanegu cynnwys sylweddol gan arbenigwr AG yn yr ysgol i sicrhau fod gofynion y maes llafur cytûn yn cael eu bodloni'n llawn.

Mae CCYSAGauC yn hynod o bryderus am hyn ac yn ei gyfarfod diwethaf, a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2019, cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at bob awdurdod lleol yng Nghymru yn gofyn iddynt atgoffa pob ysgol yn eu hawdurdod am eu cyfrifoldeb cyfreithiol tuag at ddysgu AG.


Felly, fe'ch atgoffir gyda dyledus barch ei bod yn ofynnol cyfreithiol fod pob dysgwr sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol yn eich awdurdod lleol yn cael dysgu AG yn ôl y maes llafur y cytunwyd arno'n lleol, oni bo disgybl wedi cael ei dynnu'n ôl o AG yn ffurfiol ar gais rhiant neu warcheidwad. Byddai CCYSAGauC a PYCAG yn gwerthfawrogi pe bai'r neges hon yn cael ei hatgyfnerthu yn ysgolion eich awdurdod. Y maes llafur cytûn ar hyn o bryd i'ch awdurdod lleol yw'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (2008). Mae tudalennau 28 i 30 o'r fframwaith yn gosod allan beth ddylai gael ei astudio yng Nghyfnod Allweddol 4. Mae'r fframwaith yn datgan y

dylai pob dysgwr gael mynediad teg at gymwysterau sy’n seiliedig ar y dysgu a amlinellir yn y fframwaith. Nid yw’r cymhwyster Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn asesu’n ddigonol y dysgu a bennwyd yn y fframwaith ar gyfer AG ac felly, ni ellir ei ystyried yn gymhwyster sy’n asesu’r hyn mae disgyblion wedi’i ddysgu mewn AG.

O ganlyniad, os oes unrhyw ysgol yn eich awdurdod lleol yn dewis gadael AG Cyfnod Allweddol 4 o blaid addysgu’r cymhwyster hwn ar ei ben ei hun (neu un tebyg), byddai’n golygu na fyddai’r ysgol yn cyflawni ei rhwymedigaeth gyfreithiol i ddarparu AG i bob dysgwr cofrestredig (ac eithrio’r rhai sy’n cael eu tynnu’n ôl) yn ôl y maes llafur AG y cytunwyd arno. Mae CCYSAGauC a PYCAG felly yn gobeithio, cyn i benderfyniad o’r fath gael ei wneud, y bydd y rheiny sy’n gyfrifol am gynllunio’r cwricwlwm yn yr ysgolion yn eich awdurdod lleol yn ystyried goblygiadau penderfyniad o’r fath. Pe bai unrhyw ysgol yn dymuno dysgu cwrs Cydraddoldeb ac Amrywiaeth NCFE (neu debyg), dylai gael ei gynnig yn ychwanegol at AG Cyfnod Allweddol 4.

Gobeithiaf y bydd y llythyr hwn yn cael ei dderbyn yn yr ysbryd cefnogol yr ysgrifennwyd ef. Byddai fy nghydweithwyr a minnau yn CCYSAGauC a PYCAG yn hapus i drafod cynnwys y llythyr hwn gyda chi yn bersonol, ac yn wir byddem yn croesawu’r cyfle i wneud hynny.

Yn gywir,



Parchedig Ganon Edward J Evans
**Cadeirydd CCYSAGauC**

CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru
WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

*Cadeirydd /*Chairman:
The Revd Canon Edward J Evans
15 St. Andrews Road, Bridgend, CF31 1RX
e-bost/e-mail: ejevans972@btinternet.com
*ffôn/ tel* : 01656 655511 / 07968 044583

Y*sgrifennydd*/Secretary:
Ms Alice Parry
39 Galleon Way, Cardiff Bay, CF10 4JA
e-bost/e-mail: alice.parry@bridgend.gov.uk
*ffôn/tel*: 07779 168084

10 Chwefror 2020

Annwyl Glercod CYSAG,

Fel y byddwch yn gwybod mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio ar fframwaith cefnogi i addysg grefyddol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru 2022. Roedd y ddogfen hon i fod i gael ei chyhoeddi ar ffurf drafft ar 28 Ionawr 2020, i gael ymgynghori'n llawn arni. Hysbyswyd CCYSAGauC y bu oedi cyn cyhoeddi'r fframwaith drafft a bellach disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ar ddiwedd Chwefror.

Mae Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC yn awyddus i bob CYSAG ymateb a rhoi adborth defnyddiol a manwl ar yr ymgynghoriad hwn er mwyn sicrhau fod lleisiau CYSAGau unigol a'r Awdurdodau Lleol y maent yn eu cynghori, yn cael eu clywed. Yn anffodus, mae'n debyg y bydd llawer o GYSAGau eisoes wedi cynnal eu cyfarfod gwanwyn erbyn i'r fframwaith cefnogi drafft ar gyfer addysg grefyddol gael ei gyhoeddi. Oherwydd hynny byddai Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC yn cymell CYSAGau i ystyried cynnal cyfarfod arbennig (o bosibl yn rhanbarthol gyda CHYSAGau eraill os yw hynny o gymorth) er mwyn edrych ar y drafft ac ymateb iddo.

Hoffai'r Pwyllgor Gwaith atgoffa CYSAGAu y gallai'r ddogfen hon ddod yn faes llafur cytûn i'r ysgolion yn eu Hawdurdod Lleol ac felly bydd yn cael eu dilyn gan ysgolion wrth iddynt gynllunio ar gyfer AG yn y cwricwlwm newydd. Mae'n hanfodol felly fod y fframwaith cefnogi hwn ar gyfer addysg grefyddol yn adlewyrchu anghenion yr ysgolion, yr athrawon a'r dysgwyr yn eu hardal leol a'i fod yn addas i'r ddemograffeg leol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu angen unrhyw gymorth, mae croeso i chi gysylltu.

Yn gywir,

Parchedig Ganon Edward J Evans

**Cadeirydd CCYSAGauC**

This page is intentionally left blank